# 7



Llyn y Fan Fach

# Amcanion Strategol

**Mae'r adrannau ym Mhennod 7 yn manylu ar amcanion strategol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Maent yn nodi'r camau sy'n ofynnol i gyflawni gweledigaeth tymor hir y Parc. Maent yn darparu fframwaith 20 mlynedd sy'n tywys penderfyniadau a rheolaeth y Parc ar gyfer APCBB a'i bartneriaid. Fel y cyfryw, mae'r amcanion strategol yn darparu cyd-destun ar gyfer cynlluniau a strategaethau eraill y Parc a ddyluniwyd i gyflawni deilliannau realistig yn y tymor byr i ganolig, gan gynnwys cynllun gweithredu pum mlynedd â blaenoriaethau (gweler Pennod 8).**

Er symlrwydd, mae pob un o'r amcanion strategol wedi'u grwpio yn bynciau rheoli adnoddau tebyg, er enghraifft Bioamrywiaeth neu Dwristiaeth Gynaliadwy. Er bod gorgyffwrdd sylweddol rhwng y disgyblaethau mewn perthynas â gweithrediad ar lawr gwlad, mae'r grwpiau hyn yn caniatáu esboniad syml o berthnasedd pob pwnc i reoli parc. Mae amcanion strategol perthynol yn cael eu croesgyfeirio lle bo hynny'n briodol. Mae pynciau rheoli adnodd yn cael eu trefnu'n fras yn ôl dyletswydd neu ddiben statudol sy'n cyfateb iddynt. Yn yr achos hwn, mae dyletswydd a dibenion y Parc wedi cael eu talfyrru i ddarparu teitlau ar gyfer prif isadrannau'r bennod hon fel a ganlyn:

- **7.1 Cadw a Gwella'r Parc Cenedlaethol;**
- **7.2 Deall a Mwynhau'r Parc Cenedlaethol a;**
- **7.3 Lles Economaidd a Chymdeithasol Cymunedau Lleol.**

Mae pob isadran yn cynnwys cyflwyniad byr i'r pynciau, cyd-destun a materion allweddol, amcanion strategol perthnasol gyda thestun esboniadol a chroesgyfeiriadau i bynciau eraill sy'n cwmpasu materion tebyg. Mae'r prif bolisïau rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol sy'n gysylltiedig â phob pwnc ym **Mhennod 7** wedi'u rhestru yn **Atodiad 6**.


## 7.1. Cadw a Gwella'r Parc Cenedlaethol

Mae'n adran hon yn nodi amcanion strategol sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â diben statudol cyntaf y Parc Cenedlaethol: cadw a gwella'r harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol. Gyda'i gilydd mae'r amcanion hyn yn disgrifio fframwaith ar gyfer rheolaeth tymor hir, cynaliadwy o adnoddau naturiol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol, gan arwain at gadw a gwella rhinweddau arbennig y Parc. Mae'r amcanion yn corffori'r egwyddorion arweiniol y manylwyd arnynt ym **Mhennod 6** i geisio mynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n wynebu'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol rhagweladwy a ddisgrifiwyd ym **Mhennod 5**. Er bod ffocws pob amcan yn yr adran hon yn ymwneud yn uniongyrchol â'r diben cyntaf ac yn fwy penodol â'r pwnc sy'n cael ei drafod, ystyriwyd y cydberthnasau sy'n bodoli â'r amcanion strategol yn yr adran hon, a rhyngddynt, a'r rheiny mae'r ail ddiben (**gweler Adran 7.2**) a dyletswydd (**gweler Adran 7.3**) yn eu cwmpasu. Ni ellir rheoli natur a diwylliant yn dymor hir ar wahân; mae wedi cysylltu yn annatod â chymunedau a ffactorau economaidd, a pharhad o ran dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r hyn mae pobl yn ystyried yn arbennig am y Parc.

### 7.1.1. Tirwedd

Mae cymeriad tirwedd yn cynnwys llawer o haenau - daeareg, llystyfiant, patrymau caeau ac aneddiadau, adeiladau a chysylltiadau hanesyddol a diwylliannol. Mae tirwedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnwys clytwaith o gefn gwlad sy'n cael ei ffermio, tir comin helaeth, pennau bryniau amlwg, llynnoedd, camlesi ac afonydd dolennog gyda choetiroedd bach cynhenid, lonydd gwledig, gwrychoedd a waliau cerrig, ac aneddiadau gwasgaredig. Gyda'i gilydd mae nodweddion ffisegol y dirwedd yn creu darlun cydseiniol o'r tirlun. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dod i'r Parc i fwynhau'r tawelwch a harddwch naturiol mae nodweddion amrywiol tirwedd y Parc yn cyfrannu ato - yn ffisegol ac yn artistig. Mae





Ar y brig: **Hay Bluff, Mynyddoedd Duon**
Uchod: **Coedwig clychau'r gog**

ansawdd tirwedd y Parc yn cyfrannu at ansawdd bywyd y trigolion ac ymwelwyr.

Mae'r dirwedd a'i haenau cyfansoddol yn newid yn gyson, dan ddylanwad naturiol a dynol. Mae nifer llai o ffermwyr yn rheoli'r cefn gwlad. Mae'r hinsawdd yn newid. Mae afonydd yn dolennu. Er bod newid yn anochel, mae Llywodraeth y DU yn ystyried bod y dynodiad Parc Cenedlaethol yn cyflwyno'r statws uchaf o amddiffyniad o ran tirwedd a harddwch golygfaol.[17] Dan Ddeddfau Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad, paratowyd Map Cadwraeth Adran 3 (**gweler Map 5**) o fynyddoedd, gweunydd, rhostir a choetir i ddarlunio ardaloedd ystyrir ei bod yn arbennig o bwysig eu cadw. Hefyd, mae CCGC wedi datblygu offeryn pennu nodweddion tirwedd - LANDMAP - ar gyfer Cymru gyfan (**gweler Map 9**). Mae'r system wybodaeth ddaearyddol hon yn cynorthwyo'r APCBB a'i bartneriaid wrth ddiffinio a monitro newidiadau gofodol a thymhorol i elfennau gweledol a synhwyraidd, cynefin, daearegol, diwylliannol a thirwedd hanesyddol. Bydd data LANDMAP yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn ogystal â darparu gwybodaeth ar gyfer datblygu strategaeth dirwedd sy'n ceisio cadw rhinweddau arbennig y Parc.

Er bod y Parc a'i adnoddau'n cael eu hamddiffyn er budd pawb, mae llawer o wahanol unigolion a sefydliadau'n berchen ar y tir ac yn ei reoli. O ganlyniad, mae cadw a gwella'r dirwedd - a'i rhinweddau arbennig - yn dibynnu ar gydweithio rhwng y rhanddeiliaid allweddol hyn. Felly mae gan rhanddeiliaid y Parc yr her o annog newid dymunol a pheidio ag annog newid annymunol lle bo hynny'n bosibl. Mae hyn angen gwahaniaeth clir rhwng newid dymunol ac annymunol. Dyluniwyd y Cynllun Rheoli hwn i gynorthwyo â'r broses hon.

17. LICC. Canllawiau Cynllunio (Cymrus) Polisi Cynllunio Diwygiad Cyntaf para. 5.3.6.

Astudiaeth Achos

## Waliau Llangynidr

Mae waliau mynydd yn nodwedd pwysig o dirwedd mynyddoedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, sy'n gwahanu tir comin pori o dir a roddwyd heibio. Mae waliau o'r fath yn elfen bwysig ac amlwg yn y dirwedd, yn darparu tystiolaeth o waith y rheiny a weithiodd y tir yn y gorffennol. Bellach mae waliau cerrig sych yn rhy ddrud ac yn cymryd gormod o amser i ffermwyr eu cynnal. Mae llawer o rannau ohonynt wedi mynd yn bentyrrau o rwbel â gwifren neu glwyd yn llenwi'r bylchau. Mewn rhai mannau, mae'r wal wedi cael ei thynnu, y garreg wedi cael ei werthu er mwyn adeiladu a ffens wifren wedi cael ei osod yn ei lle.

Cychwynnwyd Waliau Llangynidr (WLI) yn 2000 fel prosiect mileniwm pentref i geisio achub y waliau carreg sych yng nghymuned Llangynidr. Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Cymuned Llangynidr, Cymdeithas Waliau Cerrig Sychion ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ffurfiwyd Waliau Llangynidr â dau brif nod. Y cyntaf yw adeiladu a chodi waliau mynydd newydd yn lle rhai sydd wedi cwympo a'r ail yw darparu hyfforddiant crefft waliau cerrig sychion.

Ers 2000 mae Waliau Llangynidr wedi cael ei ariannu gan ymddiriedolaethau lleol a'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy a weinyddir gan APCBB ac mae wedi gallu ailadeiladu 800 metr o wal cerrig sych ar fynyddoedd gan ddefnyddio gweithwyr cymwys. Dyluniwyd meini prawf yn ofalus i nodi pa ddarnau o wal i weithio arnynt ac mae'r rhain yn cynnwys gwirio bod digon o garreg gerllaw i ailadeiladu'r wal, dewis waliau sy'n agos at lwybrau troed cyhoeddus â gwerth ecolegol ac amgylcheddol, a sicrhau cefnogaeth y tirfeddiannwr neu ffermwr lleol.

Mae Waliau Llangynidr wedi darparu cyrsiau wythnos o hyd mewn codi waliau cerrig sych ar gyfer mwy na 100 o hyfforddeion dan gyfarwyddyd hyfforddwyr cymwys proffesiynol a ddarparwyd gan Gangen De Cymru y Gymdeithas Waliau Cerrig Sychion, creu adnodd lleol o godwyr waliau cymwys ar lefel cychwynnol, canolraddol ac uwch.

Yn 2007 daeth Waliau Llangynidr yn rhan o Gymdeithas Parc Bannau Brycheiniog. Mae'r bartneriaeth newydd hon yn darparu'r cyfle i weithio ar raddfa fwy yn y Parc. O'r cychwyn, bwriad WLI oedd bod yn brosiect peilot. Nawr y gobaith yw rhannu'r syniadau i gymunedau eraill yn y Parc. Bydd rhannu syniadau WLI yn arwain at ddau brif ganlyniad: bydd yn datgloi ariannu ar gyfer adfer waliau a hyfforddiant, a bydd yn rhoi mwy o ysgogiad ar gyfer strategaeth Parc-cyfan ar gyfer rheoli carreg naturiol, gan gynnwys mwy o gefnogaeth i ddiogelu ac adfer waliau cerrig sych. Bydd hefyd yn gosod polisi clir ar gyfer defnydd cynaliadwy o gerrig yn y Parc.



## Amcanion Strategol: **Tirwedd**

1. **Cadw a gwella'r teimlad o heddwch, tawelwch a phellenigrwydd a brofir yn y Parc Cenedlaethol drwyddo draw.**

   Dyfynnir yn gyson mai heddwch a thawelwch a rhinweddau pellenigrwydd yw'r prif reswm pam fod pobl yn dod i ymweld â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a byw ynddo. Eto, ceir amrywiaeth o heriau i set flaenaf y Parc o rinweddau arbennig, gan gynnwys: defnydd anghyfreithlon o ddulliau hamdden sy'n cael eu gyrru ymlaen yn fecanyddol, awyrennau sy'n hedfan yn isel, datblygiad parhaus, peilonau a leiniau trydan, cynnydd cymedrol mewn llygredd golau, niferoedd cynyddol o ymwelwyr a ffermydd gwynt sy'n llechfeddiannu. Mae'n anodd monitro a mesur y rhinweddau hyn, er yr ymgymerwyd â mapio llonyddwch yn Lloegr (CPRE, 2005). Bydd i reolaeth hyn fel rhinwedd arbennig ystyried materion gofodol, nodi ardaloedd mwyaf addas ar gyfer "potiau mêl" neu weithgareddau "adrenalin" o'u cymharu ag ardaloedd sy'n cael eu rheoli yn bennaf i gadw ac optimeiddio'r teimlad o lonyddwch. Ceir diffyg data ar gyfer y Parc, er bod CCGC yn datblygu map llonyddwch ar gyfer Cymru. Unwaith bydd y wybodaeth hon ar gael ar raddfa addas, bydd yn gwella dealltwriaeth a rheolaeth o'r dirwedd gan ystyried y rhinweddau arbennig hyn.

2. **Cadw a gwella cymeriad prydferth ac amrywiol y dirwedd trwy reolaeth gynaliadwy, integredig.**

   Bydd newid yn y dirwedd yn cael ei annog er budd bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, amgylchedd adeiledig, economi lleol a threftadaeth ddiwylliannol y Parc. Mae cysylltiadau rhwng tirwedd, bioamrywiaeth, ynni, amgylchedd adeiledig a diwylliant yn bwysig, ond mae'r dirwedd yn fwy na chyfanswm ei rhannau. Rhaid rheoli ei elfennau fel cyfan, gan gydnabod bod newidiadau yn y dirwedd yn gysylltiedig â newidiadau mewn amrywiaeth o arenâu rheolaeth, yn enwedig rheoli amaethyddiaeth, coetir ac ucheldir. Yn gyffelyb, efallai nad yw'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ffocws rheolaeth bwysig yn un rhan o'r Parc o bryder mewn rhan arall. Dylid rheoli newid i gadw tirwedd a rhinweddau arbennig y Parc heb reoli'r Parc fel petai'n ciplun mewn amser a gofod. I fod yn llwyddiannus yn yr ymdrechion hyn, bydd angen asesu cymeriad tirwedd ar draws y Parc i bennu meincnod a fydd yna'n cael ei fonitro'n gyfnodol i ganfod newidiadau - dymunol ac annymunol - a allai ddigwydd. Bydd offeryn LANDMAP CCGC yn cynorthwyo yn yr ymdrech hwn. Dylid seilio penderfyniadau rheolaeth ar y wybodaeth hon a dylid dylunio cynlluniau rheoli i fod er budd y prosesau sy'n cadw a gwella amrywiaeth y Parc o rinweddau arbennig.

3. **Osgoi diraddiad tirwedd y Parc a gwella tir diffaith.**

   Mae rhannau o dirwedd y Parc wedi cael ei diraddio gan ddefnydd anghyfreithlon o gerbydau sy'n cael eu gyrru ymlaen yn fecanyddol, sbwriel a thipio anghyfreithlon, cerbydau wedi'u gadael, rheoli safleoedd tir llwyd yn wael, erydu llwybrau ucheldirol ac weithiau gan ddatblygu a gwaith ffordd. Mae elfennau eraill yn effeithio ar werth y dirwedd a'r ansawdd synhwyraidd sy'n gysylltiedig â'r dirwedd fel datblygu - y tu mewn a'r tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Dylid cymryd camau i leihau'r mathau hyn o weithgareddau gymaint â phosibl lle bo hynny'n bosibl a gwella safleoedd lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, ni ddylai gwaith gwella fod ar draul buddiannau bywyd gwyllt neu archaeoleg ddiwydiannol.

4. **Datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o gymeriad amrywiol tirwedd a'r prosesau sy'n dylanwadu arno.**

   Mae tirwedd brydferth ac amrywiol y Parc yn dibynnu ar ryngweithiad parhaus prosesau naturiol a dylanwadau dynol. Mae pwysigrwydd y berthynas hon yn cael ei ddiogelu yn nynodiad y Parc fel tirwedd Categori V IUCN. Mae angen gwella dealltwriaeth y cyhoedd o'r dirwedd ddynamig hon er mwyn iddynt ofalu amdani a'i mwynhau'n well. Bydd y dirwedd yn cael ei chadw

trwy gefnogaeth dymor hir a chyfranogiad gweithredol rhanddeiliaid y Parc. Mae'r gefnogaeth hon angen i bobl ddeall eu cysylltiad â'r byd o'u hamgylch a sut gallant ddylanwadu arni yn bositif ac yn negyddol. Wrth gwrs, ni ddaw'r ddealltwriaeth hon heb i'r APC a'i bartneriaid barhau i ymgysylltu â'r cyhoedd.

CROES-GYFEIRIO


7.1.4 Amgylchedd Hanesyddol
7.1.5 Amgylchedd Adeiledig
7.1.12 Ffermio
7.1.13 Coetiroedd
7.1.14 Ucheldiroedd
7.2.1 Mynediad a Hamdden Awyr Agored
7.2.2 Addysg
7.2.3 Dehongliad
7.3.2 Twristiaeth Gynaliadwy
7.3.7 Defnydd Milwrol o'r Parc


## 7.1.2. Bioamrywiaeth

Mae cadwraeth bioamrywiaeth yn hanfodol bwysig i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er bod prosesau daearegol wedi cerfio'r tirffurfiau, mae hyn wedi'i orchuddio gan gymysgedd o gynefinoedd naturiol a rhannol-naturiol sy'n cyfrannu at gymeriad tirwedd y Parc. O bersbectif llydan yr ucheldiroedd agored i fanylion bach iawn y rhedyn a mwsoglau sy'n cydio wrth ochrau creigiog nant, mae bioamrywiaeth yn rhwymo ynghyd popeth yw'r Parc a sut mae'n cael ei ganfod, ei werthfawrogi a'i fwynhau.

Mae nifer o safleoedd yn y Parc Cenedlaethol wedi cael dynodiad pellach oherwydd eu bioamrywiaeth bwysig. Mae 76 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (gan gynnwys y rheiny a ddynodwyd ar gyfer nodweddion Gwyddorau'r Ddaear), 11 Ardal Cadwraeth Arbennig a saith Gwarchodfa Natur Cenedlaethol. Mewn rhai achosion efallai y bydd gan safle bob un o'r tri dynodiad, er nid o fewn yr un ffiniau o angenrheidrwydd (**gweler Map 6**). Mae'r safleoedd hyn â dynodiad yn cynrychioli'r enghreifftiau gorau o gynefinoedd



Gwarchodfa Natur Cenedlaethol Craig y Cilau

a phoblogaethau rhywogaeth yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r adnoddau biolegol mae'r safleoedd hyn yn eu cynnwys, a drwy gydol gweddill y Parc Cenedlaethol yn cael eu disgrifio'n fwy llawn yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol y Parc.

Mae'r safleoedd hyn â dynodiad yn ffurfio rhwydwaith craidd sy'n cynrychioli'r enghreifftiau gorau o gynefinoedd a rhywogaethau, ond ni allant gynnal bioamrywiaeth bwysig ar eu pen eu hunain. Mae colli cynefinoedd a dosbarthiad tameidiog cynefinoedd sy'n aros yn heriau allweddol i fynd i'r afael â hwy.

Mae rhywogaethau wedi'u cysylltu'n agos trwy'r perthnasau cymhleth sy'n adeiladu ecosystemau, ac felly rhaid defnyddio gweledigaeth lydan wrth reoli bioamrywiaeth. Mae'r dull hwn o weithredu ar raddfa-dirwedd yn darparu lle ar gyfer ecosystemau cyfan ac yn hanfodol i ddarparu amgylchedd naturiol cadarn a swyddogaethol lle gall bywyd gwyllt ffynnu. Mae'r dull hwn o weithredu yn hwyluso rheoli bioamrywiaeth



Glas y dorlan



Ystlum lleiaf


Dyfrgi


Pathew Cyll


Tawddrudd Crynddail


Tormaen Glasgoch

ar nifer o raddfeydd, yn enwedig cysylltedd cynefinoedd. Mae cysylltedd cynefinoedd yn gwella bioamrywiaeth trwy gael gwared ar rwystrau i symudiadau rhywogaethau, ehangu cynefinoedd a sicrhau nad yw safleoedd pwysig yn ynysedig; mae'n cynyddu'r cyfleoedd i fioamrywiaeth symud a ffynnu mewn tir fferm, coedwigaeth ac aneddiadau sy'n amgylchynu'r cynefinoedd.

Mae adnodd bioamrywiaeth sy'n ffynnu yn darparu nifer o fuddion i'r Parc Cenedlaethol. Mae amaethyddiaeth yn dibynnu ar ffurfiant pridd, llif dŵr a pheilliad, i gyd yn cael eu darparu gan ecosystemau sy'n weithredol. Mae'r ucheldiroedd yn chwarae rôl arwyddocaol wrth storio a rhyddhau dŵr, gan ddarparu amddiffyniad naturiol yn erbyn sychdwr a gorlif. Mae bioamrywiaeth hefyd yn darparu cyfleoedd i hamddena a mwynhau. Mae holl wasanaethau hyn naill ai'n cyfrannu at les cymdeithasol ac economaidd y Parc, neu fel arall byddent yn waharddol o ddrud i'w disodli.

## Amcanion Strategol: **Bioamrywiaeth**

1. **Defnyddio dull o ymdrin â chadw bioamrywiaeth ar raddfa dirwedd, a adeiladwyd ar reolaeth dda o dir, aer ac ansawdd dŵr.**

   Mae ansawdd dŵr, pridd ac aer wrth wraidd ecosystemau sy'n weithredol. Mae ansawdd gwael o ran yr adnoddau naturiol sylfaenol hyn yn effeithio ar fioamrywiaeth ond hefyd yn effeithio ar gynhyrchiad amaethyddol ac iechyd dynol. Mae'r prosesau hyn yn gweithredu ar draws ardaloedd mawr o dir ac wedi'u cysylltu'n agos. Gall dulliau o weithredu fel Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon - sydd eisoes wedi'i roi ar waith gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru - yn gallu darparu buddion pellgyrhaeddol trwy fynd i'r afael ag achosion gwreiddiol problemau amgylcheddol. Mae'n hanfodol bod gweledigaeth eang yn cael ei defnyddio wrth reoli'r adnoddau hyn.

2. **Darparu'r amcanion strategol hyn trwy bartneriaethau â chyrff priodol gan gynnwys APCBB, ffermwyr a grwpiau ffermio, Awdurdodau Lleol, LICC, cyrff y Llywodraeth, grwpiau cymunedol, elusennau, cyrff gwirfoddol a defnyddwyr hamdden.**

   Mae systemau naturiol y Parc Cenedlaethol yn anhygoel o gymhleth. Gyda gwahanol sefydliadau ac unigolion yn gyfrifol am reoli gwahanol ardaloedd, rhaid dilyn dull cydlynol o weithredu i sicrhau bod yr adnodd bioamrywiaeth yn cael ei reoli yn effeithiol. Nid yw'n bosibl i un sefydliad darparu'r buddion hun ar ei ben ei hun. Rhaid datblygu cyfathrebu a phartneriaethau effeithiol i sicrhau bod gwahanol sefydliadau yn gallu gweithio gyda'i gilydd i ddarparu gweledigaeth a rennir. Mae data cadarn am ddosbarthiad cynefinoedd a rhywogaethau ochr yn ochr â mwy o ddealltwriaeth o anghenion rhywogaethau, systemau naturiol a phrosesau cymdeithasol-economaidd yn hanfodol i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y penderfyniadau mae'r partneriaethau hyn yn eu gwneud. Mae'r rhwydwaith o Ganolfannau Cofnodion Lleol yng Nghymru yn helpu'r partneriaid trwy storio a lledaenu data mae unigolion a sefydliadau'n eu casglu.

3. **Integreiddio cadwraeth bioamrywiaeth effeithiol i systemau amaethyddiaeth a choedyddiaeth sy'n hyfyw yn economaidd.**

   Mae'r ymgyrch i gynhyrchu bwyd a choed wedi cynhyrchu mosaig tirwedd addasedig iawn ond un sy'n darparu craidd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol a'r patrymau tirwedd mae'r Parc yn adnabyddus amdanynt. Mae cynefinoedd rhannol-naturiol, yn enwedig glaswelltir a gweundiroedd grug, yn bennaf yn sgil gynnyrch ffermio ac ni ellir eu cynnal heb y cynhyrchedd hwn neu heb bori gan dda byw. Mae pori yn gynaliadwy a hefyd yn cynhyrchu gwell cynefinoedd bywyd gwyllt ar lawer o'r safleoedd ucheldirol nag y byddai peiriannau'n cyflawni ar eu pen eu hunain. Yn aml mae'n waharddol o ddrud, yn anymarferol ac yn llai effeithiol cyflwyno rheolaeth â pheiriannau neu â llaw yn



Mursennod Gleision Cyffredin



Cimwch crafangau gwyn

lle cynlluniau pori traddodiadol. Mae'r sylfaen wybodaeth a sgiliau, sy'n cael ei hadeiladu dros genedlaethau o brofiad rheoli tir, yn adnodd digymar a fydd dim ond yn cael ei gynnal gan genedlaethol o ffermwyr a choedwigwyr yn y dyfodol. Mae hyfywdra economaidd systemau ffermio yn hanfodol i'r economi lleol, i ddarpariaeth fwyd lleol a rheolaeth lwyddiannus ardal mor fawr o dir.

4. **Cynnal maint ac ansawdd cynefinoedd â blaenoriaeth ac amrywiaeth a/neu boblogaeth rhywogaethau â blaenoriaeth.**

Mae'n hanfodol cydnabod bod swm y cynefin naturiol neu rannol-naturiol wedi gostwng yn fawr yn ystod y ganrif ddiwethaf. Mae'r pwynt yn prysur agosáu pan na fydd y fioamrywiaeth sy'n parhau bellach yn ddigonol i ddarparu dyfodol cynaliadwy ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau. Ffracsiwn yn unig o'r hyn oedd yma yn y gorffennol yw'r hyn sy'n parhau heddiw. I sicrhau nad oes unrhyw golled pellach o ran bioamrywiaeth bydd yn hanfodol cadw'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth (h.y. cynefinoedd a rhywogaethau sydd o'r pwys mwyaf i Gymru).

Y tu hwnt i gynnal swm y cynefin yn syml, rhaid rheoli'r cynefin hwn yn sympathetig i gynnal ei ansawdd fel bod prosesau naturiol yn sicrhau bod y cynefin yn gweithredu fel rhan o'r ecosystem ehangach.

5. **Sicrhau bod rheolaeth gynaliadwy safleoedd dynodedig yn cynnal cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaeth ar statws cadwraeth ffafriol.**

Fel enghreifftiau o'r cynefinoedd a rhywogaethau gorau yn y Parc Cenedlaethol (**gweler Map 6**), mae'n hanfodol sicrhau bod safleoedd dynodedig (e.e., SoDdGAoedd, SACs, GNGeydd) yn dod i mewn i statws cadwraeth ffafriol, neu'n aros ynddo. Mae'r dynodiadau'n darparu'r dull i sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael eu rheoli ag ystyriaeth arbennig i gadwraeth bioamrywiaeth. Mae perchnogion safleoedd dynodedig yn gweithio'n agos â CCGC i gytuno ar reolaeth positif a'i darparu. Mae dal i fod angen rheoli'r safleoedd hyn mewn cyd-destun ehangach, yn enwedig os yw'r safle yn fawr, â nifer o berchnogion neu fuddiannau cysylltiedig neu'n dibynnu ar ansawdd cynefin heb ddynodiad sy'n ei amgylchynu fel afon. Gellir ystyried bod safleoedd dynodedig yn safleoedd ffocal ar gyfer datblygu ecosystemau sy'n weithredol ar raddfa dirwedd. Gall eu rheolaeth gynaliadwy fod yn gatalydd i gyflawni cyflwr cynefin gwell yn y tir sy'n eu hamgylchynu. Mae Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru yn rhestru targedau ar gyfer cyfran y safleoedd dynodedig i'w dwyn i statws cadwraeth ffafriol, neu i'w cadw yn y statws hwn.

6. **Sicrhau bod ardaloedd heb ddynodiad ar draws y Parc hefyd yn cynnwys digon o gynefin mewn cyflwr ffafriol i ddarparu tirwedd o ansawdd uchel cydgysylltiedig i gadw a gwella rhywogaethau â blaenoriaeth.**

Cafodd safleoedd dynodedig eu dethol i gynrychioli'r safleoedd mwyaf gwerthfawr ar gyfer cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaeth. Hefyd, mae ardaloedd heb ddynodiad yn bodoli ar draws y dirwedd sy'n cynnwys cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaeth sydd hefyd yn werthfawr i ymdrechion cadwraeth er nad ydynt wedi cael dynodiad felly. Yn union fel y mae'r safleoedd dynodedig yn ffurfio rhwydwaith o'r safleoedd pwysicaf ar gyfer bioamrywiaeth, rhaid i'r cefn gwlad ehangach yn y dirwedd fferm, coedwig a threfol gefnogi'r rhwydwaith hwn. Mae safleoedd heb ddynodiad o ansawdd uchel yn helpu i ehangu'r rhwydwaith hwn o fioamrywiaeth oherwydd eu bod yn darparu amrywiaeth genetig ychwanegol, safleoedd diogel, amrediad cartref ehangach, llwybrau mudo a byfferau rhag aflonyddwch a phethau eraill sy'n gyrru newid. Mae safleoedd a ddynodwyd ar gyfer rhywogaethau symudol iawn yn arbennig yn dibynnu ar ansawdd y tir sy'n eu hamgylchynu. Mae nodweddion naturiol fel coridorau afon a chynefinoedd

rhannol-naturiol fel gwrychoedd a choetiroedd llinellol yn gysylltiadau hanfodol rhwng ardaloedd o gynefin o ansawdd uchel ac maent yn hanfodol i rywogaethau symud o gwmpas. Heb ystyried bioamrywiaeth ar draws y cefn gwlad ehangach, bydd y fioamrywiaeth o fewn y safleoedd dynodedig yn dirywio neu'n mynd yn waharddol o ddrud i'w chefnogi, yn enwedig mewn hinsawdd sy'n newid.

7. **Bodloni ac, os yw'n bosibl, rhagori ar y targedau bioamrywiaeth leol ar gyfer adfer ac ehangu cynefinoedd ac ehangu patrymau dosbarthiad rhywogaethau a meintiau poblogaeth.**

Mae'r DU wedi llunio targedau ar gyfer adfer ac ehangu cynefinoedd ac mae'r rhain hefyd yn dargedau ar gyfer y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Mae hyn i sicrhau bod digon o gynefin yn parhau i gyfrannu at ecosystemau sy'n weithredol a darparu ar gyfer poblogaethau rhywogaeth gynaliadwy. Mae angen ehangu maint cynefinoedd allweddol i helpu i leihau darniad ac adfer poblogaethau ac amrywiaethau blaenorol y rhywogaeth darged. Er bod cadw cynefin sydd eisoes yn bodoli yn amcan, efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl o ystyried newidiadau sy'n deillio o brosesau naturiol neu newid yn yr hinsawdd. Hefyd efallai y bydd yn ddymunol ystyried ailgyflwyno rhywogaethau a oedd yn bresennol yn y Parc Cenedlaethol yn y gorffennol, neu gyflwyno unigolion newydd i gynyddu gwydnwch poblogaeth sy'n lleihau, fel gwnaethpwyd mor llwyddiannus â'r barcud coch. Ni fyddai hyn yn digwydd heb gynnal ymgynghori helaeth yn gyntaf â rhanddeiliaid, Llywodraeth a chyrff cadwraeth.

8. **Ceisio datrysiadau arloesol i heriau amgylcheddol sy'n integreiddio cadwraeth bioamrywiaeth ag addysg, dehongliad, blaenoriaethau eraill wrth reoli adnoddau, a chynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.**

Mae'r adnoddau i gadw bioamrywiaeth yn gyfyngedig iawn. Felly, mae'n hanfodol cyfeirio adnoddau tuag at achosion colled bioamrywiaeth yn hytrach na'r symptomau. Er enghraifft, efallai y bydd colled bioamrywiaeth o ganlyniad uniongyrchol i ddiffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig â chadwraeth a mesurau sy'n ofynnol i'w chynnal. Gall buddsoddi mewn rhaglenni addysg a dehongliad sy'n ceisio atal colled bioamrywiaeth fod yn fuddiol iawn ac yn gost effeithiol yn y tymor hir. Wrth i wybodaeth am brosesau naturiol gynyddu, ceir cyfleoedd i ddatblygu datrysiadau newydd. Yn aml gall y datrysiadau hyn ddarparu buddion ehangach y tu hwnt i enillion bioamrywiaeth, fel lliniaru gorlifo a chadw ffrwythlondeb pridd. Mae buddion economaidd yn gysylltiedig â'r ddau beth yma. Yn ei hanfod, mae dull cydweithredol, integredig o ymdrin â chadw bioamrywiaeth yn darparu mwy o fuddion i gynulleidfa ehangach yn fwy effeithiol ac yn rhad.

CROES-GYFEIRIO


7.1.1 Tirwedd
7.1.12 Ffermio
7.1.13 Coetiroedd
7.2.1 Mynediad a Hamdden Awyr Agored
7.2.2 Addysg
7.2.3 Dehongliad
7.3.1 Cymunedau Cynaliadwy

### 7.1.3. Geoamrywiaeth

Geoamrywiaeth yw'r amrywiaeth o greigiau, ffosilau, mwynau, (**gweler Mwynau ac Adnoddau Pridd**), tirffurfiau a phrosesau daearegol sy'n cynnwys topograffi, tirwedd a strwythur sylfaenol y Ddaear.

Creigiau Hen Dywodfaen Coch (CHDC) yw'r rhan fwyaf o'r Parc, o oed Dyfnantaidd yn bennaf, sy'n ymestyn ar draws ei holl led (**gweler Map 3**). Mae'r rhain yn ffurfio tarenni'r Mynydd Du, Fforest Fawr, Bannau Brycheiniog a'r Mynyddoedd Du sy'n wynebu'r gogledd a'r gogledd ddwyrain, sef copaon uchaf y Parc, a hefyd y llwyfandiroedd isel i'r gogledd a'r llwyfandiroedd uchel i'r de o'r llethrau serth hyn.

Mae creigiau hŷn Ordoficaidd a Silwraidd Canolbarth Cymru i'w canfod ar hyd ffin gogledd-orllewinol y Parc. Mae'r creigiau hyn wedi ffurfio tirwedd o gefnau a dyffrynnoedd sy'n gogwyddo o'r de orllewin i'r gogledd ddwyrain. Mae creigiau Carbonifferaidd ymyl gogleddol maes glo De Cymru yn gorchuddio'r Hen Dywodfaen Coch i'r de, er eu bod fel arfer ar uchder is oherwydd goleddu'r strata. Y mwyaf amlwg o'r rhain yw rhwymyn o galchfaen, sy'n ffurfio tarren amlwg mewn mannau. I'r de o hyn mae sgarpiau a llwyfandiroedd Grut Melinfaen, ac mae Gwythiennau Glo yn brigo mewn mannau ar hyd ffin ddeheuol y Parc. Ymhlith nodweddion geomorffolegol pwysig eraill mae tarenni, rhaeadrau a cheunentydd, yn aml yn gysylltiedig yn agos â strwythurau daearegol sylfaenol. Mae tystiolaeth eang o rewlifiant, gan gynnwys wynebau creigiau serth dan ymylon gogleddol a dwyreiniol y llwyfandiroedd Hen Dywodfaen Coch, llenni o glog-glai, craig rhychresog noeth, clogfeini crwydraidd a marianau rhewlifau dyffryn mawr fel Wysg a Thawe a'r rhewlifoedd llai a datblygodd yng nghysgod gwynt llwyfandiroedd golethr. Ymhlith nodweddion ôl-rewlifol mae llwyfandiroedd a golethrau â blanced o fawn arnynt, gorlifdiroedd afonydd, tirlithriadau/creigiau sydd wedi cwympo ar lethr a bwâu llifwaddodol bach.

Mae gan galchfaen y Parc nodweddion carst o arwyddocâd Ewropeaidd, gan gynnwys palmentydd calchfaen, heidiau o lyncdyllau a rhai o'r systemau ogof hiraf ym Mhrydain. Mae rhai ogofau o arwyddocâd archaeolegol neu hanesyddol, ac mae rhai, ynghyd â nodweddion daearegol a geomorffolegol eraill, wedi'u diogelu fel SoDdGAoedd, GNGeydd ac SACs oherwydd eu cyfraniadau at geoamrywiaeth a/neu eu pwysigrwydd biolegol. Mae llync-dyllau yn fynegiant cyffredin ar y wyneb o ddatblygiad ogof dan y ddaear, yn aml wedi datblygu'n anhygoel mewn ardaloedd lle mae strata Grut Melinfaen dros y calchfaen.

Mae geoamrywiaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog



**Hen Dywodfaen Coch**



**Cribyn o Pen y Fan**

wedi cael ei chydnabod ers cyfnod hir - sefyllfa a danlinellwyd yn fwy diweddar trwy ddynodi hanner gorllewinol y Parc fel Geoparc y Fforest Fawr. Mae'r rhyngweithio rhwng dyn a natur dros y 7000 mlynedd ddiwethaf yn elfen allweddol o'r gydnabyddiaeth hon. Mae tystiolaeth o'r rhyngweithio hwn mewn olion archaeolegol ac olion archaeolegol diwydiannol ar draws y Parc. Mae tirweddau ôl-ddiwydiannol ymylon deheuol y Parc yn enwedig yn dyst i'r ymelwa ar adnoddau mwynol naturiol yn ystod y 19eg ac 20fed ganrif a sicrhaodd y byddai De Cymru yn dod yn bwerdy'r Chwyldro Diwydiannol ac yn gyfrannwr pwysig at dwf diwydiannol Prydain. Mae'r stori hon yn cael ei chynrychioli yn Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon, mae rhan ohono'n gorwedd o fewn ffin de ddwyreiniol y Parc.

Mae rhai trefniannau creigiau wedi darparu adnodd cerrig adeiladu ac mae rhai eraill yn adnoddau dŵr daear pwysig, neu ddyfrhaenau. Mae angen gwahanol ffurfiau o amddiffyniad ar y ddau. Mae rhai chwareli wedi'u gadael a safleoedd a adferwyd yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau hamdden anffurfiol fel dringo, a beicio mynydd, ond gallant hefyd ddioddef gan ddefnydd heb awdurdod o gerbydau/ beiciau modur a thipio anghyfreithlon. Gallant ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymchwil, addysg a dehongliad daearegol. Mae codau ymarfer yn bodoli ar gyfer y gweithgareddau hyn. Fodd bynnag, gall casglu ffosiliau a mwynau ddifrodi trefniannau ac achosi colled adnoddau gwyddonol, yn enwedig pan fydd hyn yn cael ei wneud er budd masnachol. Er enghraifft, mae gweithgareddau tebyg wedi achosi difrod i balmentydd calchfaen, gan gynnwys eu symud ar gyfer addurniadau gardd. Mae palmentydd calchfaen yn darparu cynefinoedd prin a phwysig yn ogystal â bod yn drefniannau daearegol arwyddocaol. Fel yn achos gweithgareddau eraill o'r natur hwn, ni ddylid eu cynnal heb ganiatâd eglur y tirfeddiannwr.

Ymgymerwyd ag archwiliadau o geoamrywiaeth y rhanbarth ac ar hyn o bryd mae asesiad o'r potensial i ddynodi safleoedd daearegol a geomorffolegol (RIGS) sy'n bwysig yn rhanbarthol yn cael ei gynnal ar draws y Parc a'r isranbarth. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu Cynllun Gweithredu Geoamrywiaeth Lleol (CGGL) ar gyfer y Parc yn y dyfodol agos.



**Canol y Bannau**


Teithiau cerdded wedi'u tywys yn y Geoparc


Craig y Ddinas ger Pontneddfechan

## Amcanion Strategol: **Geoamrywiaeth**

1. **Cadw a gwella safleoedd daearegol dynodedig.**

   Er bod rhywfaint o geoamrywiaeth y Parc yn gadarn iawn, mae rhai rhannau yn fwy agored i erydiad, pwysau hamdden, gwaith mwynhau neu ffurfiau eraill o ddefnydd a datblygu. Mae geoamrywiaeth yn gyfrannwr pwysig at fioamrywiaeth y Parc ac yn annatod i dirwedd ac amaethyddiaeth y Parc, sydd eu hunain yn cyfrannu at ansawdd bywyd trigolion ac ymwelwyr.

2. **Nodi a diogelu safleoedd arwyddocaol eraill o bwysigrwydd daearegol a/neu werth cadwraeth natur, fel palmentydd calchfaen.**

   Nodwyd pedwar ar bymtheg SoDdGA daearegol/ geomorffolegol yn y Parc sy'n cwmpasu 15,808 hectar, ond mae'r gwaith o nodi safleoedd ail haen yn llai cyflawn, gan gynnwys RIGS. Mae rhai safleoedd daearegol fel nodweddion carreg galch yn werthfawr ar gyfer geoamrywiaeth a bioamrywiaeth ac mae'n debyg mai'r rhain yw nodweddion geoamrywiaeth mwyaf agored i niwed yn y Parc. Gall ogofau a phalmentydd calchfaen gael eu difrodi gan ysbeilio, chwarela, llygredd a phwysau hamdden.Yn aml mae llync-dyllau yn cael eu defnyddio ar gyfer gollwng sbwriel.

3. **Gwella dealltwriaeth a mwynhad o geoamrywiaeth ardderchog y Parc.**

   Mae daeareg a geomorffoleg y Parc yn creu'r dirwedd y mae cymaint o bobl yn dod i'r Parc i'w mwynhau ac sy'n cael ei hadnabod yn genedlaethol a rhyngwladol. Mae adnoddau a phrosesau daearegol hyn hefyd wedi llunio, yn rhannol, adnoddau amaethyddol, bioamrywiaeth y Parc, yr economi lleol, yr amgylchedd adeiledig, ei hanes, a'r diwylliant rhanbarthol. Heb well ddealltwriaeth o gysylltiad cymdeithas â'r adnoddau a phrosesau hyn, mae'n debygol y bydd pobl yn colli golwg ar eu pwysigrwydd ac, yn eu tro, yn eu difrodi neu ddinistrio. Mae gan Geoparc y Fforest Fawr rôl arwyddocaol i'w chwarae wrth gyflawni'r amcan strategol hwn trwy ei ymwneud uniongyrchol â phartneriaethau cymunedol a busnes. Un o brif gydrannau cenhadaeth y Geoparc yw gwella dealltwriaeth a mwynhad adnoddau daearegol.

CROES-GYFEIRIO


| | |
|---|---|
| 7.1.1 | Tirwedd |
| 7.1.2 | Bioamrywiaeth |
| 7.1.4 | Amgylchedd Hanesyddol |
| 7.1.12 | Ffermio |
| 7.1.13 | Coetiroedd |
| 7.1.14 | Ucheldiroedd |
| 7.2.1 | Mynediad a Hamdden Awyr Agored |
| 7.2.2 | Addysg |
| 7.2.3 | Dehongliad |
| 7.3.3 | Geoparc y Fforest Fawr |

## 7.1.4. Amgylchedd Hanesyddol

Cafodd diben cyntaf dynodiad Parc Cenedlaethol ei ehangu yn Neddf yr Amgylchedd 1995 i gynnwys cadw a gwella treftadaeth ddiwylliannol y Parc am y tro cyntaf. Mae "diwylliant" yn cynnwys popeth mae pobl yn creu neu'n gwneud, ac mae "treftadaeth" yn cynnwys popeth a gafodd ei wneud neu ei feddwl yn y gorffennol ac sy'n parhau heddiw. Mae'r adran hon a'r adran nesaf (**gweler 7.1.5 Amgylchedd Adeiledig**) yn cwmpasu'r agweddau hynny ar dreftadaeth ddiwylliannol sy'n cynnwys yr amgylchedd hanesyddol a nodweddion adeiledig. Mae **Adran 7.1.6 Diwylliant a Thraddodiadau** yn cynnwys yr agweddau anniriaethol ar ddiwylliant: iaith, llenyddiaeth, cerddoriaeth, crefydd, arferion, llên gwerin, crefftau, celf, pobl a ffyrdd o fyw.

Un o gydrannau hanfodol tirwedd y Parc yw ei ddyfnder hanesyddol, sy'n cael ei amlygu gan dirweddau hanesyddol, safleoedd archaeolegol, parciau a gerddi a'r amgylchedd adeiledig. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys olion materol ffyrdd o fyw yn y gorffennol. Cynnyrch digwyddiadau yn y gorffennol yw cymdeithas heddiw, ac mae dealltwriaeth ddynol o'r gorffennol hwnnw yn ffactor allweddol wrth ddeall y presennol a rheoli ar gyfer y dyfodol. Mae'r dirwedd gyfan yn gynnyrch gweithgaredd dynol yn y gorffennol. Mae patrymau caeau neu ddefnydd tir, neu systemau cludiant fel Camlas Aberhonddu-Sir Fynwy a'i thramffyrdd cysylltiedig, yn nodweddion hanesyddol yn eu rhinwedd eu hunain, a bellach ystyrir y nodweddion unigol - fel megalithau neu fyntiau - sydd wedi bod yn ffocws sylw yn y gorffennol, fel rhan o gyfan ehangach. Gan dderbyn bod y dirwedd yn ddynamig ac ni ellir ei ffosileiddio, mae cynaliadwyedd yn gofyn bod angenrheidiau bywyd modern yn cael eu hystyried ar y cyd ag amddiffyniad nodweddion a thirweddau hanesyddol pwysig. Fel yn achos cydrannau eraill o'r dirwedd fyw hon, mae hefyd yn rhaid ystyried amgylchedd hanesyddol y Parc yng nghyd-destun y dirwedd ehangach, gan gynnwys yr amgylchoedd y tu allan i'w ffin.

Mae tirweddau hanesyddol y Parc yn niferus ac amrywiol. Mae rhai ohonynt wedi cael eu dynodi oherwydd eu harwyddocâd rhyngwladol fel Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, mae 48% ohono o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae rhai, a nodwyd eu bod o ddiddordeb arbennig yng nghyd-destun Cymru, ag elfennau cynhanesyddol, canoloesol a diwydiannol pwysig,



Castell Carreg Cennen



Maenhir Maen Llia

wedi'u cynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol neu Arbennig yng Nghymru. Ymhlith y rhain mae: Dyffryn Tywi, y Mynydd Du a Mynydd Myddfai, Dwyrain y Fforest Fawr a Mynydd-y-Glog, Ceunant Clydach, Canol Dyffryn Wysg, Aberhonddu a Llangors, Blaenafon a Chanol Dyffryn Gwy.

Hefyd mae Cadw a'r Cyngor Rhyngwladol ar Henebion a Safleoedd (ICOMOS) wedi cynnwys gerddi a pharciau hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol ar gofrestr ar wahân. Dyma'r Parciau a Gerddi Cofrestredig yn y Parc yn llwyr neu'n rhannol: Parc Ceirw Priordy'r Fenni, Abercynrig, Tŷ Buckland, Castell a Pharc Gwledig Craig-y-nos, Ffrwdgrech, Glangrwyney Court, Parc Glanwysg a Phenmyarth, Gliffaes, Castell y Gelli Gandryll, Llanfihangel Court, Parc Llangatwg, Llwynywermod, Penpont, Plas Llangatwg, Treberfydd, Trefecca Fawr a Threwyn. Gellir ychwanegu mwy o safleoedd i'r ddwy gofrestr.

O fewn tirwedd y parc mae llawer o wahanol safleoedd archaeolegol a hanesyddol sy'n dyst i draddodiadau a gweithgareddau dynol yn y gorffennol. Mae safleoedd pwysig o'r fath yn amrywio o'r cyfnod Mesolithig i olion diwydiannol diangen ychydig ddegawdau o oed yn unig. Allan o dros 12,000 o gofnodion ar gyfer y Parc yng Nghofnodion Amgylchedd Hanesyddol Rhanbarthol Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru (YACau), mae 342 (Mawrth 2009) wedi'u hamddiffyn fel Henebion Cofrestredig (HCion). Mae HCion yn safleoedd dynodedig o bwysigrwydd cenedlaethol, ond nid yw pob safle o bwysigrwydd cenedlaethol yn gofrestredig. Cadw sy'n darparu'r prif gyllid am gadwraeth HCion, ond mae tirfeddianwyr neu reolwyr yn darparu'r rhan fwyaf o adnoddau sy'n cael eu gwario ar eu cadwraeth.

Mae Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) yn datblygu a hybu dealltwriaeth o dreftadaeth archaeolegol, adeiledig a morwrol Cymru, fel dechreuwr, curadur a chyflenwr gwybodaeth awdurdodol ar gyfer unigolion sy'n gwneud penderfyniadau yn unigol, mewn corfforaethau ac mewn llywodraeth, ymchwilwyr a'r cyhoedd. Mae'n cynnal



**Bryngaer Pen y Crug ger Aberhonddu** (©CBHC)

Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru (CHCC), y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru. Mae'n ariannu'r Fenter Archaeoleg Ucheldiroedd yn y Parc Cenedlaethol ac ar draws Cymru, yn ogystal â rhaglen genedlaethol o fesuriad tir o'r awyr. Mae YACau yn dal a chynnal y Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol. Trwy gymorth grant oddi wrth Cadw mae yn darparu gwybodaeth a chyngor cychwynnol i APCBB am reoli amgylchedd hanesyddol y Parc. Hefyd mae YACau yn darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol pellach am amgylchedd hanesyddol i APCBB yn ei rôl fel awdurdod cynllunio. Mae'r APCBB a'i bartneriaid yn ceisio osgoi difrod i nodweddion ond maent hefyd yn ceisio gwella cyflwr henebion mewn ffordd ragweithiol trwy gyngor rheoli tir, rheoli datblygiad a chodi ymwybyddiaeth trwy ddehongli ac addysg, yn ogystal â thrwy waith cadwraeth ymarferol. Mae addysgu a chynnwys y cyhoedd, oedolion a grwpiau o ysgolion, yn agwedd bwysig ar waith APCBB.

Ni ddylid anwybyddu pwysigrwydd safleoedd hanesyddol heb ddynodiad sy'n amrywio o ran ffurf ac sy'n cynnwys llawer o safleoedd ac adeiladau o arwyddocâd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Dylai partneriaid gydweithio i greu rhestrau lleol o safleoedd ac adeiladau heb ddynodiad i bwysleisio pwysigrwydd y nodweddion hyn yn yr amgylchedd hanesyddol. Dylid integreiddio rheolaeth amgylchedd

hanesyddol y Parc â ffactorau eraill pwysig, fel bioamrywiaeth a gweithgareddau hamdden. Mae angen dylunio datblygiad modern a rheolaeth tir o fewn yr amgylchedd hanesyddol yn ofalus fel na fydd yn amharu ar y naws am le. Mae cadwraeth barhaus archaeoleg a thirweddau hanesyddol y Parc yn dibynnu ar gydnabod y ffactorau hyn, a phawb y mae eu gweithgareddau yn effeithio arnynt yn mabwysiadu dull sympathetig o reoli. Bydd ymwneud cynyddol CCGC â thirweddau hanesyddol (fel nodwyd ar y cyd â Cadw ac ICOMOS), ac asesiadau’r Ymddiriedolaethau Archaeolegol o ardaloedd tirwedd yn cyfrannu at y broses hon.

Mae’r Mesur Diogelu Treftadaeth sy’n cael ei drafod gan LICC (Mawrth 2009) yn manylu ar ddiwygiadau o ran diogelu treftadaeth sy’n ceisio darparu dull integredig o ymdrin â rheoli’r amgylchedd hanesyddol. Bydd HCion, adeiladau rhestredig, parciau a gerddi cofrestredig a thirweddau hanesyddol yn cael eu dwyn ynghyd mewn un gofrestr o asedau treftadaeth. Bydd y Mesur hefyd yn gofyn i Awdurdodau Lleol greu, cynnal a/neu gael mynediad at Gofnodion Amgylchedd Hanesyddol sy’n cynnwys pob math o ased treftadaeth.

## Amcanion Strategol: **Amgylchedd Hanesyddol**

1. **Cefnogi ac annog, trwy weithio mewn partneriaeth, datblygiad a hyrwyddiad strategaeth ranbarthol ar gyfer deall, diogelu, rheoli, monitro, codi ymwybyddiaeth a mwynhau amgylchedd hanesyddol y Parc.**

   Mae angen golwg cyfannol ar amgylchedd hanesyddol y Parc a’r strategaethau ar gyfer ei gadw a’i ddehongli. Dylid gosod y dull hwn o weithredu yng nghyd-destun cwmpasoedd y Parc a Chymru ehangach. I fod mwyaf effeithiol, rhaid i’r strategaeth beidio â chanolbwyntio’n unig ar ddiogelu’r adnoddau a nodwyd ond hefyd canolbwyntio ar eu gwella lle bynnag bo hynny’n bosibl a hybu parhad o ran eu mwynhad a’u dealltwriaeth. Mae angen parhad o ran arolygu, ymchwilio a dadansoddi i wella dealltwriaeth a sicrhau ei fod, yn y lle cyntaf, yn cael ei gydnabod ac yna’i reoli’n briodol er budd trigolion ac ymwelwyr i’r Parc. Byddai’r strategaeth hon yn annog dull cydlynol o ymdrin â rheoli’r amgylchedd hanesyddol ymhlith amrywiaeth o bartneriaeth sy’n gysylltiedig wrth hwyluso monitro a chyfnewid data tymor hir.

2. **Diogelu a rheoli tirweddau hanesyddol.**

   O fewn y Parc mae angen cael fframwaith unedig ar gyfer rheoli tirweddau hanesyddol fel is-set o’r amgylchedd hanesyddol, wedi’i gefnogi gan waith CCGC a’r Ymddiriedolaethau Archaeolegol. Dylai’r fframwaith hwn arwain at lunio a gweithredu cynlluniau rheoli sy’n targedu tirweddau hanesyddol y Parc.

3. **Diogelu a rheoli parciau a gerddi hanesyddol.**

   Bellach mae parciau a gerddi hanesyddol yn cael cydnabyddiaeth ddyledus a dylent barhau i gael sylw cynyddol yn y dyfodol. Dylid parhau i ymdrechu i gatalogio ac asesu parciau a gerddi nad ydynt ar restrau sydd eisoes yn bodoli. Felly mae angen meddwl i’r dyfodol er mwyn rheoli a diogelu yn effeithiol. Felly, dylai parciau a gerddi hanesyddol gael cynlluniau rheoli sy’n cael eu rhoi ar waith. Mae’r ardd hanesyddol yng Nghastell Craig-y-nos dan berchnogaeth rannol APCBB.

4. **Diogelu a gwella safleoedd rhestredig a dynodedig.**

   “Rhestru” yw’r broses lle mae henebion a safleoedd gwneuthuredig sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael eu diogelu yn gyfreithiol gan Cadw.

   Mae nifer yr henebion rhestredig yn adlewyrchu’r rheiny sy’n bodoli neu’n hysbys. Nid yw’n dynodi cyflwr treftadaeth ddiwylliannol y Parc. Mae llawer o nodweddion eraill yn y Parc nad ydynt wedi cael diogelwch rhestriad. Bydd cynhyrchu cynlluniau rheoli i’r henebion hynny sydd dan berchnogaeth y Parc a phobl eraill yn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a’u gwella ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Fel yn achos amcanion strategol eraill yn yr adran

hon, mae darparu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer trigolion ac ymwelwyr yn hanfodol ar gyfer rheolaeth briodol.

5. **Ceisio diogelu a gwella, lle bo hynny'n briodol, nodweddion yn yr amgylchedd hanesyddol sy'n bwysig yn rhanbarthol ac yn lleol (gan gynnwys adeiladau hanesyddol a safleoedd archaeolegol) sydd heb ddynodiad statudol.**

   Mae nifer yr henebion rhestredig yn adlewyrchu'r safleoedd hynny sy'n hysbys sydd wedi cael eu hasesu a'u cydnabod eu bod o bwysigrwydd cenedlaethol ac ystyrir bod rhestru yn amddiffyniad priodol ar eu cyfer. Yn ogystal â safleoedd dynodedig, mae angen mynd i'r afael â diogelu safleoedd sydd heb ddynodiad ar hyn o bryd.

6. **Ceisio rheoli pob safle yn briodol, gan ganolbwyntio ar fathau/safleoedd o dan fygythiad ac wedi'u hesgeuluso wrth gynnwys cymunedau lleol.**

   O ystyried y nifer fawr o safleoedd, rhaid blaenoriaethu rheolaeth nodweddion hanesyddol a thraddodiadol unigol, gan gynnwys y rheiny a esgeuluswyd yn y gorffennol fel y dreftadaeth ddiwydiannol ac eglwysi diangen. Gall perchnogion/preswylwyr gynorthwyo wrth ddiwallu anghenion rheoli safleoedd. Yn aml trigolion lleol yw'r cyntaf i sylw pan mae angen mynd ati i reoli safleoedd, ac efallai y byddant yn ymwybodol o safleoedd eraill nad ydynt wedi'u cynnwys ar unrhyw gofnodion neu gofrestrau yn y gorffennol. Felly, gellir annog cymunedau lleol i gymryd rhan mewn cynlluniau i wella rheolaeth yr amgylchedd hanesyddol ac osgoi colled neu ddirywiad nodweddion. Gellir defnyddio archwiliadau treftadaeth leol i annog naws am le a pherchnogaeth yn y gymuned leol. Yna gellir darparu cefnogaeth bellach ar gyfer prosiectau bach sy'n deillio o hyn.

7. **Cynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o amgylchedd hanesyddol y Parc trwy raglen gydlynol o wybodaeth gyhoeddus ac allgymorth cymunedol.**

   Mae angen gwell dealltwriaeth o amgylchedd hanesyddol y Parc ar bob lefel y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol a'r tu allan iddo. Gellir cyflawni hyn fel rhan o raglen integredig o ymwybyddiaeth amgylcheddol. Gellir diwallu anghenion twristiaeth a mynediad cyhoeddus, mynediad corfforol a mynediad at wybodaeth, yn y ffordd hon. Hefyd mae angen dwyn sylw at fuddion economaidd pwysig amgylchedd hanesyddol hoff yn ogystal ag effaith niweidiol posibl ar yr amgylchedd hanesyddol. Dylid integreiddio paneli, taflenni, gwefannau a gwybodaeth eraill sydd ar gael i'r cyhoedd â rhaglen sy'n cynnwys digwyddiadau a dehongliad gweithredol fel teithiau cerdded wedi'u tywys, llwybrau tywys eich hun, gweithdai, cyflwyniadau a phrosiectau ymchwil lleol. Dylai rhaglenni dargedu trigolion ac ymwelwyr. Dylid ystyried cyflwyno gwybodaeth trwy dechnolegau newydd (e.e., ffonau symudol a data digidol gellir eu llwytho i lawr).

CROES-GYFEIRIO



| | |
|---|---|
| 7.1.1 | Tirwedd |
| 7.1.2 | Bioamrywiaeth |
| 7.1.5 | Amgylchedd Adeiledig |
| 7.1.6 | Diwylliant a Thraddodiadau |
| 7.1.12 | Ffermio |
| 7.1.14 | Ucheldiroedd |
| 7.2.1 | Mynediad a Hamdden Awyr Agored |
| 7.2.2 | Addysg |
| 7.2.3 | Dehongliad |
| 7.3.4 | Cynllunio a Datblygu |

### 7.1.5. Amgylchedd Adeiledig

Mae gan y Parc amrywiaeth eang o bensaernïaeth frodorol: Cestyll Normanaidd a ffermdai canoloesol, crynoadau o adeiladau o'r 17eg a 18fed ganrif yn y prif aneddiadau a nifer fach o adeiladau gwledig coeth iawn sydd yn aml wedi cadw nodweddion gwreiddiol fel teils carreg, sgriniau a ffenestri â myliynau. Ceir nifer o dai gwledig coeth ar y tir fferm gwell yn nyffrynnoedd Wysg a Gwy, rhai ohonynt mewn parciau a gerddi o bwysigrwydd hanesyddol. Mae pensaernïaeth eglwysig y Parc yn gyfoethog iawn, ag Eglwys Gadeiriol Aberhonddu, llawer o eglwysi canoloesol a rhai capeli Anghydffurfiol cynnar. Mae newidiadau o ran deunyddiau adeiladu (tywodfaen coch a chalchfaen yn bennaf) ac arddulliau amrywiol yn rhoi gwahanolrwydd lleol i'r nifer fawr o ffermydd a bythynnod yn y Parc, efallai bod addasiadau diweddarach yn cuddio eu nodweddion gwreiddiol.

Mae patrwm yr aneddiadau a'u cymeriad hefyd yn amrywio ar draws y Parc, o ddyffryn i ddyffryn. Yn gyffredinol, mae pentrefi cnewyllol yn fwyaf amlwg yn y dwyrain ac mae patrwm mwy gwasgaredig o ffermydd unig yn nodweddu'r gorllewin. Arweiniodd diwydiannu, yn enwedig yn ne'r Parc, at fythynnod gweithwyr yn y 19eg ganrif, camlas, amrywiaeth o felinau a nodweddion eraill efallai ei bod yn well eu hystyried fel archaeoleg ddiwydiannol.

Mae adeiladu'n cael eu diogelu trwy gael eu rhestru gan Cadw, trwy fod yn un o bedair Ardal Gadwraeth y Parc, neu drwy berchnogaeth gan gyrff fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r meini prawf ar gyfer rhestru yn pwysleisio bod gan adeiladau hanesyddol gydran archaeolegol "gladdedig" yn ogystal â sefyllfa tirwedd, ni ddylid esgeuluso unrhyw un o'r rhain wrth ystyried yr amgylchedd adeiledig. Ceir 1945 adeilad rhestredig gan gynnwys 29 Gradd I a 86 Gradd II* (Mai 2009). Mae Cadw yn darparu cymorth grant i ddiogelu adeiladau ardderchog neu ar gyfer gwaith arwyddocaol mewn Ardaloedd Cadwraeth ond nid yw'r ariannu'n ddigonol i gynorthwyo llawer o adeiladau rhestredig neu heb eu rhestru. Mae APCBB yn cynnig cyngor ac weithiau cymorth grant, gan gefnogi'r defnydd o arddulliau, technegau a deunyddiau traddodiadol fel morter calch, fframiau ffenestr derw a lliwiau paent dilys.







Chwith uchaf: **Eglwys Santes Gwendoline, Talgarth**
Dde uchaf: **Adeiladau rhestredig ym Myddfai** Uchod: **Castell Tretŵr**

Mae esgeuluso adeiladau rhestredig, newidiadau bach, cynyddol i adeiladau, y dirywiad yn y defnydd o deils carreg a deunyddiau eraill lleol traddodiadol, datblygiadau newydd mewn aneddiadau ac yn y cefn gwlad a cholled defnyddiau traddodiadol ar gyfer adeiladau fel ysguboriau carreg yn bygwth cymeriad amgylchedd adeiledig y Parc, yn gyffredin â gweddill Cymru. Mae incymau isel ffermydd yn golygu efallai na fydd arian parod ar gael ar gyfer gwaith trwsio. Manylir ar bolisïau ar gyfer newidiadau sympathetig mewn defnydd, newid pwrpas ysguboriau er enghraifft, yn y Cynllun Datblygu Lleol (sydd ar ddod).

Rhan o weledigaeth APCBB yw bod adeiladau a phatrymau anheddu hanesyddol yn y Parc na ellir eu disodli yn cael eu cadw. Maent yn cynrychioli adnodd gostyngol yn weledol a diwylliannol, a thrwy eu hatyniad i bobl, maent yn cyfrannu at

Astudiaeth Achos

### Adfer Ban a Chwm - Revitalise Hill and Valley

Sefydliad elusennol yw Adfer Ban a Chwm - Revitalise Hill and Valley (ABC) a'i genhadaeth yw datblygu *"datrysiad creadigol i'r ddau fater o'r angen ar gyfer tai fforddiadwy yng Nghymru wledig a'r nifer fawr o adeiladau brodorol anghyfannedd yn yr ardal."*

Sefydlwyd ABC ym Mehefin 2008 gan Joanie Speers a Roger Mears, sydd wedi ailadeiladu melin a'i hadeiladau ategol dros 30 mlynedd yn Sir Gaerfyrddin. Yn ystod yr amser hwn maent wedi gweld adeiladau a ffermdai o garreg leol yn adfeilio a diflannu o'r dirwedd yn araf. Ar yr un pryd, maent wedi gweld pobl leol yn cael anhawster mawr wrth brynu cartrefi yn yr ardal oherwydd gwerth uchel y farchnad a chystadleuaeth o'r tu allan i'r gymuned.

Mae gweledigaeth ABC yn cysylltu cymuned, adfywio, treftadaeth, hanes, diwylliant, amgylchedd, cyflogaeth ac adfywio sgiliau adeiladu lleol. Y nod yw prynu ffermdai diangen, ac adeiladau cysylltiedig, am gost isel, eu hailadeiladu i safonau cadwraeth a chynaliadwyedd uchel a'u gwerthu fel cartrefi fforddiadwy (am byth) i deuluoedd lleol. Mae ABC ar fin ymgymryd ag astudiaeth dichonoldeb â chymorth Gwalia, asiantaeth dai de Cymru, i mewn i gynllun adeiladu peilot yn y Parc Cenedlaethol i bennu a ellir gwneud hyn mewn gwirionedd. Y nod yn y pendraw yw gweld hyn yn digwydd trwy gydol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a thu hwnt.

Unwaith mae'r adeiladau hyn yn diflannu'n llwyr, maent wedi mynd am byth, ac yn mynd â'u hegni mewnol a gwerth cynhenid i'r gymuned gyda nhw.



economi'r Parc. Mae cynaliadwyedd yn golygu bod treftadaeth y gorffennol wedi'i chydbwyso ag anghenion y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mewn egwyddor, dylai hyn gynnwys cymunedau yn y gwaith o ddylunio a datblygu eu haneddiadau a chwmpasoedd eu hunain. Lle nad yw'r ymdrechion hyn yn cyfrannu at ddirywiad rhinweddau arbennig y Parc, dylent archwilio dulliau cynaliadwy o ailddefnyddio neu ailgylchu deunyddiau adeiladu yn hytrach na chaffael neu chwarela deunyddiau adeiladu newydd, a lle bo'n briodol ymchwilio i chwarela cynaliadwy deunyddiau adeiladu newydd ar gyfer prosiectau cadwraeth. Bydd Arweiniad ar gyfer Dylunio Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru (Gwanwyn 2009) yn cynorthwyo â'r ymdrechion hyn, ond hefyd mae angen chwistrelliad mawr o adnoddau i mewn i gadwraeth a dylunio adeiladau ac aneddiadau.

### Amcanion Strategol: **Amgylchedd Adeiledig**

1. **Dylai pob adeilad sydd o ansawdd rhestradwy gael ei restru.**

   Dylai pob adeilad sydd o ansawdd rhestradwy gael ei restru i helpu i amddiffyn adeiladau sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol. Ar gwblhad arolwg Cymru yn 2005 dylai fod pob adeilad o ddiddordeb pensaernïol wedi cael eu rhestru. Mae'r dasg hon sy'n ymddangos yn syml yn cyflwyno pos. Er bod ailarolygon wedi cynyddu nifer yr adeiladau rhestredig yn y Parc gan fwy na 400%, mae diffyg cynnydd cyfatebol mewn ariannu i'w cadw a'u gwella.

2. **Dylai pob adeilad rhestredig a'u lleoliadau gael eu cadw a dylid gwella eu cyflwr, gan ganolbwyntio ar adeiladau mewn perygl.**

   Mae gan APCBB ddyletswydd i gadw adeiladau rhestredig fel awdurdod cynllunio. I gyflawni hyn, bydd ariannu sydd ar gael yn cael ei dargedu ar yr adeiladau sydd yn y perygl

mwyaf. Bydd arolygon cyflwr Adeilad Rhestredig yn cael eu defnyddio i alluogi targedu lle mae ei angen mwyaf, gan roi blaenoriaeth i adeiladau mewn perygl. Bydd cynlluniau partneriaeth yn cael eu ceisio ar gyfer prosiectau mawr trwy gynlluniau grant cenedlaethol, fel Cronfa Dreftadaeth y Loteri. Hefyd bydd APCBB yn parhau i weithio gyda Cadw i gynyddu cwmpas cynlluniau tref mewn ardaloedd cadwraeth. Fel yn achos yr amcanion strategol eraill yn yr adran hon, bydd angen gwybodaeth a gasglwyd trwy fonitro treftadaeth adeiledig y Parc i'w reoli i genedlaethau'r dyfodol ei fwynhau a bydd yn cael ei defnyddio ar gyfer adroddiadau ar Gyflwr y Parc yn y dyfodol.

3. **Diogelu adeiladu heb eu rhestru sy'n cyfrannu at dreftadaeth adeiledig y Parc.**

   Mae diogelu treftadaeth y Parc yn cynnwys cadw a gwella adeiladau brodorol sydd o arwyddocâd archaeolegol a hanesyddol. Mae llawer o adeiladu heb eu rhestru hefyd yn cyfrannu at gymeriad amgylchedd adeiledig y Parc a chymeriad tirweddau hanesyddol. Hefyd dylid cydnabod y pwysigrwydd mae'r adeiladau brodorol hyn yn chwarae yng nghymeriad y dirwedd hanesyddol. Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys polisïau a ddyluniwyd i gadw'r cymeriad hwn, ond mae angen ceisio dulliau arloesol ychwanegol i geisio'r ymdrech cadwraeth hwn, er enghraifft, cyfres gynhwysfawr o lenyddiaeth gyfarwyddyd/cyngor sy'n mynd i'r afael â ffenestri, defnyddio morter, toeau, ac ati. Bydd cyfarwyddyd yn unol â'r arddull cynhenid lleol. Mae adeiladau'n cael eu cofnodi trwy'r broses gynllunio. Pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud i adeiladau, mae'r angen i'r rhain gael eu cofnodi gan CBHC hefyd neu gontractwyr arbenigol os nad yw treftadaeth adeiledig y Parc am gael ei cholli. Mae gan bob adeilad ei stori ei hun i adrodd - gwybodaeth y mae'n hawdd ei cholli trwy newidiadau nad ydynt yn sensitif. Mae'r Mesur Diogelu Treftadaeth Drafft yn cyfeirio at ddatblygu rhestr o asedau o ddiddordeb lleol arbennig.

4. **Cadw a gwella aneddiadau a phatrymau anheddiad.**

   Mae angen ystyried patrymau anheddiad a'u hadlewyrchu mewn datblygiad newydd fel nad yw datblygiad cae glas yn dinistrio ffurfiau pentrefi. Ar hyn o bryd mae opsiynau yn cael eu hymchwilio o ran llunio'r Cynllun Datblygu Lleol. O fewn Ardaloedd Cadwraeth sydd eisoes yn bodoli, mae angen gwelliannau pellach, efallai yn gysylltiedig â datganiadau dylunio pentref, mewn partneriaeth â grwpiau lleol. Mae'n debygol y bydd dynodiadau yn y dyfodol o ardaloedd bach o fewn aneddiadau, fel bod modd crynhoi adnoddau prin lle byddant yn cael yr effaith orau. Mae gan grwpiau a chymunedau lleol rôl wrth gadw a gwella ansawdd aneddiadau lleol, trwy gynlluniau gwella pentrefi a datganiadau dylunio pentrefi, a thrwy fynd ati i gymryd rhan yn y broses LDP. Mae'r angen am strategaeth aneddiadau cynaliadwy sy'n bodloni agweddau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar gynaliadwyedd yn rhan annatod o'r dull hwn o weithredu.

5. **Hybu addysg ac ymwybyddiaeth treftadaeth adeiledig.**

   Fel yn achos archaeoleg a thirweddau hanesyddol, mae treftadaeth adeiledig angen datblygu a gweithredu rhaglen o ymwybyddiaeth gyhoeddus ac allgymorth cymunedol i gefnogi rheolaeth gynaliadwy o'r adnodd hwn. Gall APCBB a'i bartneriaid, er enghraifft, hybu'r defnydd o ddeunyddiau a dulliau adeiladu traddodiadol trwy addysg, allgymorth, hyfforddiant a chymorth ariannol.

CROES-GYFEIRIO


| | |
|---|---|
| 7.1.1 | Tirwedd |
| 7.1.4 | Amgylchedd Hanesyddol |
| 7.1.6 | Diwylliant a Thraddodiadau |
| 7.1.11 | Ynni |
| 7.2.2 | Addysg |
| 7.2.3 | Dehongliad |
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |
| 7.3.4 | Cynllunio a Datblygu |

## 7.1.6. Diwylliant a Thraddodiadau

Mae yna gysylltiadau agos rhwng diwylliant a'r dirwedd ffisegol. Mae patrymau a thraddodiadau amaethyddiaeth bresennol ac yn y gorffennol, a defnyddiau tir eraill gan gynnwys tir comin ac arferion pori a thrwy hanes cymdeithasol a diwydiannol, yn dylanwadu'n gryf ar gymeriad tirwedd. Mae tir comin a phori yn draddodiadau arwyddocaol ar raddfa'r DU ac yn rhyngwladol. Mae porwyr yn y Parc Cenedlaethol ac o'i amgylch yn cynhyrchu rhai o'r defaid a gwartheg gorau yn y wlad. Mae arferion a thraddodiadau ffermio teuluol, fel cadw at gynefin, walio â cherrig a phlygu gwrychoedd, yn cael eu trosglwyddo i lawr o genhedlaeth i genhedlaeth. Hefyd y Parc yw'r ganolfan ar gyfer magu Merlod Mynydd Cymreig Adran A, rhannol-wyllt. Yn gyffelyb, mae Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon yn cofnodi stori bywyd yng Nghymoedd De Cymru yn ystod y Chwyldro Diwydiannol.

Hefyd mae'r cysylltiadau sydd ganddo, trwy enwau lleoedd neu â llenyddiaeth, gwleidyddiaeth neu gysylltiadau mwy personol, hefyd yn effeithio ar wahanolrwydd lleol. Gyda'i gilydd mae'r rhinweddau hyn yn creu "bro" a "chynefin" y Parc sy'n cael eu mynegi yn unigryw trwy gyfrwng y Gymraeg.



**Gŵyl Jazz Aberhonddu**

Mae cynaliadwyedd yn golygu y dylai pwysigrwydd treftadaeth y gorffennol gael ei gydnabod a'i drosglwyddo, gan integreiddio hyn ag anghenion a lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Mae diwylliant bywiog a thraddodiadau byw yn cyfrannu at gymuned iach. Hefyd mae cyfuniad gwahanol y Parc o ddiwylliannau a thraddodiadau yn ddeniadol i ymwelwyr ac, yn ei dro, yn cyfrannu at economi lleol iach. Rhan o weledigaeth APCBB yw y dylai treftadaeth Gymreig gryf a bywyd diwylliannol cyfoethog y Parc ffynnu a thyfu.

### Amcanion Strategol: **Diwylliant a Thraddodiadau**

1. **Cefnogi bywyd diwylliannol a thraddodiadau'r Parc trwy weithio mewn partneriaeth.**

   Er bod gan APCBB gyfrifoldeb i gadw treftadaeth ddiwylliannol, mae'n debygol y bydd unigolion a sefydliadau eraill yn cyflawni y rhan hon o'i dibenion statudol yn bennaf. Mae gan gymunedau'r Parc Cenedlaethol ddiwylliannau byw sy'n ffynnu heb gefnogaeth APCBB. Mae angen i randdeiliaid y Parc ddatblygu ffyrdd effeithiol ac arloesol o weithio gyda'i gilydd i gadw a gwella diwylliant a thraddodiadau'r Parc. Ymhlith enghreifftiau sydd eisoes yn bodoli o bartneriaethau effeithiol mae cefnogaeth barhaus i wyliau a digwyddiadau cymunedol. Mae APCBB yn cynorthwyo sefydliadau lleol i sicrhau arian ar gyfer prosiectau diwylliannol, yn ei ymrwymiad i'r iaith Gymraeg, trwy gefnogi mentrau cymunedol cynaliadwy a thrwy'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Hefyd APCBB wedi annog a chefnogi hyfforddi a chadw traddodiadau a sgiliau lleol fel arferion ffermio da byw traddodiadol a chodi waliau cerrig sych. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau a pholisïau yn y Parc Cenedlaethol yn ymwneud â chadw diwylliant a thraddodiad mewn rhyw ffordd, fel sy'n amlwg yn y Cynllun hwn drwyddo draw. Gallai APCBB wella ei waith o hybu cysylltiadau diwylliannol ei rinweddau a threfnu cystadlaethau a chyrsiau sgiliau traddodiadol.

2. Cofnodi a monitro treftadaeth ddiwylliannol y Parc.

   Nod APCBB yw datblygu partneriaethau a nodi'r amrywiol agweddau ar ddiwylliant a thraddodiadau yn y Parc sy'n helpu i wneud pob rhan o'r Parc yn wahanol ac yn diffinio ei naws am le. Bydd yr ymdrechion hyn yn creu gwaelodlin ar gyfer monitro yn y dyfodol ac awgrymu dangosyddion addas. Bydd y gwaith hwn yn nodi'r posibilrwydd ar gyfer gweithredoedd rheoli mewn perthynas â diwylliant a thraddodiadau, a sicrhau bod yr hyn y gellir ei golli yn cael ei gofnodi yn y ffordd fwyaf priodol.

3. Hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg.

   Mae APCBB a'i bartneriaid yn chwarae rôl allweddol wrth hybu treftadaeth ddiwylliannol y Parc a Chymru trwy ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith eu hunain a thrwy gefnogi gweithgareddau a digwyddiadau lleol. Er enghraifft, bydd Cynllun Iaith Gymraeg APCBB, sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yn parhau i gael ei roi ar waith, gan gynyddu'r wybodaeth am Gymraeg ymhlith staff y Parc a'i defnydd yng nghyhoeddiadau a deunydd ysgrifenedig eraill.

4. Hybu treftadaeth ddiwylliannol fel atyniad ar gyfer pobl.

   Mae llawer o waith APCBB wrth gefnogi hyfywedd cymdeithasol ac economaidd y Parc yn ymwneud â manteisio i'r eithaf ar ddiwylliant a threftadaeth yr ardal, ei naws am le. I'r perwyl hwn, dylai APCBB a'i bartneriaid manteisio yn llawn yn economaidd ar ddiwylliant a thraddodiadau'r Parc i hybu treftadaeth ddiwylliannol fel atyniad ac i gefnogi bywydau a bywoliaethau'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yma, gan greu profiad mwy cyfoethog i bawb.

5. Datblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o fywyd a thraddodiadau diwylliannol.

   Rhan o'r her o hybu diwylliant a thraddodiadau'r Parc yw datblygu dealltwriaeth o werth agweddau anniriaethol treftadaeth ddiwylliannol, rhai ohonynt gellir eu gwerthfawrogi'n llawn trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Mae hanes cymdeithasol a diwylliant lleol yn ffasedau newidiol o'r dreftadaeth hon. Mae angen i APCBB bwysleisio gwerth treftadaeth ddiwylliannol ym mywyd bob dydd. Y nod yw galluogi cymunedau lleol i nodi, cofnodi a rhannu diwylliant a hanes lleol trwy "becynnau," gweithgareddau a digwyddiadau cymunedol.

CROES-GYFEIRIO

| | |
|---|---|
| 7.1.1 | Tirwedd |
| 7.1.4 | Amgylchedd Hanesyddol |
| 7.1.5 | Amgylchedd Adeiledig |
| 7.2.1 | Mynediad a Hamdden Awyr Agored |
| 7.2.2 | Addysg |

### 7.1.7. Adnoddau Aer

"Awyr iach" yw un o'r rhinweddau allweddol sy'n dod â phobl i Fannau Brycheiniog. Mae safonau uchel o ansawdd aer yn arwain at gynnydd o ran disgwyliad oes ac ansawdd bywyd, ond maent hefyd yn cyfrannu at well ansawdd cynefin ac yn gwella bioamrywiaeth.

Mae ansawdd aer ym Mannau Brycheiniog yn dda, yn enwedig o'i gymharu ag ardaloedd â phoblogaeth drymach yn Ne Cymru. Y mater mwyaf amlwg o ran ansawdd aer yw glaw asid, yn enwedig dyddodiad nitrad, sydd wedi cychwyn y tu allan i'r Parc. Mae hyn yn effeithio ar dyfiant llystyfiant ac ansawdd dŵr. Hefyd mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (SEA) wedi dynodi efallai bod mater gronynnol ac oson o bryder hefyd. Nid oes gan fater gronynnol ac oson unrhyw lefelau trothwy dinoethiad nad yw effeithiau iechyd dynol yn digwydd oddi tanynt.

Cludiant a dosbarthu, generadu pŵer a diwydiannau eraill trwy yw'r prif gyfranwyr at ansawdd aer gwael yn y Parc. Mae'r ffocws sy'n cynyddu ar gynhyrchio biodanwydd hefyd

yn bygwth ansawdd aer lleol trwy grynoadau uwch o baill o rêp had olew, sy'n gallu achosi alergedd.

### Amcanion Strategol: **Adnoddau Aer**

1. **Cynnal a, lle bo hynny'n bosibl, gwella ansawdd aer y Parc.**

   Mae'r Awdurdodau Unedol (AUau) yn cynnal Asesiadau Diweddaru a Sgrinio (ADSau) i bennu a oes lleoliadau "llachar" lle mae posibilrwydd rhagori ar amcanion ansawdd aer.

   Mae'r gwaith hwn yn dangos bod ansawdd aer yn cyrraedd y safon yn y Parc. Fodd bynnag, gall cynnydd o ran datblygu, darparu cynnyrch a thraffig yn y Parc, neu ddiwydiant a generadu pŵer y tu allan i'r Parc, gynyddu llygredd aer dros safonau presennol. Bydd polisïau'n ceisio lleihau effeithiau negyddol ffynonellau allweddol o lygredd ar ansawdd aer y Parc. Er enghraifft, gall APCBB a'i bartneriaid annog dewisiadau amgen glanach i ddulliau confensiynol o gludiant, generadu pŵer a diwydiant trwm. Hefyd gellir dylunio polisïau i leihau'r angen i deithio i'r Parc Cenedlaethol ac ynddo trwy leoli datblygiadau newydd yn briodol a darparu isadeiledd cludiant cyhoeddus.

CROES-GYFEIRIO


7.1.8 Adnoddau Dŵr
7.3.4 Cynllunio a Datblygu
7.3.5 Trafnidiaeth


## 7.1.8. Adnoddau Dŵr

Ynghyd â Chamlas Sir Fynwy ac Aberhonddu (**gweler Map 5**), mae mwy na 25 o afonydd a nentydd (**gweler Map 3**) yn dechrau ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog neu'n pasio trwyddo, gan ddarparu'r ffynhonnell ar gyfer llawer o systemau afon arwyddocaol yn ne Cymru. Ymhlith y rhain mae afonydd Wysg, Gwy, Tawe, Twrch, Nedd, Hepste, Cynon,





Ar y brig: **Afon Wysg**
Uchod: **Tŷ pwmpio, Cronfa Ddŵr Pontsticill**

Taf, Rhymni ac Ebwy. Hefyd, mae mwy na 18 o lynnoedd a chronfeydd (**gweler Map 4**), a nifer di-rif o wlypdiroedd ac ardaloedd dyfrol llai wedi'u gwasgaru yn y Parc drwyddo draw.

Mae afonydd a nentydd y Parc wedi bod yn ddylanwadol wrth lunio'r dirwedd, cerfio ceunentydd, dyffrynnoedd a gorlifdiroedd sy'n cyferbynnu â'r ucheldiroedd. Hefyd mae cyrsiau dŵr yn parhau i lunio a newid llync-dyllau, llynnoedd,

ogofâu, rhaeadrau a nodweddion tanddaearol sy'n darparu cynefin ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau unigryw.

Mae dyfroedd y Parc yn gartref i greaduriaid fel dyfrgwn, eog, brithyll, pryfed dyfrol a chimwch yr afon frodorol, a llygod y dŵryn y gorffennol. Maent yn cynnal nifer di-rif o rywogaethau eraill, cynefinoedd a chymunedau o blanhigion, gan gynnwys ecosystemau amaethyddol. Hefyd mae afonydd a chyrsiau dŵr yn bwysig fel mecanweithiau llinellol ar gyfer cysylltedd biolegol, gan gysylltu nodweddion cynefin ar draws hyd a lled y Parc. Mae nifer o'r ardaloedd dyfrol hyn wedi cael eu cydnabod oherwydd eu gwerth gwyddonol ac ecolegol, gan gynnwys Afonydd Wysg a Gwy a Llyn Syfaddan (**gweler Map 7**). Ardaloedd gwlypdir yw llawer o ardaloedd bywyd gwyllt dynodedig y Parc fel Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNCeydd), Safleoedd Cadwraeth Ystlumod a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAoedd). Ymhlith y rhain mae coetiroedd gwlyb, corsydd a rhosydd, ffeniau, porfeydd gwlyb, gwernydd a dŵr agored. Mae rhywogaethau ymledol (fel ffromlys chwarennog, efwr enfawr a llysiau'r dial) yn fygythiad i gyfanrwydd bywyd gwyllt amrywiol y Parc.

Mae nentydd ac afonydd y Parc wedi bod yn brif lwybrau teithio ac anheddu ar gyfer bodau dynol drwy gydol hanes. Roedd aneddiadau dynol hynafol yn dibynnu llawer o wlypdiroedd ar gyfer mordwyaeth yn ogystal ag ar gyfer bwyd (bwyd, hela), deunyddiau planhigion a phori. Hefyd, mae gwlypdiroedd y Parc wedi cadw arteffactau archaeolegol a thystiolaeth o aneddiadau hanesyddol a gweithgareddau dynol. Hefyd mae gwlypdiroedd wedi cadw tystiolaeth o newid blaenorol o ran y dirwedd, gan gynnwys sut mae ecosystemau amgylchynol a'u bioamrywiaeth wedi newid. Yn anffodus, mae gwlypdiroedd wedi cael eu draenio yn gynyddol ac mae mannau wedi'u tynnu o'r dirwedd i bob pwrpas i ddiwallu'r galw sy'n tyfu o ran datblygu a defnyddio tir.

Yn ogystal â nifer o gyflenwadau dŵr preifat daear, mae dŵr wyneb yn darparu adnodd hanfodol i gymunedau yn y Parc a'r tu allan iddo wrth gefnogi ei amgylchedd naturiol.



**Llyn Syfaddan**

Mae cyflenwadau dŵr daear o arwyddocad arbennig i boblogaethau ar hyn ffin ddeheuol y Parc, lle mae'r galw mwyaf am yr adnodd. Mae nifer o barthau diogelu ffynhonnell dŵr daear sy'n cael eu gweinyddu gan SEA yn bodoli yn yr ardaloedd hyn i sicrhau bod ansawdd y dŵr yn cael ei gynnal. Mewn rhai ardaloedd, mae ffynhonnau dŵr daear yn cael eu bwydo o holltau yn y ddaeareg sylfaenol. Gallai unrhyw weithrediad sy'n llygru gael goblygiadau difrifol, oherwydd bod y dŵr hwn yn ffynhonnell arwyddocaol o gyflenwadau dŵrsymudol i dderbynyddion domestig a diwydiannol. Mae Dŵr Cymru (DC) wedi trwyddedu i echdynnu'r adnoddau dŵrdaear hyn o ran ansawdd a swm. Felly, mae'n hanfodol nad yw'r ffynonellau hyn yn dirywio. Mae cronfeydd yn PCBB yn cyflenwi dŵr yfed i dde Cymru hefyd. Mae'r rhan fwyaf o echdyniadau trwyddedig ar gyfer cyflenwadau dŵr cyhoeddus, ond mae dŵr hefyd at ddefnydd diwydiannol, amaethyddol a domestig. Mae'r ardaloedd dyfrol hyn hefyd yn denu nifer gynyddol o bobl sy'n mwynhau'r awyr agored yn frwd sydd â diddordeb mewn pysgota, cychod, canŵio, astudio natur, ymlacio a gweithgareddau eraill.

Er bod digon o law yn y rhanbarth, mae'n debygol y bydd symudiadau a ragfynegir o ran dyddodiad sy'n gysylltiedig â

# Astudiaeth Achos

## Mentrau Dalgylch Afonydd Wysg a Gwy

Dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) Ewropeaidd, mae'n rhaid i'r DU ddiogelu, gwella a chynnal pob ardal ddyfrol wyneb, arfordirol a dŵr ddaear er mwyn sicrhau statws cemegol ac ecolegol da erbyn 2015. O'r afonydd a gafodd eu hasesu yng Nghymru, mae 25% yn ôl hyd wedi cael eu dosbarthu fel Statws Da ac mae bron i 50% yn ôl hyd wedi cael eu dosbarthu yn Gymedrol. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw afonydd yng Nghymru â Statws Uchel. Bydd diwallu gofynion y WFD yn gofyn am weithredu o ran llygredd ffynhonnell pwynt a llygredd gwasgaredig.

Mae Menter Dalgylch Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn gweithredu yn nalgylchoedd 6 afon â blaenoriaeth lle mae llygredd gwasgaredig o reolaeth dir yn brif fater. Cawsant eu nodi ar sail ar lefelau effaith llygredd gwasgaredig ac mae safleoedd a ddynodwyd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhanbarthol yn cynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a dynodiadau Natura 2000. Mae rhwydwaith o Gydlynwyr Dalgylchoedd yn cydlynu'r Mentrau, gan gysylltu â rhanddeilaid a darparu a chydlynu cyngor i reolwyr tir i ganiatáu iddynt wella perfformiad amgylcheddol ar draws y dalgylch. Mae'n cwmpasu ymarfer ffermio gorau, creu cynefinoedd, rheoli'r risg o lifogydd a buddiannau pysgodfeydd. Mae dwy o'r Mentrau Dalgylchoedd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ffocws Mentrau Dalgylchoedd Afonydd Wysg a Gwy yw blaenoriaethu ardaloedd lle ceir problemau penodol ag ansawdd dŵr a nodi ardaloedd sydd mewn perygl gan lygredd gwasgaredig.

Diffiniad llygredd dŵr gwasgaredig yw llygredd sy'n deillio o weithgareddau defnydd tir (gwledig a threfol) sy'n cael eu gwasgaru ar draws dalgylch ac nid ydynt yn arwain at garthffrwd proses, carthffrwd fwrdeistrefol neu garthffrwd fferm. Mae maint ac arwyddocad llygredd gwasgaredig yn cael eu pennu trwy'r ffordd mae'r tir yn cael ei ddefnyddio a'i reoli, ynghyd ag amrywiaeth o ffactorau amgylcheddol fel hinsawdd (yn enwedig glaw), daearyddiaeth a daeareg, sy'n dylanwadu ar rinweddau dŵr ffo a sensitifrwydd y dŵr sy'n ei dderbyn.

Amaethyddiaeth yw un o brif achosion llygredd dŵr gwasgaredig oherwydd bod Cymru yn wledig yn bennaf, ac mae'r rhan fwyaf o'r tir yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth (79%) a choedwigaeth (13%). Trwy leihau ffynonellau amaethyddol llygredd gwasgaredig mewn dalgylchoedd afonydd, gall rheolwyr adnoddau sicrhau bod allyriadau i ddŵr yn gyson â'r gofyn ecolegol fel bod modd cyflawni amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Mae angen codi ymwybyddiaeth o'r materion ac mae angen dylanwadu yn effeithio ar ymwybyddiaeth amgylcheddol ehangach rheolwyr tir i achosi newid o ran ymarferion sy'n debygol o wella ansawdd dŵr. Gallai integreiddio lliniaru llygredd gwasgaredig â chreu cynefinoedd, rheoli'r risg o lifogydd a materion sy'n ymwneud â physgodfeydd gyflawni nifer o ddeilliannau - yn aml gall un datrysiad fodloni mwy nag un amcan a bydd pob dull o weithredu'n cael budd o weithredu cyfunol ar sail dalgylch.

Mae Cydlynwyr Dalgylchoedd sy'n gweithio dan Fenter Dalgylchoedd Cymru yn defnyddio dull o weithredu rhagweithiol peidio â gorfodi wrth fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig amaethyddol trwy gynnwys y gymuned ffermio. Bydd y cynnwys hwn yn cael ei ddarparu trwy ymweliadau 1:1 â ffermydd, gweithdai fferm ac arddangosfeydd ymarfer da.



Afon Wysg, Aberhonddu

newid yn yr hinsawdd yn rhoi mwy o straen ar adnoddau dŵr, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf. Mae'n debygol y bydd cyfraddau echdynnu dŵr ar gyfer cyflenwadau dŵr cyhoeddus a defnydd domestig yn cynyddu dan y senarios hyn, a bydd cynnydd posibl o ran nifer yr ymwelwyr yn ychwanegu at y galw hwn. Gallai unrhyw gynnydd o ran echdynnu dŵr ar draws y Parc gael effaith ar ddyddodion archaeolegol dyfrlawn. Yn gyffelyb, bydd angen ystyried echdynnu o Afon Wysg i fwydo Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn ofalus er mwyn cyflawni cydbwysedd cynaliadwy. Mae'r gamlas a'r afon yn asedau pwysig i'r Parc Cenedlaethol.

Er bod ansawdd cemegol y dŵr yn gyffredinol yn dda iawn yn y Parc trwyddo draw, gallai'r amlder o weithfeydd bach preifat i drin carthffosiaeth a charthbyllau a thanciau septig sydd eisoes yn bodoli sy'n cael eu cynnal yn wael, fod yn ddylanwad mawr ar ansawdd dŵr yn y Parc. Ymarferion cadwraeth amaethyddol amhriodol a gwaredu trochwyth defaid yn y Parc drwyddo draw yw'r prif bryderon o ran ansawdd dŵr. Fodd bynnag, mae cynnyrch masnachol ar gael, a dangoswyd ei fod yn lleihau gwenwyndra trochwyth defaid a[18] ddefnyddiwyd (diazinon) gan gymaint â 99% mewn tair awr.[19] Mae angen astudiaeth bellach i mewn i'w ddefnydd, ond mae'n darparu datrysiad posibl i broblem ymarferol o ran ansawdd dŵr.

Mae dyddodiad asid yn ystod y 100 mlynedd ddiwethaf ers y Chwyldro Diwydiannol wedi cyfaddawdu cyflwr afonydd a gwlyptiroedd y Parc ymhellach, a thrwy nitreiddiad sy'n cyfoethogi pridd y wyneb, gan gael effaith gwrteithio. Ymhlith gweithgareddau eraill sydd â'r potensial i gyfrannu yn sylweddol at ddirywiad ansawdd dŵr y Parc mae prosiectau adeiladu a datblygu ar raddfa fawr sy'n cael eu monitro yn wael. Bydd gwell monitro yn lleihau'r effeithiau negyddol posibl.

18. Porter, L. a Clarke, C. 2007. Dipping -- The Turning Point. Sheep Farmer, Awst-Medi. Tud. 24-25.
19. Batterbee, R.W., C.J. Curtis, a H.A. Binney. 2004. The Future of Britain's Upland Waters. Proceedings of Meeting, 21 April 2004, Environmental Change Research Centre, University College, Llundain.

Mae colled gwlyptiroedd wedi cynyddu'r risg o lifogydd i aneddiadau ac amaethyddiaeth, yn y Parc ac i lawr yr afon, gan gael gwared ar ardaloedd storio llifogydd naturiol, lleihau cyfradd ymdreiddiad dŵr i mewn i'r pridd a chan hynny cynyddu faint o ddŵr ffo wyneb cyflym sy'n arwain at lifogydd. Hefyd mae wedi lleihau neu gildroi dulliau naturiol o gadw a gwella ansawdd dŵr. Mae datrysiadau a beiriannwyd yn ddrud ac angen llawer o lafur i'w cynnal, ac maent yn gwyro'r problemau i lawr yr afon.

Datrysiad mwy cynaliadwy a chost effeithiol yw rhoi rheolaeth dŵr wyneb ar raddfa dalgylch ar waith trwy adfer mawndiroedd a gwlyptiroedd gweithredol yn y gorlifdiroedd ucheldirol ac iseldirol. Mae ansawdd a swm adnoddau dŵr yn dibynnu ar reolaeth gynaliadwy priddoedd a llystyfiant ucheldirol. Gall rheoli dŵr wyneb ger y tarddiad leddfu gorlifo, gwella ansawdd a swm dŵr, gwella cyflwr pridd a hybu bioamrywiaeth. Un dull o gyflawni'r deilliannau hyn yw trwy ailgyflwyno'r afanc Ewropeaidd. Ceir diddordeb cynyddol mewn ailgyflwyno'r afanc Ewropeaidd i Brydain. Unwaith bydd wedi'i gyflwyno, bydd costau cynnal a rheoli poblogaethau afanc Ewropeaidd llawer yn llai na chostau cynnal a chadw parhaus datrysiadau wedi'u peiriannu. Hefyd mae tystiolaeth a gyhoeddwyd yn nodi'r buddion gall afancod eu dwyn i gynefinoedd gwlypdir, bioamrywiaeth, pysgodfeydd, ansawdd dŵr a'r economi lleol. Profwyd bod



**Cronfa Ddŵr Cantref**

rhywogaethau fel dyfrgwn wedi cael budd o bresenoldeb afancod Ewropeaidd, er enghraifft. Bydd yn rhaid ymgymryd ag unrhyw ffurf ar greu neu adfer gwlyptiroedd yn sensitif, er mwyn cael effaith bositif ar rinweddau arbennig y Parc.

Er mwyn diogelu adnoddau dŵr y Parc a gwneud defnydd cynaliadwy ohonynt, bydd angen rhoi Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) yr UE ar waith dan Reoliadau'r Fframwaith Dŵr yng Nghymru. Mae'r WFD yn gofyn am integreiddio materion sy'n ymwneud ag adnoddau dŵr â phryderon eraill cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar draws gwahanfeydd dŵr neu ddalgylchoedd cyfan. Dyma egwyddorion y WFD:

- Atal dirywiad o ran statws dŵr a'i wella;
- Datblygu gallu o ran dwr a dŵr gwastraff;
- Lliniaru effeithiau llifogydd a sychdwr; a
- Sicrhau defnydd cynaliadwy o ddŵr.

Bydd materion, deilliannau ac amcanion yn cael eu cysylltu trwy Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar gyfer pob prif uned hydrolegol. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o fewn Cylch Basn Afon Hafren a Chylch Basn Afon Gorllewin Cymru. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wrthi'n llunio'r cynlluniau hyn. Gallai defnyddio dull ac egwyddorion integredig y WFD:

- Helpu i adfer cyflwr a swyddogaeth gwlyptiroedd sydd eisoes yn bodoli;
- Nodi ble ceir rhesymau economaidd ac amgylcheddol da i adfer hen wlypdiroedd;
- Darparu deilliannau sydd o fudd i bawb o reolaeth dŵr, fel cadwraeth dŵr ar gyfer cyflenwad gwastad ar hyd y flwyddyn, gwella ansawdd dŵr, cyfeintiau llai o lifogydd a gwelliannau amaethyddol; a
- Lle mae'n gystadleuol yn economaidd ac nid yw'n gwaethygu'r risg o lifogydd, cyflawni deilliannau sydd o fudd i bawb trwy ehangu coetiroedd mewn gorlifdiroedd ac ochrau dyffrynnoedd.

Mae ffermio sy'n sensitif i ddalgylch, er enghraifft, yn defnyddio'r dull hwn o weithredu i sicrhau parhad yng nghyflenwad dŵr yfed ar gyfer cymunedau lleol a gerllaw mewn modd cynaliadwy wrth ddarparu buddion eraill i'r cyhoedd. Bydd polisïau cynllunio hefyd yn corffori'r dull hwn o weithredu trwy'r Cynllun Datblygu Lleol, gan fanteisio i'r eithaf ar systemau draenio cynaliadwy (SDCau) ar gyfer pob datblygiad newydd, lleoli datblygiadau newydd y tu allan i ardaloedd â risg o lifogydd a sicrhau defnydd cynaliadwy o ddw^r a thriniaeth dw^r gwastraff, er enghraifft. Dylid hybu SDCau storfa agored dros storfa dan ddaear, oherwydd bod gan systemau agored fuddion eraill fel cynyddu a gwella cynefinoedd. Hefyd, gellir integreiddio gwlyptiroedd newydd i mewn i "isadeiledd gwyrdd" datblygiadau newydd. Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn adlewyrchu'r newid hwn tuag at ddull mwy cyfannol o reoli dyfroedd y Parc ac adnoddau cysylltiedig, a bydd yn parhau i wneud hyn yn y dyfodol. I fod yn llwyddiannus yn yr ymdrechion hyn, bydd angen i'r APC a'i bartneriaid roi llawer mwy o sylw ac adnoddau i reoli ansawdd a swm dŵr ar draws y Parc Cenedlaethol.

## Amcanion Strategol: **Adnoddau Dŵr**

1. **Cynnal neu wella ansawdd dŵr daear, afonydd a llynnoedd y Parc.**

   Yn gyffredinol mae ansawdd biolegol a chemegol dŵr yn y Parc yn dda iawn. Mae diffyg gallu carthffosiaeth, ffynonellau pwynt diwydiannol a llygredd gwasgaredig, o ffynonellau trefol ac amaethyddol, yn bygwth ansawdd rhai o ddyfroedd ac ecosystemau'r Parc. Er enghraifft, mae diffyg gallu carthffosiaeth yn arwain at amlder systemau draenio heb fod yn rhan o'r prif gyflenwad fel tanciau septig, gweithfeydd trin preifat a charthbyllau. Mae'r systemau hyn yn ychwanegu yn sylweddol at nifer y ffynonellau posibl o lygredd y mae angen eu monitro i sicrhau, os byddant yn methu, na fyddant yn cyfrannu

at lygru pridd a dŵr. Mae defnyddio trochwyth defaid yn broblem ar gyfer ansawdd dŵr yn y rhan fwyaf o ddalgylchoedd yn y Parc, er bod datrysiadau yn dod ar gael fel nodwyd yn y testun. Bydd angen i strategaethau rheoli leihau a chael gwared ar achosion o lygredd lle bo hynny'n bosibl ac annog ffermwyr i ddefnyddio ymarferion amaethyddol sy'n sensitif i ddalgylchoedd. Mae SEA yn argymell monitro llygredd ffynhonnell pwynt a ffynhonnell/ffynonellau llygredd gwasgaredig ar gyfer dalgylchoedd penodol yn y Parc Cenedlaethol i sicrhau bod canllawiau'n cael eu bodloni. Bydd cysondeb â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn ategu'r ymdrechion hyn.

2. **Sicrhau bod adnoddau dŵr yn cael eu defnyddio yn gynaliadwy ar draws pob sector yn y Parc Cenedlaethol.**

   Er bod digon o ddŵr ar gael i ddiwallu galw ar hyn o bryd, bydd newid yn yr hinsawdd yn addasu dosbarthiad a chyflenwad dŵr trwy amser a lle. Bydd hyn yn arwain at ormodedd ar rai adegau o'r flwyddyn a chyfyngiadau difrifol ar adegau eraill. Hefyd gallai mewnfudo i'r ardal roi straen ar adnoddau dŵr sydd eisoes yn bodoli, gallu carthffosiaeth, ac isadeiledd cysylltiedig, yn enwedig os na fydd yn cael ei reoli. Bydd angen defnyddio dŵr yn fwy effeithlon i ddiwallu anghenion y gymdeithas heb achosi niwed i'r amgylchedd. Dylai ymdrechion gael eu gwneud i adfer a chynnal echdynnu dŵr, dŵr ffo a chyfraddau ail-lenwi yng ngallu cludo'r Parc (gan gynnwys gallu yn y dyfodol). Mae "Arweiniad ar gyfer Dylunio Cynaliadwy" PCBB ac "Ymarfer Gorau mewn Bioamrywiaeth a Chadwraeth Ddaearegol wrth Gynllunio a Datblygu" yn darparu cyfarwyddyd ar gorffori nodweddion rheoli gwlyptiroedd a dŵr i mewn i'r amgylchedd adeiledig. Hefyd mae mentrau datblygu cynaliadwy yn ceisio lleihau'r risg o lifogydd trwy leoli datblygiad y tu allan i'r gorlifdir ac annog systemau draenio cynaliadwy (SDCau) trwy ddylunio adeiladau a dylunio trefol. Mae angen i bob partner sy'n gysylltiedig weithio tuag at ddefnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr yng nghyd-destun eu cylchoedd gwaith eu hunain.

3. **Annog dull cyd-drefnus o ymdrin â pholisïau cenedlaethol a rhanbarthol fel eu bod yn gyson a chyflenwol.**

   Mae Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru, Cynllun Gweithredu Ymaddasu i Newid Hinsawdd, Cynllun Datblygu Gofodol, Cynllun Datblygu Gwledig Cymru, Trywydd Ynni Cymru a chynlluniau amaeth-amgylchedd wedi cael eu llunio heb gysondeb rhwng amcanion strategol a chysylltiadau clir rhwng pob dogfen. Mae'r holl fuddiannau strategol hyn yn effeithio ar reolaeth afonydd a gwlyptiroedd ac yn gallu cyfrannu'n positif atynt. Ceir cyfle i gyflawni nodau'r strategaethau hyn yn effeithio trwy'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn unol â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Ddŵr gan wella cyflawniadau pob cynllun gymaint â phosibl.

4. **Cyflawni rheolaeth cadwraeth gynaliadwy pob gwlypdir, afon a nant sydd eisoes yn bodoli yn y Parc Cenedlaethol.**

   Mae pwysigrwydd rheoli adnoddau naturiol yn cynyddu yn gyflym mewn ymateb i newid yn yr hinsawdd. Bydd mynd i'r afael â'r risgiau hyn yn arwain at fuddion eraill, gan gynnwys llai o lifogydd, cyn lleied o erydiad pridd â phosibl a sinciau carbon sefydlog ymhlith llawer o rai eraill. Oherwydd pwysigrwydd afonydd a gwlyptiroedd i dirwedd y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â'r nifer uchel o ddynodiadau statudol arnynt, rhaid nodi hyn yn eglur a gellir ei gyflawni ar y cyd â chyflawni'r amcanion strategol eraill.

5. **Gwella gallu'r Parc gymaint â phosibl o ran storio dŵr, pŵer trydan dŵr cynaliadwy, ar raddfa fach, a dyfrhau bwyd a dyfwyd yn lleol.**

   Gellir gwella gallu'r Parc Cenedlaethol i storio dŵr a chynhyrchu buddion eraill cyhoeddus gymaint â phosibl trwy adfer gallu naturiol y tir i gadw glaw a llifau ar y wyneb,

heb fod angen cronfeydd newydd. Y rhagosodiad cyntaf yw y dylai pob menter sicrhau eu bod yn cadw a gwella harddwch naturiol y Parc, ei fywyd gwyllt a'i dreftadaeth ddiwylliannol, a'u bod yn ystyried tirwedd y Parc o ran ei botensial ynni. Mae'r Parc yn cael digon o law ac mae ganddo ardaloedd mawr, fflat o bridd dwfn, sy'n dal dŵr i weithredu fel cronfa dŵr. Er nad yw llawer o'r nentydd lleol yn fawr, mae ganddynt rinweddau sy'n golygu eu bod yn ddelfrydol ar gyfer generadu trydan trwy eneraduron trydan dŵr cynaliadwy, ar raddfa fach. Mae hyn yn cynnwys presenoldeb aneddiadau gwasgaredig neu fach ger gwaelod y nentydd i ddarparu nifer o bwyntiau defnyddio bach. Hefyd gall yr aneddiadau hyn gynhyrchu incwm o'r pŵer a generadwyd, i'w ail-fuddsoddi mewn buddion cymunedol ac amgylcheddol eraill. Gall prosiectau sydd ar y gweill yn y Parc fel Menter y Cymoedd Gwyrdd wneud cyfraniadau arwyddocaol trwy ddatrys anghenion ynni ac amgylcheddol cymunedau'r Parc (**gweler Adran 7.1.11 Ynni**). Fel yn achos mentrau eraill, rhaid i gynlluniau trydan dŵr cynaliadwy sicrhau bod amddiffyniad amgylcheddol yn rhan annatod o'r lleoli a'r dylunio, beth bynnag bo maint y cynllun. Lle na fyddai cynlluniau'n cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol neu ddeddfwriaeth eraill trwy, er enghraifft, atal taith pysgod mudol neu gynyddu'r risg o lifogydd, ni fydd eu datblygiad yn cael ei gefnogi. Mae'r SEA yn mynd ati i weithio ag APCBB a'r Cymoedd Gwyrdd i annog cynlluniau trydan dŵr cynaliadwy, ac maent wedi cyhoeddi Canllawiau Ymarfer Da sy'n disgrifio sut mae cynlluniau trydan dŵr wedi ystyried pryderon amgylcheddol.

6. Rhoi amcanion yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon ar waith dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i gyflawni statws ecolegol da ar gyfer ecosystemau dyfrol gwydn yn y Parc.

Gan ddefnyddio'r dull o weithredu tynnwyd sylw ato yn **Amcan Strategol 3** uchod, gall y WFD ddarparu fframwaith cydlynol i wella a chynnal statws ecolegol



Cronfa Ddŵr Pontsticill

ecosystemau dyfrol y Parc. Bydd angen i ffermwyr a thirfeddianwyr a rheolwyr eraill gael cyngor a chefnogaeth i gyflawni amcanion y cynlluniau hyn. Hefyd bydd angen targedu cymhelliannau ariannol a pholisi amaethyddol i gyflawni'r amcanion a nodwyd yn y WFD.

7. Atal asideiddio parhaus priddoedd a dyfroedd ucheldirol yn y Parc.

Bydd asideiddio priddoedd a dyfroedd ucheldiroedd yn cynyddu wrth i'r atmosffer gynhesu, sydd i raddau helaeth y tu hwnt i reolaeth y rhanddeiliaid yn y Parc Cenedlaethol. Felly mae angen ymdrech cenedlaethol yn cynnwys polisïau cyhoeddus ac ymarfer diwydiannol ar y tir a'r môr i gyflawni'r nod hwn.

CROES-GYFEIRIO


| | |
|---|---|
| 7.1.2 | Bioamrywiaeth |
| 7.1.4 | Amgylchedd Hanesyddol |
| 7.1.5 | Amgylchedd Adeiledig |
| 7.1.8 | Adnoddau Dŵr |
| 7.1.9 | Adnoddau Pridd |
| 7.1.12 | Ffermio |
| 7.1.13 | Coetiroedd |
| 7.1.14 | Ucheldiroedd |
| 7.2.1 | Mynediad a Hamdden Awyr Agored |
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |
| 7.3.4 | Cynllunio a Datblygu |

### 7.1.9. Adnoddau Pridd

Ynghyd ag aer a dŵr, pridd yw un o systemau cynnal bywyd sylfaenol y Ddaear. Mae priddoedd a'u biota yn cynnal swyddogaethau critigol ar raddfa fyd-eang, fel cylchredau hydrolegol, carbon, ffosfforws a nitrogen. Er enghraifft, mae priddoedd yn gweithredu fel sinc carbon ac felly'n ffactor pwysig wrth reoli newid yn yr hinsawdd. Mae priddoedd yn hanfodol i amaethyddiaeth, coedwigaeth, cynhyrchu ynni a'r diwydiannau tecstilau a ffibr, gan ddarparu maetholion a sicrhau bod dŵr ar gael i blanhigion ac anifeiliaid fel ei gilydd. Mae math, strwythur a swyddogaeth pridd - mewn cysylltiad â ffactorau hinsoddol - yn pennu lleoliad ac ansawdd bywyd gwyllt a'u cynefinoedd. Mewn gwirionedd, mae priddoedd yn darparu cynefin ar gyfer miliynau o organebau sy'n preswylio dan eu hwyneb. Hefyd mae priddoedd yn gyfrwng y mae llawer o arteffactau diwylliannol wedi cael eu cadw ynddo. Maent yn dal y cofnod o orffennol y ddynoliaeth ac, yn llythrennol, yn sylfaen ar gyfer yr amgylchedd adeiledig.

Oherwydd y perthnasau hyn, mae gan ddirywiad neu halogiad priddoedd effeithiau rhaeadrol ac weithiau anadferadwy ar fioamrywiaeth, economeg, diwylliant a hyd yn oed prosesau byd-eang. Gall gymryd cannoedd i filoedd o flynyddoedd i ffurfio un centimedr o ddyfnder pridd, gan wneud priddoedd yn adnodd nad yw'n adnewyddadwy ar raddfa amser dynol. Eto nid yw llawer yn hysbys am briddoedd er gwaethaf dibyniaeth lwyr y ddynoliaeth arnynt.



Dyffryn Llanddewi Nant Hodni

Mae dealltwriaeth gadarn o briddoedd yn hanfodol i reolaeth, yn enwedig mewn parc sy'n cael ei ddominyddu gan ucheldiroedd ac sy'n cynnwys adnoddau pridd organig arwyddocaol. Yn anffodus, ceir diffyg data ar gyfer priddoedd yn PCBB, er ei bod yn hysbys nid oes unrhyw barthau sy'n agored i niwed o ran nitradau nac unrhyw safleoedd wedi'u halogi yn y Parc. Dadfaethiad ac erydiad pridd, yn enwedig colli priddoedd organig, yw'r pryder mwyaf arwyddocaol ar gyfer priddoedd iach. Mae priddoedd mawn, sy'n chwarae rôl arwyddocaol wrth storio carbon, wedi erydu, gan ildio i gyfuniad o lygredd diwydiannol hanesyddol, pwysau hamdden, pori amhriodol a'r elfennau. I raddau llai, mae rhai ymarferion amaethyddol yn cael effeithiau niweidiol ar gofnod diwylliannol a hanesyddol y Parc. Mae'r Cynllun hwn yn darparu ar gyfer cadw a gwella priddoedd yn y Parc Cenedlaethol ac o'i amgylch.

Amcanion Strategol: **Adnoddau Priddoedd**

1. **Amddiffyn priddoedd y Parc rhag dirywiad ac erydiad.**

   Mae erydiad pridd yn bryder difrifol yn y Parc. Bydd colli ansawdd, swm neu weithrediad pridd yn amharu ar allu'r pridd i gefnogi planhigion ac anifeiliaid, storio carbon a darparu gwasanaethau ecosystem eraill sy'n bwysig. Mae'n hawdd tynnu gorchudd llystyfiant a mawn o briddoedd tenau ar fynyddoedd a llwybrau poblogaidd. Gall tywydd, gweithgareddau hamdden, pwysau pori a rhai ymarferion fferm a choedwigaeth waethygu erydiad. Hefyd gall tynnu tywarch, sy'n cynnwys haen uchaf y pridd, niweidio priddoedd. Dyma bwnc o bryder o ran datblygu lleol yn ogystal â'r prosiect pibell nwy

diweddar trwy'r Parc. Mae asideiddio a llosgi heb ei reoli yn niweidio mawn; mae llawer o fawn blanced y Parc yn ddiraddedig. Mae priddoedd mawn yn cynorthwyo wrth gadw arteffactau diwylliannol a nodweddion eraill o'r amgylchedd hanesyddol, sydd mewn perygl o gael eu dinoethi a'u difrodi trwy gynnydd mewn erydiad. Gellir lleihau difrod i bridd a mawn trwy leihau ffynonellau'r diraddiad ac erydiad lle bo hynny'n bosibl a thrwy gael gwell gorchudd llystyfiant. Mae rheolaeth arbennig o feysydd sy'n arbennig o agored i niwed a monitro tymor hir safleoedd sydd wedi'u hadfer yn gamau pwysig tuag at lwyddo i ddiogelu adnoddau pridd y Parc. Gellir cyflawni llawer o hyn trwy roi Strategaeth Erydiad Ucheldiroedd PCBB ar waith.

2. **Gwell cydweithio rhwng rhanddeiliaid wrth reoli adnoddau pridd a mawn.**

   Bydd ag APCBB yn gweithio gyda chominwyr a rhanddeiliaid eraill allweddol yn y Parc Cenedlaethol i gydlynu llosgi wedi'i reoli, gwella ymarferion pori, adfer ardaloedd wedi'u diraddio a mabwysiadu dulliau eraill o reoli sy'n cadw a gwella adnoddau pridd a mawn. Oherwydd bod adnoddau pridd a mawn yn ymestyn y tu hwnt y ffiniau'r Parc, bydd mentrau rheoli'n cael budd mawr o gydweithio â phartneriaid y tu allan i'r Parc, gan gynnwys partneriaid yn Lloegr. Bydd ymdrechion yn cynnwys casglu data a gwybodaeth eraill sy'n ymwneud â phriddoedd y Parc. Un o gydrannau allweddol yr ymdrech hwn bydd darparu deunyddiau a rhaglenni addysgol sy'n esbonio pwysigrwydd a manylion ymarferion rheoli gorau.

CROES-GYFEIRIO


7.1.4 Amgylchedd Hanesyddol
7.1.10 Mwynau
7.1.14 Ucheldiroedd
7.3.4 Cynllunio a Datblygu


### 7.1.10. Mwynau

Ers llawer o flynyddoedd, mae mwynau wedi darparu tanwydd ar ffurf glo a deunyddiau adeiladu ar gyfer waliau, ffyrdd a ffurfiau eraill o ddatblygiad yn y Parc ac o'i amgylch. Hefyd mwynau yw rhiant ddeunydd priddoedd, gan ddarparu maetholion a chynefinoedd sy'n cael eu defnyddio gan amrywiaeth o blanhigion a bywyd gwyllt eraill. Trwy'r oesoedd, mae amaethwyr wedi manteisio ar adnoddau mwynol y Parc yn uniongyrchol i gynhyrchu cnydau, ar ffurf calch llosg a ddefnyddiwyd i niwtraleiddio pH pridd, ac yn anuniongyrchol at ddibenion hwsmonaeth anifeiliaid. Mae echdynnu mwynau wedi bod yn weithgaredd economaidd hyfyw yn y Parc Cenedlaethol, ac mae hynny'n parhau i fod yn wir mewn nifer fach o achosion. O ganlyniad, mae mwynau a phriddoedd y Parc wedi'u cysylltu'n allweddol â'i fioamrywiaeth ac economeg yn ogystal â'i hanes a threftadaeth ddiwylliannol.

Mae'n anochel bod gwaith mwynau'n ymyrryd â'r gallu i gadw a gwella adnoddau naturiol a diwylliannol y Parc a darparu er mwyn i'r cyhoedd mwynhau'r rhain. Mae echdynnu mwynhau'n defnyddio adnoddau cyfyngedig. Mae'n niweidio bioamrywiaeth a geoamrywiaeth y Parc ond hefyd yn andwyo ei harddwch naturiol. Gall chwarela effeithio ar safleoedd archaeolegol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion gall ddatgelu nodweddion o ddiddordeb a allai fod dan fygythiad gan fewnlenwi chwarel neu'n creu ffurfiau newydd ac unigryw o gynefin bywyd gwyllt. Hefyd, yn aml bydd chwareli wedi'u gadael a safleoedd wedi'u hadfer yn ymollwng i ddefnydd heb awdurdod gan weithgareddau hamdden mecanyddol sy'n gallu achosi difrod i'r amgylchedd, arwain at anafiadau personol a thorri ar fwynhad tawel pobl eraill.

Eto, mae'r dystiolaeth sy'n bodoli o echdynnu mwynau yn hanesyddol yn y Parc bellach yn elfen arwyddocaol o amgylchedd hanesyddol y Parc. Mae cymeriad ei amgylchedd adeiledig yn dibynnu ar gymeriad y garreg adeiladu, a gafwyd o chwareli lleol ar raddfa fach yn bennaf. Yn ddelfrydol, byddai symiau bach o garreg adeiladu o ffynhonnell leol, o chwareli



**Chwarel Penderyn**

mewn lleoliadau priodol, yn cael eu defnyddio i alluogi cynnal gwaith cadwraeth ac adeiladau newydd lle bo hynny'n briodol wrth sicrhau bod cymeriad yr adeiladau hanesyddol, a'r dylanwad sydd ganddynt ar gymeriad y dirwedd ehangach, yn cael eu cadw. Fodd bynnag, daeth astudiaeth a gynhaliwyd gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn 2009[20] i'r casgliad nad oes digon o gyflenwadau o garreg adeiladu leol i ddarparu ar gyfer anghenion lleol. O ganlyniad, bydd angen diwallu anghenion o ran carreg adeiladu leol trwy ffynonellau sy'n agos at y Parc ond y tu allan iddo, neu o ffynonellau amgen fel deunyddiau wedi'u hailgylchu, eilaidd a gwastraff lle bo hynny'n briodol i ddynodiad y Parc Cenedlaethol.

Nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw *"atal echdynnu agregiadau yn annerbyniol o ardaloedd y cydnabuwyd eu bod o bwysigrwydd o ran tirwedd, diwylliant, natur, cadwraeth ddaearegol a hydrolegol."*[21] Mae hyn yn cwmpasu parciau cenedlaethol SoDdGAoedd, SACs a safleoedd hanesyddol, y mae pob un yn cael eu hystyried yng nghyd-destun y Cynllun hwn. Mewn perthynas â Pharciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, nod LICC yw *"na ddylai datblygiad mwynau ddigwydd yn yr ardaloedd hyn oni bai ei fod dan amgylchiadau eithriadol. Felly mae'n rhaid i bob cais mwynol fod yn destun i'r archwiliad mwyaf trwyadl a rhaid dangos bod pob datblygiad mwynol mawr er budd y cyhoedd cyn y caniateir parhau ag ef."*[22] Hefyd mae'r Gymdeithas Cynhyrchion Chwarel wedi gwneud ymrwymiad i leihau effeithiau ei weithredoedd mewn parciau cenedlaethol, a chroesewir yr ymrwymiad hwn.

20. Amgueddfa Genedlaethol Cymru 2009. Building Stone Use in the Brecon Beacons National Park.
21. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2004. Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau.

## Amcanion Strategol: **Mwynau**

1. **Lleihau'r difrod i'r Parc sy'n cael ei wneud gan waith mwynau wrth fodloni rhwymedigaeth APCBB fel Awdurdod Cynllunio Mwynau.**

Gellir gweithio mwynau dim ond lle maent yn cael eu canfod, ac mae egwyddorion cynaliadwyedd yn gofyn bod yr anghenion ar gyfer mwynau'n cael eu diwallu mor agos at y galw â phosibl, i leihau ôl troed carbon y Parc trwy gludo mwynau cyn lleied â phosibl. Byddai hyn yn awgrymu y dylai mwynau sy'n ofynnol ar gyfer datblygu a fydd yn digwydd yn PCBB gael eu chwarela o fewn y Parc. Fodd bynnag, mae polisi LICC yn cefnogi barn APCBB na ddylai bod gofyn i barciau cenedlaethol gyfrannu yn gyfrannol at y banc tir rhanbarthol o agregau.[23]

Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cefnogi'r farn hon, ac ymhellach yn argymell archwilio'r posibilrwydd o drosglwyddo cynhyrchiad yn raddol o PCBB i ardaloedd eraill.[24] Hefyd mae LICC wedi cefnogi'r polisïau yng Nghynllun Datblygu Unedol (CDU) PCBB sy'n dweud na fydd APCBB yn nodi yn y CDU hwn unrhyw ardaloedd sy'n cael eu diogelu neu hoff ardaloedd neu ardaloedd i chwilio am echdynnu mwynau agregau pellach yn y Parc Cenedlaethol.[25] Yn gyffelyb, *"bydd ceisiadau ar gyfer gweithfeydd mwynau newydd neu estynedig… yn destun i'r archwiliad mwyaf trylwyr a byddant yn cael eu caniatáu dim*

22. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2001. Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, para. 21.
23. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2004. Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: Agregau para. 49.
24. Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru. Tachwedd 2007. Ymgynghoriad ar Ddatganiad Technegol Rhanbarthol Drafft.
25. Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. 2007. Cynllun Datblygu Unedol: Rhan 6: Dyraniad ar gyfer Echdynnu Mwynau Agregau.

*ond dan amgylchiadau eithriadol lle dangoswyd bod hyn er budd y cyhoedd…"*[26]

Bydd APCBB yn parhau i gymryd rhan yn natblygiad cyfarwyddyd rhanbarthol trwy ei aelodaeth o Weithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru.

2. **Dilyn polisïau LlCC yn erbyn gwaith mwynau mewn parciau cenedlaethol i'r dyddodion tywod a graean a nodwyd yn PCBB.**

Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 yn nodi dyddodion o raean a thywod rhewlifol yn y Parc, ac yn gofyn iddynt gael eu diogelu rhag datblygiad arall, er defnydd posibl yn y dyfodol. Ar hyn o bryd nid yw ansawdd na maint yr adnoddau hyn yn hysbys ac maent ar raddfa rhy fach ac yn rhy bell o brif farchnadoedd i olygu bod eu hechdynnu yn hyfyw yn economaidd. Mae LlCC yn ystyried efallai y daw amser pan fydd galw amdanynt, am resymau cynaliadwyedd neu oherwydd bod adnoddau cyfyngedig wedi cael eu disbyddu rhywle arall. Mae APCBB wedi gwrthod eu diogelu yn y CDU, ac mae adroddiad yr Arolygwr wedi cefnogi'r polisi hwn. Oherwydd y safiad hwn mae LlCC wedi gwrthod â chaniatáu i'r CDU gael ei fabwysiadu'n ffurfiol. O ganlyniad, mae'r CDU wedi cael ei gymeradwyo gan APCBB dim ond at ddefnydd rheoli datblygiad. Nid yw polisi presennol APCBB, sy'n cael ei gefnogi gan gyfarwyddyd LlCC, yn cefnogi echdynnu mwynau o'r newydd yn y Parc. Bydd APCBB yn parhau i wrthsefyll echdynnu tywod a graean o'r safleoedd a nodwyd.

3. **Archwilio opsiynau mwy lleol a chynaliadwy i atodi adnoddau mwynol neu gymryd eu lle.**

Mae parciau cenedlaethol Cymru yn enghreifftiau o gynaliadwyedd, arbrofi â chysyniadau datblygu arloesi wrth hybu cadwraeth amgylcheddol trwy arwain. Mewn perthynas ag echdynnu mwynau, mae angen ffynonellau lleol o garreg adeiladu i drwsio hen waliau ac adeiladau ac at ddefnydd cyfyngedig mewn adeiladau newydd. Nid oes digon o ffynonellau o garreg adeiladu leol, a bydd angen archwilio i ddod o hyd i rai newydd. At ddefnyddiau eraill, mae'n rhaid i APCBB nodi dewisiadau amgen sy'n diwallu'r galw am ddeunyddiau adeiladu wrth fodloni gweledigaeth LlCC ar gyfer parciau cenedlaethol. Gellir cyflawni hyn trwy ddefnyddio deunyddiau eilaidd, gwastraff neu wedi ailgylchu, trwy ddefnyddio deunyddiau adeiladu amgen (e.e., pren, gwellt, mwd), trwy ddod o hyd i ffynonellau amgen a chynaliadwy o agregau mwynol, a/neu drwy leihau'r galw am adnoddau mwynol, er enghraifft. Wrth gwrs, bydd angen i unrhyw ddewisiadau amgen gadw at ddibenion, dyletswydd a pholisïau cynllunio'r Parc wrth gadw rhinweddau arbennig y Parc.

26. Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. 2007. Cynllun Datblygu Unedol: Datblygiad Mwynau.

CROES-GYFEIRIO


| | |
|---|---|
| 7.1.3 | Geoamrywiaeth |
| 7.1.4 | Amgylchedd Hanesyddol |
| 7.1.5 | Amgylchedd Adeiledig |
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |
| 7.3.4 | Cynllunio a Datblygu |
| 7.1.11 | Ynni |


## 7.1.11. Ynni

Daw mwy na 90% o gyflenwadau ynni Cymru o adnoddau nad ydynt yn adnewyddadwy, sef olew, glo a nwy.[27] Mae dosbarthiad ynni yn aneffeithiol iawn. Er enghraifft, mae 90% o'r ynni bydd gweithfeydd pŵer mawr yn ei generadu yn ofer erbyn iddo gyrraedd pwyntiau defnydd yn y Parc. Mae parhau i ddibynnu ar danwyddau ffosil yn cyflwyno o leiaf dau ganlyniad amgylcheddol annymunol ar gyfer Cymru a'r Parc. Yn gyntaf, mae llosgi tanwyddau ffosil yn allyrru crynodiadau arwyddocaol o nwyon tŷ gwydr sydd, yn eu tro, yn newid

27. Adran Masnach a Diwydiant. 2007. Papur Gwyn Ynni: Meeting the Energy Challenge.


System gwresogi wedi'i bweru gan bren


Hen felin ddŵr yng Ngilwern

cyflyrau hinsoddol ar draws y byd. Mae cludiant (35%) a defnydd domestig (26%) yn cyfrannu yn sylweddol at draul tanwydd ffosil anghynaladwy ac allyriadau nwy tŷ gwydr yng Nghymru, ac mae diwydiannau'n defnyddio oddeutu 10% o gyflenwad ynni'r DU.[28] Yn ail, ceir consensws cynyddol bod cynhyrchiad olew byd-eang wedi brigo, neu am frigo cyn bo hir, ond mae traul olew yn parhau i dyfu. Oherwydd bod isadeiledd y gymdeithas wedi'i seilio ar draul tanwyddau ffosil, yn enwedig petrolewm, mae gan y brig sydd gerllaw o ran cynhyrchiad olew o'i gymharu â thraul (sef brig olew) oblygiadau difrifol ar gyfer pob agwedd ar fywyd bob dydd. Rhagwelir senarios tebyg ar gyfer adnoddau nwy a glo, er hynny ymhellach i'r dyfodol.

Er efallai ei bod yn ymddangos bod y ffactorau hyn yn anorchfygol, gall ymdrechion lleol i wella effeithlonrwydd ynni a hybu'r defnydd o ynni adnewyddadwy leihau ôl troed ecolegol y Parc i bob pwrpas. Er enghraifft, mae generadu a dosbarthu trydan ar raddfa fawr yn aneffeithlon iawn, ond mae generadu trydan yn lleol llawer yn fwy cynaliadwy. Yn gyffelyb, mae coetiroedd a gwrychoedd y Parc yn darparu ffynhonnell danwydd posibl i drigolion a chymunedau lleol ar gyfer llosgwyr coed a boeleri biomas ar raddfa fach, gan dybio bod yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio yn gynaliadwy. Hefyd efallai y bydd modd harneisio adnoddau eraill yn y Parc i eneradu gwres ac ynni cynaliadwy ac adnewyddadwy. Yr her yw defnyddio adnoddau lleol i fodloni anghenion lleol yn y modd mwyaf ffasiynol wrth gyfyngu ar effeithiau niweidiol. Gall prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach hyd yn oed achosi effeithiau annymunol, yn enwedig pan fyddant yn cael eu lleoli mewn mannau sy'n sensitif yn amgylcheddol neu'n ddiwylliannol. Bydd gradd cynaliadwyedd ynni a gynhyrchwyd yn lleol yn amrywio yn ôl dulliau o gynhyrchu ac o safle i safle. Fel yn achos unrhyw ffurf ar ddatblygu, rhaid bod prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yn y Parc Cenedlaethol yn gydnaws â'i ddibenion a dyletswydd a rhinweddau arbennig. Hefyd efallai y bydd prosiectau unigol yn destun i feini prawf amgylcheddol a chynaliadwyedd pellach trwy'r Gwerthusiad Cynaliadwyedd (SA) a/neu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA).

Yna gall gweithrediad prosiectau generadu cynaliadwy, ar raddfa fach a lleol wneud camau mawr tuag at leihau ôl troed ecolegol y Parc. Y canlyniad yn y pen draw yw cynnydd mewn hunan gynaliadwyedd rhanbarthol, gan oresgyn dibyniaeth leol ar ddarparwyr ynni allanol a gwella cyfrifoldeb cymunedol trwy rannu rheolaeth adnoddau. Bydd APCBB a'i bartneriaid yn annog lleihad o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy leihau defnydd ynni, gwella cadwraeth ynni a chefnogi cynhyrchiad ynni adnewyddadwy. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y CDLl a fydd yn ymdrechu i wella allbwn gymaint â phosibl o ran ynni cynaliadwy, adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni o bob datblygiad ac adeilad newydd.

28. Ibid.

Astudiaeth Achos

## Menter y Cymoedd Gwyrdd

Mae prosiect y Cymoedd Gwyrdd, sy'n cael ei arwain yn gymunedol, yn gweithio i ddatblygu dyffryn carbon negyddol cyntaf y DU ym Mharc Cenedlaethol, y mae'n bosibl i bydd yn gallu darparu pum gwaith yr ynni sydd ei angen ar yr ardal o gynlluniau micro trydan dŵr yn unig.

Mae Dyffryn Crawnon yn y Parc Cenedlaethol ar y ffordd i ddod yn gymuned carbon negyddol cyntaf y DU. Gosodwyd prosiect trydan dŵr 3.7kW cyntaf y dyffryn yn 2008 a bydd generadur trydan dŵr 17 kW, dan berchnogaeth gymunedol, yn cael ei adeiladu yn haf 2010. Bydd yn generadu 190% o anghenion ynni'r Dyffryn ac yn lleihau allyriadau carbon y cymuned gyfan gan 42%. Mae pum nant arall eisoes wedi cael eu harolygu i gyflenwi 33kW pellach ac yn y pen draw bydd yn arwain at ostyngiad 94% mewn allyriadau carbon gan ei wneud yn rhagregedydd i ddod i ddyffryn carbon niwtral cyntaf y DU.

Mae bron i 100 o gynlluniau trydan dŵr eisoes wedi'u nodi yn y Parc, mae hen felinau, olwynion dŵr yr anghofiwyd amdanynt, nentydd ac afonydd yn cael eu hystyried gan ffermwyr lleol, tirfeddiannwyr a thrigolion sy'n arbennig o frwdfrydig am botensial anhygoel cynlluniau trydan dŵr yng Nghymru. Ym Mhrydain y llynedd cafodd 13 cynllun trydan dwr eu gosod ac roedd 6 o'r cynlluniau hyn yn y Parc Cenedlaethol sy'n ardal y Cymoedd Gwyrdd. Hefyd mae'r mentrau hyn yn creu cyflogaeth leol trwy hyfforddi aelodau cymunedol yn ardal y Cymoedd Gwyrdd i ddod yn osodwyr trydan dŵr.

Bellach mae cynlluniau trydan dŵr yn PCBB yn generadu 1.5% o anghenion ynni ardal y Cymoedd Gwyrdd ac mae'r Cymoedd Gwyrdd eisoes wedi nodi'r 15% nesaf. Maent hefyd wrthi'n cwblhau astudiaethau dicholdeb ac yn datblygu cynlluniau prosiect ar gyfer 92 gosodiad trydan dŵr. Os aiff popeth yn unol â'r cynllun, mewn deg mlynedd gallai'r ardal hon fod yn cynhyrchu ynni gwerth £30 miliwn.

Nod prosiect cymunedol y Cymoedd Gwyrdd ym Mannau



Llif cyfadfer yn Nhalybont



Tu mewn i dŷ tyrbin

Brycheiniog yw lleihau allyriadau carbon trwy nifer o fentrau - nid trydan dŵr yn unig - ac mae wedi derbyn gwobr £300,000 (Ionawr 2010) yn cydnabod yr ymdrechion hyn.

Wedi'i gychwyn gan wirfoddolwyr cymunedol, trechodd y Cymoedd Gwyrdd 350 o ymgeiswyr eraill ym mis Hydref 2008 i ddod yn unig derfynydd Cymru yng nghystadleuaeth newid yn yr hinsawdd Big Green Challenge NESTA, gan gyflwyno cynlluniau ardderchog i fynd i'r afael â chostau tanwydd sy'n cynyddu a newid yn yr hinsawdd. Ymhlith rhai o'u cynlluniau mae adfer rhwydwaith o micro gynlluniau trydan dŵr mewn nentydd ac afonydd lleol, cynorthwyo pobl leol i leihau eu biliau tanwydd trwy fentrau arbed ynni dan arweiniad cymunedol a datblygu gwaith adfer mawnog ar raddfa fawr.

Ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mae 11 cymuned eisoes wedi ymuno â'r Cymoedd Gwyrdd ac mae 7 cymuned arall yn y broses o ymuno. Mae pawb sy'n gweithio ar y prosiectau i leihau allyriadau $CO_2$ yn wirfoddolwyr ac aelodau cymunedol ac maent hefyd yn gweithio i wneud eu cymunedau'n fwy cynaliadwy.

## Amcanion Strategol: **Ynni**

1. **Helpu i gyflawni targedau cenedlaethol ar gyfer cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy trwy gynlluniau ar raddfa cymuned a domestig.**

Yn 2007, gosododd Llywodraeth Cynulliad Cymru dargedau ynni adnewyddadwy ar gyfer Cymru sef pedair awr terawat y flwyddyn erbyn 2010 a saith awr terawat y flwyddyn erbyn 2020.[29] Yn fwy diweddar, mae'r ffocws wedi symud i leihau ynni a gynhyrchir ar sail carbon gan 80-90% wrth *"gynhyrchu cymaint o drydan â phosibl o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2025 ag y byddwn yn treulio."*[30] Er nad yw prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr, fel ffermydd gwynt, yn briodol yn y Parc Cenedlaethol oherwydd effeithiau annymunol ar adnoddau tirwedd, naturiol a diwylliannol, mae LICC wedi rhoi cyfrifoldeb ar y Parciau i fod yn enghreifftiau o gynaliadwyedd a chanolfannau arloesedd ynni glân. Mewn lleoliadau priodol, mae micro generadu ynni cynaliadwy yng nghyd-destun y weledigaeth hon.

Cymeradwywyd cynllun ynni cynaliadwy cymunedol cyntaf y Parc yn 2004. Erbyn diwedd 2007, roedd tri chynllun ynni adnewyddadwy trydan dŵr, chwe chynllun ffoto-foltaig, 40 cynllun solar a phum tyrbin gwynt sengl ar waith yn y Parc Cenedlaethol. Yn fwy diweddar, mae diddordeb a gweithrediad cynllunio micro generadu wedi cynyddu yn ddramatig trwy fentrau sy'n cael eu harwain yn gymunedol yn gysylltiedig â Phrosiect y Cymoedd Gwyrdd. Bydd APCBB a'i bartneriaid, yn enwedig Prosiect y Cymoedd Gwyrdd a'r Rhaglen Gymorth Ynni Adnewyddadwy (RhGYA), yn parhau i annog gosodiadau ynni adnewyddadwy preifat neu gymunedol sy'n gydnaws â dibenion, dyletswydd a rhinweddau arbennig y Parc. Bydd prosiectau tebyg yn cael eu hannog ar ystâd yr APC ei hun. Yn y dyfodol, bydd hefyd gofyn i aneddiadau newydd neu gynlluniau preswyl gael cynlluniau ynni adnewyddadwy ar y safle sydd wedi'u hintegreiddio yn eu caniatâd yn unol â'r Arweiniad ar gyfer Dylunio Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru (Gwanwyn 2009). O ystyried statws wedi'u diogelu llawer o adnoddau dyfrol y Parc - yn arbennig SAC Afon Wysg - bydd hefyd angen i gynlluniau ar raddfa fach ystyried lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar fioamrywiaeth (gan gynnwys pysgod), hydroleg ac argaeledd dwr yn ogystal â'r rheiny sy'n gysylltiedig â dynodiad y Parc.

2. **Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy ddefnyddio cyn lleied o ynni â phosibl.**

Mae ôl troed ecolegol cyfartalog unigolyn sy'n byw yng Nghymru bron i dair gwaith "cyfran gyfartalog y Ddaear" sef 1.8 uned ardal.[31] Yn unol â Phrotocol Kyoto, cytunodd Llywodraeth y DU i ostyngiad 12.5% a gosod nod domestig o leihau allyriadau carbon deuocsid gan 20% o lefelau 1990 erbyn 2010.[32] Yng Nghymru, gosodwyd y targed yn lleihad 3% y flwyddyn mewn allyriadau sy'n gyfwerth â charbon. [33] Er gwaethaf gostyngiadau mewn allyriadau nwyon ty gwydr ers 1990, nid yw targedau'r DU ar gyfer eu gostwng yn cael eu cyflawni. Mae strategaethau mwy diweddar yn annog y DU i "Ostwng Pŵer." Mae'r strategaethau hyn yn annog dulliau synnwyr cyffredin o ymdrin ag ymarferion treulio ynni sy'n wastraffus, rhoi technolegau rheoli ynni modern ar waith a mabwysiadu ffyrdd o fyw darbodus. Nid yw Gostwng Pŵer yn golygu mynd heb bethau, ond mae'n gofyn am fod yn fwy effeithlon a chyfyngu ar weithgareddau sy'n ddwys o ran carbon. Bydd APCBB a'i bartneriaid yn mynd ati i hybu ymwybyddiaeth o'r materion ac ymarferion sy'n

29. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2007. Datganiad Polisi ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol Cymru.
30. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Tachwedd 2008. Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Ymgynghoriad ar Gynllun Datblygu Cynaliadwy newydd i Gymru.
31. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2007. Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy ar gyfer Cymru 2007.
32. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2005. Datganiad Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy.
33. Llywodraeth Cynulliad Cymru. Tachwedd 2008. Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned, Ymgynghoriad ar Gynllun Datblygu Cynaliadwy newydd i Gymru.

helpu pobl i "Ostwng Pŵer."[34] Bydd APCBB yn ceisio bod yn enghraifft o ymarfer gorau trwy ei ymarferion gwaith a rheoli ystâd APCBB. Mae Arweiniad ar gyfer Dylunio Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru (Gwanwyn 2009) yn cynnwys polisïau a safonau ar gyfer datblygiadau newydd a fydd yn cynorthwyo APCBB a'i bartneriaid wrth gyflawni'r nod hwn. Mae enghreifftiau o fentrau presennol yn y Parc i'w canfod yn y Cynllun hwn drwyddo draw.

3. **Cynorthwyo â datblygu mentrau ynni cymunedol.**

Erbyn 2028, y dyhead yw y bydd gan y rhan fwyaf o drefi a phentrefi'r Parc systemau ynni adnewyddadwy cymunedol, gan gynyddu effeithlonrwydd yn fawr a chynhyrchu datrysiad ynni sy'n fwy cost effeithiol na'r un presennol. Bydd cynlluniau gwresogi ardal a systemau gwres a phŵer cyfunol yn gynnig realistig ar gyfer llawer o aneddiadau'r Parc. Yn gyffelyb, bydd cyfleusterau trydan dŵr a thyrbinau gwynt cymunedol yn fwy ymarferol wrth i dechnoleg ddatblygu a chanfyddiadau cyhoeddus newid. Bydd APCBB a'i bartneriaid yn cynorthwyo trefi a phentrefi'r Parc wrth wneud y newid hwn. Bydd APCBB yn cynhyrchu nodiadau cyfarwyddyd ar ynni adnewyddadwy ar gyfer y Parc yn 2010 fel bod ymgeiswyr yn gallu darparu digon o wybodaeth i'r awdurdod cynllunio a'i adolygwyr statudol i bennu a yw'r datblygiad arfaethedig yn gwrthdaro â diben cyntaf y Parc Cenedlaethol neu'n debygol o ddirywio ei rinweddau arbennig.

4. **Datblygu'r gallu ar gyfer grid ynni lleoledig.**

Mae gan ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol eisoes y potensial i gynhyrchu eu holl ofynion o ran gwres a thrydan ar y safle yn hytrach na bod yn rhan o'r grid cenedlaethol. Wrth i effeithiau pwysau poblogaeth, newid yn yr hinsawdd a disbyddiad tanwyddau ffosil ddatblygu, mae'n debygol y bydd gofynion i aneddiadau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes ddod yn hunangynhaliol o ran ynni. Yn hytrach nag ystyried y senarios hyn fel rhwystrau i gynnydd, gellir eu hystyried fel cyfleoedd i ychwanegu gwerth amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd at y gymuned leol neu fenter gymdeithasol, gan leihau effeithiau amgylcheddol, hybu naws am le a chadw'r holl refeniw a gynhyrchwyd.

5. **Integreiddio ynni adnewyddadwy wrth ddylunio adeiladau ac aneddiadau.**

Nod LICC yw bod pob adeilad newydd yn garbon niwtral erbyn 2011 a nod llywodraeth y DU yw eu bod yn garbon niwtral erbyn 2015. I wneud hyn bydd angen newidiadau arwyddocaol o ran ymarfer pensaernïol a'u broses gynllunio. Yn wir, bydd angen newid cymeriad adeiladau yn radical i gynyddu effeithlonrwydd. Bydd angen integreiddio ynni adnewyddadwy yng nghynlluniau cyntaf dylunio yn hytrach na bod yn ychwanegiadau neu newidiadau munud olaf. Mewn symudiad i ffwrdd o brotocol cynllunio traddodiadol, er enghraifft, efallai mai'r peth mwyaf effeithlon ar gyfer sefyllfa adeiladau ac aneddiadau newydd yw mynd ati i "erlid yr ynni," lle mae datblygiadau yn cael eu lleoli nesaf at ffynhonnell dŵr gellir ei defnyddio sy'n generadu'r holl ofynion o ran gwres ac ynni, yn hytrach na dewis datblygiad tu allan i'r dref sy'n dibynnu ar ddatrysiadau traddodiadol ac aneffeithlon i ddarparu a defnyddio ynni. Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i'r meini prawf posibl fel sy'n briodol i broses gynllunio'r CDLl. Bydd Arweiniad ar gyfer Dylunio Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru (Gwanwyn 2009) yn cynorthwyo wrth gyflawni'r amcan strategol hwn.

CROES-GYFEIRIO

| | |
|---|---|
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |
| 7.3.4 | Cynllunio a Datblygu |
| 7.3.5 | Cludiant |

34. Canolfan Technoleg Amgen. 2007. Zero Carbon Britain: An Alternative Energy Strategy..

## 7.1.12. Ffermio

Mae ffermio yn ddiwydiant pwysig yn y DU. Mae'n gwneud cyfraniad arwyddocaol at yr economi, mae'n gyflogwr gwledig mawr (7% o'r gweithlu yn y Parc Cenedlaethol) ac yn darparu bwyd a chynnyrch amaethyddol eraill i'r wlad. Hefyd mae ymarferion ffermio wedi llunio ac yn parhau i lunio'r amgylchedd naturiol. Yng nghyd-destun Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae ffermio a phori yn helpu i gynnal llawer o rinweddau arbennig y Parc, gan gynnwys cyfraniadau at dirwedd, bioamrywiaeth, yr amgylchedd hanesyddol, diwylliant a lles cymdeithasol-economaidd y cymunedau lleol. Hefyd gall amaethyddiaeth ddarparu buddion eraill i'r cyhoedd, er enghraifft, cipio a chadw carbon a rheoli dalgylch i leihau'r risg o lifogydd. Daliadau amaethyddol yw 51% o arwyneb tir y Parc; tiroedd comin yw 38% pellach o'r Parc, cyfran uwch na llawer o barciau cenedlaethol eraill y DU. Mae tiroedd comin yn cyflawni rôl bwysig mewn systemau ffermio lleol ac mae'r parhad yn nefnydd ymarferion rheoli traddodiadol wedi caniatáu i diroedd comin gadw gwerth cadwraeth arwyddocaol wrth ddarparu gweithgareddau hamdden trwy ddarpariaethau mynediad agored a ddisgrifiwyd yn y Ddeddf (DCGHT). Fodd bynnag, mae hyfywedd economaidd ffermio ucheldirol a phori tiroedd comin yn enwedig dan fygythiad oherwydd newidiadau diweddar yn y sector amaethyddol.



**Bugeilio ger Pontsenni**

Yn nodweddiadol mae ffermydd yn y Parc yn cael eu rhedeg gan deuluoedd, gan ddefnyddio glaswelltiroedd caeedig â thiroedd comin yn darparu porfa ychwanegol yn ystod yr haf. Byddai ffermio ucheldirol yn draddodiadol wedi cael ei seilio ar gadw gwartheg eidion gwydn a defaid, wedi'i atodi gan werthu merlod Mynydd Cymreig. Mae gwerthiant stoc stôrs a magu yn dangos y gyd-ddibyniaeth â ffermydd yr iseldir. Mae hinsawdd, priddoedd gwael a thopograffi yn cyfyngu potensial amaethyddol y tir. Felly, ers dros 30 mlynedd, mae polisïau'r Llywodraeth wedi cydnabod yr angen i ddarparu cymorth ariannol ychwanegol i ffermwyr mynydd a dderbynnir trwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP). Am lawer o flynyddoedd, cafodd cymorthdaliadau amaethyddol eu targedu i gynyddu cynhyrchedd, trwy ddarparu prisiau isafswm gwarantedig ar gyfer cynnyrch fferm, er enghraifft. Cyfrannodd y polisïau hyn at golled ansawdd amgylcheddol, er enghraifft trwy welliant amaethyddol glaswelltiroedd rhannol-naturiol, gor-bori â defaid a gostwng nifer y gwartheg. Hefyd, arweiniodd llai o broffidioldeb at lai o bobl ar gael i fugeilio'r defaid fel eu bod yn aros mewn ardal benodol o'r bryn heb symud. O ganlyniad, roedd ardaloedd o lefelau pori ar y rhan fwyaf o fryniau a oedd yn amrywio o ddigonol i naill ai gor-bori neu dan-bori. Digwyddodd rhai diwygiadau polisi yn nechrau'r 1990au â chynnydd yn y defnydd o gwotâu sy'n gysylltiedig â nifer y da byw neu ardal y cnwd a gynhyrchir a chynnydd bach yn nifer y grantiau amaeth-amgylcheddol sydd ar gael i gyflawni amcanion cadwraeth.

Yn 2005 daeth pob cymhorthdal a oedd yn gysylltiedig â chynhyrchiant i ben. Ar hyn o bryd telir *"y Taliad Sengl"* i ffermwyr yng Nghymru sydd fel arfer wedi'i seilio ar swm y cymorthdaliadau hanesyddol mae ffermwr unigol wedi'u hawlio, cyn belled â bod y tir yn cael ei gynnal mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da. Bydd y diwydiant ffermio yn cael ei ddylanwadu yn gynyddol gan faterion eraill sy'n ymwneud â marchnadoedd sy'n newid a phrisiau nwyddau

Astudiaeth Achos

## Marchnata Defaid Cheviot Bryniau Brycheiniog

Dyfarnwyd ariannu Cronfa Datblygu Cynaliadwy i Grŵp Marchnata Defaid Cheviot Bryniau Brycheiniog ym mis Medi 2001. Nod y prosiect oedd datblygu ymgyrch marchnata mawr ar gyfer cig oen, datblygu brandio a sicrhau marchnad i gig oen ar gyfer y dyfodol.

Mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae 45 busnes wedi ymuno â chynllun i ddarparu cig oen Brycheiniog i Marks & Spencer (M&S); gwerthwyd mwy na 10,000 o ŵyn yn 2008. Ymddangosodd Cig Oen Brycheiniog yng nghatalog Nadolig 2008 M&S.

Dyma enillion cynaliadwyedd y prosiect:

- **Economaidd:** Mae gwerthiannau ŵyn i M&S wedi darparu hwb yr oedd ei angen i economi ffermio Canoldir y Bannau (yn enwedig ar ôl clwy'r traed a'r genau) ac mae hyn yn helpu i gefnogi'r economi cymdeithasol ehangach.
- **Cymdeithasol:** Mae ymgyrch marchnata llwyddiannus wedi annog cydlyniant cymunedol a darparu ysgogiad i bobl ifanc barhau traddodiadau ffermio ym Mannau Brycheiniog.
- **Amgylchedd:** Mae cynhyrchwyr wedi cael eu hyfforddi mewn gwell rheolaeth amgylcheddol a thechnegau magu stoc.
- **Diwylliannol:** Mae brîd Cheviot Bryniau Brycheiniog wedi bod yn nodwedd allweddol yn y dirwedd leol ers 150 mlynedd - mae'r fenter hon wedi helpu i sichrau bod y traddodiad diwylliannol hwn yn parhau ffordd mwy amgylcheddol gynaliadwy.



sy'n codi a gostwng, sut bydd Echel 2, Cynllun Datblygu Gwledig yn cefnogi ymarferion ffermio traddodiadol, a'r cymelliannau a marchnadoedd a fydd yn cael eu hybu i ddod o hyd i fwyd lleol.

Hefyd gofynnir i ffermwyr fynd i'r afael â phwysau poblogaeth fyd-eang sy'n cynyddu trwy faterion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd. Mae polisïau'r llywodraeth yn gofyn i'w wlad ddod yn fwy hunangynhaliol o ran cynhyrchu ei bwyd wrth ystyried y galw sy'n cynyddu o wledydd sy'n dioddef gan dlodi bwyd. Bydd y sector ffermio angen datrysiadau ymarferol gan y Llywodraeth a sectorau eraill o'r gymdeithas i fynd i'r afael â'r heriau hyn wrth gynyddu ei gynhyrchiant bwyd a darparu buddion ychwanegol i'r cyhoedd.

Er bod pwysau hanesyddol wedi bod ar broffidioldeb ffermio ucheldirol, mae'r tueddiadau presennol yn arbennig o arwyddocaol oherwydd cynnydd o ran cyflymder a maint.

Ymhlith materion ar hyn o bryd mae:

- Prisiau is a dderbynnir ar gyfer cynnyrch amaethyddol yn rhannol oherwydd grym bargeinio archfarchnadoedd a bwyd rhad wedi'i fewnforio;
- Gostyngiad yn lefelau cymorth amaethyddol oherwydd diwygiadau'r CAP;
- Cost uchel tai gwledig â chyfleoedd cyfyngedig ar gyfer dechreuwyr newydd;
- Cost gweithredu lefelau cynyddol o reoliadau, er enghraifft cofnodion da byw a thagio;
- Effaith clefydau anifeiliaid fel clwy'r traed a'r genau; a
- Chanoli a cholli diwydiannau prosesau amaethyddol lleol, er enghraifft marchnadoedd a lladd-dai.

Bellach mae'r newidiadau mewn ffermio ucheldirol mor sylweddol fel ei bod yn debygol y bydd newidiadau sylfaenol yng nghymeriad ucheldiroedd a sut mae'r dirwedd yn cael ei rheoli mewn cyfnod cymharol fyr o amser. Mae ffermio ucheldirol yn gofyn am sgiliau a gwybodaeth arbenigol,

*"Amgylchedd naturiol anhygoel a phrydferth i'w drysori, ei barchu a'i gadw"*



Ffermio yng nghanol y Bannau



Amser cneifio

y pwyntiau sylfaenol fel arfer yn cael eu pasio i lawr trwy genedlaethau teuluoedd a'u cyfateb i'r amodau lleol. Enghraifft o hyn yw gwybodaeth a sgiliau am sut mae defaid yn cadw at eu cynefin mewn rhannau penodol o'r bryn. Oherwydd y gostyngiad yn nifer y bobl sy'n cael eu cyflogi ym maes ffermio, cynnydd yn oed cyfartalog y gweithlu amaethyddol a chyfleoedd cyfyngedig i bobl ifanc ennill cyflog rhesymol ym maes ffermio, ceir risg y bydd y sgiliau a gallu sy'n ofynnol i reoli'r dirwedd ucheldirol yn cael eu colli. Ceir rhesymau cymdeithasol ac amgylcheddol arwyddocaol i gadw'r uned ffermio deuluol traddodiadol a sicrhau bod tir yn cael ei gadw *"mewn cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da"* o leiaf, fel ei fod ar gael yn rhwydd i gynhyrchu bwyd. Byddai dulliau amgen o reoli ucheldiroedd yn gofyn am newid sylfaenol yn systemau daliadaeth, dyrannu adnoddau, ariannu a hyfforddiant.

## Amcanion Strategol: **Ffermio**

1. **Cynnal a gwella busnesau ffermio hyfyw a chynhyrchiol yn yr ucheldiroedd fel eu bod yn gallu cyflawni amcanion preifat a chyhoeddus i wella rhinweddau arbennig y Parc.**

   Mae'r prif reswm am sut mae tir yn cael ei reoli yn amrywio, ond mae'n fwyfwy tebygol y bydd nifer o amcanion yn cael eu cyflawni o ddarn unigol o dir sy'n gofyn am ddulliau integredig o ymdrin â rheoli. Efallai bod amcanion gellir eu cyflawni'n cynnwys cynhyrchu bwyd, bioamrywiaeth, yr amgylchedd hanesyddol, mynediad awyr agored, hamdden, generadu ynni adnewyddadwy a buddion eraill. Bydd busnesau fferm a busnesau rheoli tir eraill yn parhau yn broffidiol, gan gynnal llawer o'r ymarferion traddodiadol sydd wedi helpu i lunio rhinweddau arbennig y Parc, wrth fod yn arloesol â chyn lleied o fiwrocratiaeth â phosibl. Bydd gwydnwch yn cael ei gynyddu, er enghraifft trwy arallgyfeirio fferm priodol a rheoli risgiau fel clefydau anifeiliaid yn gyfunol.

2. **Integreiddio a hybu cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer ffermio cynaliadwy.**

   Mae tirwedd yr ucheldir yn ased hanfodol yn genedlaethol ac mewn perthynas â'r Parc. Mae pwyslais polisi'n newid o annog cynhyrchiant amaethyddol a phren i ucheldiroedd fel ardaloedd ar gyfer gweithgareddau hamdden a chyflawni buddion i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae angen cyfathrebu i'r cyhoedd am bwysigrwydd parhaus da byw, yn enwedig anifeiliaid mwy sy'n pori, at les yr ucheldiroedd, yn ogystal â chyfathrebu hyn i lywodraeth ar lefel cenedlaethol ac Ewropeaidd.

3. **Datblygu cyfathrebu a chydweithio ymhlith ffermwyr, rheolwyr tir, asiantaethau statudol, sefydliadau heb fod yn rhan o'r llywodraeth, cymunedau a buddiannau eraill.**

   Mae ffermio yn parhau i fod yn elfen fwyaf arwyddocaol o'r hyn sydd angen bod yn ddiwydiant rheoli tir proffidiol. I fod yn llwyddiannus nawr ac yn y dyfodol, bydd hyn angen cynnydd o ran cydweithio, grymuso lleol ac arloesol ymhlith y rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig.

4. **Annog marchnata cynnyrch fferm yn arloesol, er enghraifft trwy ddatblygu cadwynau cyflenwi lleol a chynnyrch â brand y dirwedd.**

   O ystyried newididau ym mholisi, economeg ac ymarfer amaethyddol, bydd angen i ffermwyr allu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd marchnata trwy ychwanegu gwerth at nwyddau a gynhyrchwyd mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft trwy farchnata arbenigol, brandio ac arallgyfeirio. Gall ffermwyr ychwanegu gwerth arwyddocaol at eu cynnyrch trwy farchnata a hybu ar sail brandio lleol a rhanbarthol - fel Cynllun Marchnata Defaid Cheviot Bryniau Brycheiniog. Rhaid cael dyhead bod ffermwyr yn gallu cael budd o fod mewn tirwedd warchodedig ac felly parhau i gyfrannu at ei rheolaeth.

5. **Lleihau gwastraff, defnydd o ynni a llygredd o bob gweithgaredd amaethyddol gymaint â phosibl.**

   Mae gweithgareddau ffermio yn darparu llawer o fuddion cyhoeddus i gymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys diogelwch bwyd. Fodd bynnag, fel yn achos unrhyw fusnes, ceir gofynion ynni, cynnyrch gwastraff a ffynonellau posibl o lygryddion. Gall gwerthuso a rheoli ymarferion ffermio yn ofalus leihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd ynni wrth barhau i ddarparu nwyddau a gwasanaethau i'r cyhoedd. Er enghraifft, mae rhai ffermwyr yn y Parc Cenedlaethol yn gysylltiedig yn uniongyrchol â Menter y Cymoedd Gwyrdd, gan eneradu eu trydan eu hunain o gynlluniau trydan dŵr lleol ar raddfa fach.

6. **Hyrwyddo rhaglenni sy'n gwobrwyo pobl am ddarparu buddion cyhoeddus yn y cefn gwlad, yn enwedig wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol fel generadu ynni, cipio dŵr, storio carbon ac ennill bioamrywiaeth.**

   Yn gyffredinol, mae tir caeedig yn parhau i gynnig mwy o botensial ar gyfer cynhyrchedd amaethyddol o'i gymharu â thir comin, ond mae hyn yn dal i fod yn gyfyngedig o'i gymharu â rhannau mwy iseldirol o'r wlad. Mae'n debygol y bydd yr ardaloedd hyn yn dal i fod angen cefnogaeth os yw'r systemau ffermio sydd wedi helpu i greu eu rhinweddau arbennig gael eu cadw. Mae Tir Gofal wedi darparu rhywfaint o incwm i reoli nodweddion fel dolydd gwair a ffiniau caeau. Fodd bynnag, ni ddyrannwyd digon o adnoddau i ganiatáu i'r rhan fwyaf o ffermydd ymuno â'r cynllun. Mae angen amrywiaeth o gynlluniau i fod yn addas ar gyfer gwahanol fathau o ddaliadau, gan gynnwys tir comin. Efallai y bydd nifer gyfyngedig o bresgripsiynau syml yn addas ar gyfer uned gymharol gynhyrchiol, er enghraifft, ond efallai y bydd angen cynllun mwy arbenigol ar gyfer daliadau â lefelau uwch o ddiddordeb cadwraeth ac ar gyfer mentrau ar raddfa tirwedd. Bydd cynllun amaeth-amgylcheddol newydd Glastir yn ceisio gwella ar gynllun Tir Gofal, ond nid yw wedi'i brofi eto.

7. **Cefnogi rheolaeth gynaliadwy'r tiroedd comin yn y Parc Cenedlaethol gan gynnwys gwaith Cynghorau Tiroedd Comin.**

   Cyflwynodd Deddf Tir Comin (Cymru) 2006 nifer o fesurau i geisio hybu rheolaeth tir cynaliadwy ar diroedd comin. Yn benodol, mae Cynghorau Tir Comin yn fecanwaith newydd a all leihau'r anhawster hanfodol wrth wneud penderfyniadau rheoli cydweithredol a'u rhoi ar waith, galluogi deiliaid hawliau tir comin yn benodol i reoli eu materion eu hunain yn haws a rheoli tiroedd comin mewn ffordd economaidd a chynaliadwy.

CROES-GYFEIRIO

| | |
|---|---|
| 7.1.1 | Tirwedd |
| 7.1.2 | Bioamrywiaeth |
| 7.1.4 | Amgylchedd Hanesyddol |
| 7.1.6 | Diwylliant a Thraddodiadau |
| 7.1.13 | Coetiroedd |
| 7.1.14 | Ucheldiroedd |
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |
| 7.3.5 | Cludiant |

## 7.1.13. Coetiroedd

Mae'r coetiroedd yn rhan hanfodol o dirwedd wahanredol a harddwch naturiol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae rheoli coetiroedd a choedwigoedd yn gynaliadwy yn gwneud cyfraniad positif at weledigaeth y Parc Cenedlaethol trwy gadw a gwella cynefinoedd amrywiol yn y goedwig ac o'i amgylch, gan gynnal bywyd gwyllt sy'n dibynnu ar goetiroedd, creu a chynnal lleoliadau hygyrch i bobl a chyfrannu at economi wledig fywiog. Mae pedwar cyfadail coetir yn y Parc yn SACs ac mae pob un yn eglur a gwahanol iawn. Yn yr Ardal Rhaeadrau, er enghraifft, mae'r coetiroedd dyfnant yn goroesi fel coedwigoedd glaw tymherus ac yn gyfoethog o ran bioamrywiaeth. Hefyd, gall coetiroedd gael gallu cludo llawer mwy o ran pobl na thirweddau mwy agored, gan eu bod yn fwy gwydn i effeithiau naturiol a dynol fel hindreuliad ac erydiad llwybrau troed nag ecosystemau heb goedwigoedd sy'n debyg yn ddaearyddol.

Mae coedwigoedd a choetiroedd yn cynnig buddion amgylcheddol sy'n cynnwys ehangu coetir brodorol, cadw tir o fewn yr SoDdGAoedd, SACs, a SAMs ac yn agos atynt a chreu, adfer ac ehangu cynefin gwerthfawr. Maent yn darparu cysgod, yn cynyddu ymdreiddiad a storio dŵr, yn storio carbon ac yn darparu tanwydd coed a deunyddiau eraill crai fel pren a ffibr.

Mae coetiroedd yn cynnig teimlad croesawgar i bobl sy'n teithio ar hyd y teithiau car golygfaol niferus ledled dyffrynnoedd y Parc a'r rheiny sy'n dymuno archwilio'r agweddau mwy gwyllt ar y dirwedd fwy mynyddig. Gallant fframio tirwedd a helpu i ddarparu lleoliad lleol ar gyfer aneddiadau.

Yn y porth i ben deheuol y Parc Cenedlaethol a Geoparc, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru (CC) yn gwahodd ymwelwyr i Ganolfan Ymwelwyr ac Addysg Garwnant. Yn yr ardal hon mae mwy o hamdden ffurfiol â'r gweithgareddau mwy gweithgar yn cael eu cynnig, fel beicio mynydd ac addysg awyr agored.



Bro'r Sgydau



Canolfan Coedwig Garwnant

Hefyd, mae dyfarniad llwyddiannus statws Geoparc Fforest Fach yn y Parc Cenedlaethol yn cynnig cyfleoedd i ehangu ar werth daearegol y Parc Cenedlaethol a'i choedwigoedd a gydnabyddir yn rhyngwladol, a'i brofi.

Hefyd mae coetiroedd yn cynnig teimlad o les i'r dirwedd fwy ac i leoliad a strwythur aneddiadau. Mae coetiroedd wedi bod yn ffynhonnell deunyddiau adeiladu lleol a chynaliadwy ers canrifoedd (gan wneud cyfraniad nad yw'n hysbys eto at storio carbon). Gellir corffori'r buddion hyn yn natblygiadau'r dyfodol, gan gynnwys tai preswyl a gweithgareddau masnachol diwydiannol.

Mae gorchudd coetir yn bodoli yn y Parc Cenedlaethol ar ffurf cyfuniad o goedwigoedd y sector cyhoeddus a choetir preifat. Mae coedwigoedd y sector cyhoeddus sy'n cael eu rheoli gan Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cwmpasu mwy na 10,000 hectar (neu 25,000 erw) o dir yn y Parc, y rhan fwyaf ohono'n blanhigfeydd conifferaidd masnachol, ond

mae coetir preifat yn cynnwys brithwaith o ddaliadau coetir fferm lydanddail yn bennaf, llawer llai, gwasgaredig a rhai coedwigoedd traddodiadol sy'n cael eu rheoli gan ystadau. Mae'r gwahanol feintiau hyn yn cyflwyno gwahanol gyfleoedd a heriau ar gyfer adfer ac ehangu coetiroedd neu gildroi i gynefinoedd eraill â blaenoriaeth.

Ar 27ain Mawrth 2009 ailgadarnhaodd Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, fod Coetiroedd i Gymru: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed gweledigaeth ar gyfer Cymru dros y 50 mlynedd nesaf yn parhau i olygu: *"Bydd Cymru'n cael ei hadnabod am goetiroedd o ansawdd uchel sy'n gwella'r dirwedd, sy'n briodol i amodau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd a fydd yn darparu buddion go iawn i gymdeithas a chymuned, yn cefnogi diwydiannau sy'n ffynnu a seiliwyd ar goetir ac yn cyfrannu at amgylchedd o well ansawdd yng Nghymru drwyddi draw."*

Coetiroedd Gwell i Gymru (CGG) yw cynllun grant Comisiwn Coedwigaeth Cymru a ddyluniwyd i wireddu'r weledigaeth honno. Datblygwyd y cynllun trwy ymgynghori â pherchnogion coetiroedd a'u hasiantau yn ogystal â sefydliadau sy'n bartneriaid. Mae'r cynllun yn rhoi mwy o bwyslais ar reolaeth coetir o ansawdd da ac yn cynnig grantiau a ddyluniwyd yn arbennig ar gyfer coetiroedd Cymru. Bellach mae cymorth grant wedi'i seilio ar Gynllun Rheoli cymeradwy tymor hir sy'n bodloni'r safonau isafswm dan Gynllun Ansawdd Coetiroedd y Deyrnas Unedig (GACDU).

Mae dylunio coedwig yn offeryn cynllunio ar gyfer creu gweledigaeth i'r dyfodol ar gyfer coedwigoedd newydd a rhai sydd eisoes yn bodoli. Mae dylunio coedwig yn nodi'r strwythur sydd eisoes yn bodoli o ran coetiroedd, ac yn dangos sut, trwy fynd ati i reoli'r tir, bydd y coedwigoedd a choetiroedd yn y dyfodol yn cyfrannu at well ecosystem, wrth gynnal adnodd cynaliadwy sydd o werth economaidd a chadwraethol. Mae'n ystyried effeithiau'r dirwedd ehangach a materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd a chynefinoedd rhywogaethau, gan gyfrannu'n fawr at



**Cronfa Ddŵr Talybont**

gadwraeth natur, diwylliant a bioamrywiaeth yn y Parc Cenedlaethol.

Mae gan reolaeth goetiroedd a choedwigaeth oblygiadau ar gyfer rheoli cymeriad tirwedd hanesyddol yn ogystal â goroesiad nodweddion unigol tirwedd hanesyddol. Mae llawer o goetiroedd hanesyddol, brodorol yn nodweddion tirwedd hanesyddol ynddynt eu hunain ac efallai eu bod yn cynnwys nodweddion archaeolegol ychwanegol helaeth fel ffiniau coetir, pyllau llifio a phlatfformau llosgi siarcol. Hefyd gall coetiroedd ddiogelu nodweddion hanesyddol cynharach sy'n dyddio o gyfnod cyn tyfiant coed. Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael cyngor a gwybodaeth amgylchedd hanesyddol oddi wrth yr Ymddiriedolaethau Archaeolegol i sicrhau bod Cynlluniau Rheoli CGG ac ystâd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn integreiddio rheolaeth yr amgylchedd hanesyddol yn gywir.

Mae pob coetir a choedwig sy'n cael eu rheoli gan Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi'u hasesu gan ddyluniad coedwig, a gymeradwywyd gan GACDU. Hefyd mae'r broses hon yn cael ei mabwysiadu gan berchnogion coetir preifat sy'n dymuno denu cymorth grant trwy gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae dyluniad coedwig yn gwahodd ymgynghoriad gan bob parti sydd â diddordeb, ac mae rhanddeiliaid y Parc yn weithredol wrth greu gweledigaeth y coedwigoedd a choetiroedd hyn ar gyfer y dyfodol.

Mae astudiaeth achos coedwig y Mynydd Du yn enghraifft o gynllun dylunio coedwig ger Y Fenni ac yn ardal gogledd-ddwyreiniol y Parc Cenedlaethol.



## Dylunio Coedwig y Mynydd Du

Saif Coedwig y Mynydd Du ar ffin dwyreiniol PCBB, ger tref farchnad Y Fenni. Mae'r goedwig yn ei dyffryn ei hun, ac wrth ymyl bryniau agored mawreddog Bannau Brycheiniog. Mae'r goedwig yn cwmpasu 1,200 hectar, ac mae'n cael ei rheoli gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru (CC). Mae ystad CC yn cynnwys mwy na 126,000 hectar, gan gynnwys 35,000 hectar y mae tîm Ardal Goedwig Llanymddyfri yn eu rheoli, gan gynnwys Coedwig y Mynydd Du.

Coedwig y Mynydd Du yw'r goedwig fwyaf yn y Parc Cenedlaethol, sy'n cael ei rheoli dan gyfuniad o reolaeth gwympo clir a gorchudd di-dor, gan gynnwys coetir brodorol ac adfer rhostir. Mae coed mawreddog yn tremio dros fynedfeydd i'r goedwig yn y dyffryn drwyddo draw, â choedwig llydanddail yn ehangu ar hyn y nentydd a llednentydd i afon Grwyne Fawr. Wrth i'r goedwig godi i uchderau uwch, ceir cyfuniad o goedwig gynhyrchiol a rhostir.

Mae dyluniad y coedwig yn nodi strwythur y goedwig ar gyfer y dyfodol. Mae'n cofnodi coedwig heddiw ac yn dylanwadu ar sut bydd esblygiad y goedwig sy'n tyfu yn newid ac addasu i'r dyfodol. Mae dyluniad coedwig yn ddull rheoli ac mae'n cael ei gydnabod fel rhan o waith rheoli coedwig yn gynaliadwy. Mae holl goedwigoedd CC yn bodloni Cynllun Ansawdd Coetiroedd y Deyrnas Unedig (UKWAS) sy'n dangos bod coedwigoedd a choetiroedd yn cael eu rheoli i safon uchel.

Mae rheoli coedwig yn gynaliadwy yn cael ei fesur mewn tair haen: ecomomaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae gwaith rheoli coedwig yn ystyried pob agwedd ar y tair haen hyn, i sicrhau bod coedwig gynaliadwy yn bodoli yn y dyfodol.

Mae'r materion allweddol canlynol yn nodi gweledigaeth dylunio coedwig a fydd yn effeithio ar reoli adfywio yn y dyfodol.

Y goedwig hon yw un o goedwigoedd mwy yr ardal ac mae'n gallu tyfu amrywiaeth o rywogaethau coed a fydd yn gwella marchnadoedd pren yn y dyfodol wrth ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd a'r posibilrwydd i rywogaethau fudo, trwy rwydwaith cynefin yn y goedwig. Bydd dyluniad y goedwig yn gwella'r galwadau hyn trwy adfer torlannol llydanddail, â rhywogaethau cymysg conifer a llydanddail trwy gydol uchderau is y goedwig. Yn yr uchderau uwch, bydd y goedwig yn cynnwys lle agored i gyflenwi'r bryn agored cyfagos, wrth wella ac adfer cynefin rhostir i gyflenwi tirwedd ehangach yr ardal hon. Bydd hyn yn gwella ymyl y coetir a choedwig ymhellach i gael gwared ar y siapiau garw ger ffin y goedwig, a chyflenwi tirwedd ehangach yr ardal hon ymhellach.


I sicrhau rheolaeth gynhaliadwy ar goedwigoedd, mae'r materion penodol canlynol yn cael eu hystyried yn y broses dylunio coedwig ar gyfer pob un o'r tair haen:

### Amgylchedd

Bydd dylunio coedwig a rheoli coedwig yn dilyn hyn yn gwella a diogelu'r amgylchedd yn unol â deddfwriaeth berthnasol yr UE, gyda phwyslais benodol ar reoliadau cynefin diweddar (Awst 2007). Bydd hyn yn cynnwys gwarchod a gwella rhywogaethau a chynefinoedd, ac ystyried newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol trwy greu rhwydweithiau cynefin yn y goedwig drwyddi draw i ganiatau rhywogaethau i fudo yn y dyfodol.

Bydd ehangu coetir brodorol a phlannu mwy o goed llydanddail yn nodwedd amlwg o'r goedwig yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae coetir llydanddail yr ardal yn 7% o'r ardal hon, â chynnydd graddol i 33% trwy gyfuniad o gwympo ac ailblannu a rheolaeth adnewyddu naturiol.

Rhaid ystyried tirwedd y goedwig o ran dau ffactor: 1) tirwedd y dyffryn mewnol is, lle bydd gorchudd di-dor a choedwig



llydanddail yn bodoli i hybu teimlad croesawgar a chreu rhwydwaith cynefinoedd ochr wrth ochr â'r coetir brodorol sydd eisoes yn bodoli ac ochrau nentydd; a 2) tirwedd uwch Bannau Brycheiniog, lle mae'r goedwig yn cyflenwi tirwedd agored ehangach ar raddfa fawr. Mae'r dyffryn is yn cynnig cyfle mwy ar gyfer amrywiaeth rhywogaethau, rheolaeth gorchudd di-dor y goedwig ac ehangu coetir hynafol trwy well priddoedd a sefydlogrwydd. Bydd rhan uwch y goedwig yn cyflenwir'r bryn agored cyfagos o dir pori ucheldirol heb ei wella trwy dorri siapiau ymylol garw, sy'n bodoli fel ffin y goedwig ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy reoli lle agored, a gwasgaru adfer naturiol yn yr ardaloedd hyn, wrth gynnig cyfle i adfer cynefin y rhostir traddodiadol.

## Economaidd

Bydd Coedwig y Mynydd Du yn parhau i fod yn goedwig fasnachol bwysig, wrth gyfuno amrywhiaeth rhywogaethau, conifferaidd a llydanddail, i gyflenwi marchnadoedd sydd eisoes yn bodoli, rhai newydd a marchnadoedd sy'n dod i'r amlwg ar gyfer y dyfodol.

Mae rhaglenni cynaeafu ar hyn o bryd wedi ymrwymo i'r diwydiant prosesu pren am y pum mlynedd nesaf trwy ragolygon cynhyrchu a gyhoeddwyd. Mae hyn yn caniatau i'r diwydiant fuddsoddi yn y tymor byr a chanolig, gan ychwanegu at ddiwydiant cynaliadwy arall. Ni fydd unrhyw newid, neu newid bach iawn, o ran gweithredoedd a gynlluniwyd ac a ymrwymwyd iddynt ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae dyluniad y goedwig yn ystyried anghenion mynediad ac adeiladu unrhyw ffordd yn dilyn hyn yn y goedwig. Ni nodwyd unrhyw anghenion ffyrdd newydd ar gyfer y cyfnod hwn o adolygu yn y goedwig hon. Mae cyswllt ag adrannau priffyrdd lleol a'r gymuned leol wedi nodi cyfnod gweithredoedd coedwig byr o ddewis ym mhob rhaglen bum mlynedd, yn hytrach nag effaith cynaeafu parhaus ar yr ardal hon. Mae'r strategaeth farchnata pren wedi nodi'r dewis hwn.

## Cymdeithasol

Mae CC yn rheoli Coedwig y Mynydd Du, sy'n gwahodd y cyhoedd i fwynhau'r goedwig fel man hamdden anffurfiol tawel. Mae mynediad ar agor ar droed, ar feic ac ar geffyl, a rhaid i bob ymwelydd fod yn ymwybodol o ddefnyddwyr eraill y goedwig, gan gynnwys gweithredoedd yn y goedwig sy'n parhau.

Mae cyfleusterau parcio ceir ar gael er nad ydynt yn safleoedd allweddol.

Ceir caniatad yn y goedwig hon ar gyfer digwyddiadau a drefnwyd, ac mae mwy a mwy o ddiddordeb yn y gweithgareddau hyn. Mae CC yn ystyried y cynnydd hwn yn niddordeb mewn defnyddio'r goedwig, trwy'r gweithgareddau arbenigol hyn, wrth barhau i gynnig hamdden anffurfiol tawel ar hyd y rhan fwyaf o'r flwyddyn.

Mae dyluniad y goedwig yn canolbwyntio ar goedwig y dyffryn is i hybu a gwella profiad ymwelwyr i Goedwig y Mynydd Du trwy gyfuniad o goed coniferaidd mawreddog ochr wrth ochr ag ymyl y goedwig, rheolaeth gorchudd di-dor a gwella'r goetir brodorol ar hyd ochr nentydd trwy gydol y goedwig

Bydd adolygiad dyluniad y goedwig yn cael ei gynnal bob 10 mlynedd ar gyfer pob ardal goedwig mae CC yn eu rheoli, ag adolygiad pum mlynedd. Mae hyn yn caniatau i'r cynllun presennol gael ei ystyried mewn ymateb i newidiadau newydd mewn polisi, unrhyw effeithiau mawr ar y goedwig, fel difrod catastroffig i'r goedwig gan hinsawdd, a galwadau rhanddeiliaid.

Mae'r broses dylunio coedwig wedi bod yn amlwg yn strwythur rheoli coedwigoedd CC ers dechrau'r 1990au, ac mae'n ddull gwerthfawr a chadarn i reolwr y coedwig reoli'r goedwig ar gyfer y dyfodol mewn ffordd gynaliadwy. Yn ystod 2007 a dechrau 2008 ymgyrerwyd ag adolygiad dylunio coedwig yng Nghoedwig y Mynydd Du.

*"Mae gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog amrywiaeth fawr o ddaearyddiaeth brydferth mewn ardal fach"*



Coetir ym Mro'r Sgydau



Coeden dderw hynafol

## Amcanion Strategol: **Coetiroedd**

1. **Cadw gwerthoedd coetiroedd brodorol ffermydd rhannau is dyffrynnoedd sydd eisoes yn bodoli yn y Parc Cenedlaethol ac ehangu'r cynefinoedd hyn tuag at y llethrau uwch lle mae coedwigoedd sydd eisoes yn bodoli yn gorwedd.**

   Mae'r amcan strategol hwn yn gwella'r cynefinoedd a thirwedd sydd eisoes yn bodoli wrth ehangu coetiroedd brodorol yn yr ardaloedd hyn, gan annog y coetir brodorol i fudo i mewn i'r coedwigoedd conifferaidd masnachol. Mae'r ymdrechion hyn yn cynnwys rheoli cynefin llinellau coediog. Mae llinellau o goed a dyfwyd allan o wrychoedd, yn ogystal â nentydd ac afonydd â choed ar eu hyd, yn nodwedd bwysig o dirwedd PCBB, o ran diffinio cymeriad a darparu bioamrywiaeth a chysylltedd. Yn aml mae ffurf bresennol nodweddion yn ganlyniad i adael ymarfer y gorffennol yn rhannol. Bydd cysylltedd ar gyfer rhai rhywogaethau yn dibynnu ar ddigon o opsiynau llwybr yn y dirwedd, fel bod rheolaeth gylchdroadol y nodweddion hyn bob amser yn cadw rhai llwybrau mewn ffurf addas. Hefyd efallai bod posibilrwydd corffori cynnyrch coed tân/gwrychoedd ar raddfa fach mewn rheolaeth gylchol nodweddion llinellol o'r fath.

   Bydd y gwaith hwn o ehangu coetir brodorol yn gwella cysylltedd a rhwydweithiau cynefin, gan alluogi rhywogaethau i fudo i uchderau uwch neu is, gan ddibynnu ar batrymau tymheredd a dyddodiad sy'n newid a fydd yn codi yn y dyfodol. Mae dylunio cysylltedd tirwedd i mewn i gynlluniau coedwig yn un mesur pwysig i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau'r Parc o ystyried ansicrwydd senarios newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

2. **Rheoli coedwigoedd ar uchderau uwch i gynnal presenoldeb masnachol cadarn fel coedwigoedd conifferaidd, gan gyfrannu at yr economi gwledig wrth gynnig y cyfle i wella dyluniad tirwedd a chreu lle agored ucheldirol newydd trwy gwympo coed.**

   Bydd y lle agored hwn yn cyfrannu at y mawredd a theimlad o wylltineb sy'n gysylltiedig â'r Parc Cenedlaethol trwy greu ardaloedd sy'n bron â bod yn naturiol yn agos at y tiroedd comin agored. Hefyd gall rheolaeth ofalus o greadigaethau o le agored o'r fath mewn strwythur coedwig a choetir, gan roi sylw penodol i uchderau uwch, gyfrannu at frwydro newid yn yr hinsawdd, trwy greu sinciau carbon trwy adfer mawnogydd a rhostir ucheldirol. Hefyd, bydd y cyfle i gadw a gwella nodweddion archaeolegol, a nodweddion eraill yr amgylchedd hanesyddol, yn cael ei gymryd. Bydd symudiadau i goed llydanddail nodweddiadol brodorol

ar ymyl uchaf coedwigoedd yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n ddichonadwy i feddalu ymylon coedwigoedd a'r harddwch gweledol.

3. **Adfer cynefinoedd a gydnabyddir yn rhyngwladol mewn coetiroedd, fel gorgorsydd ucheldirol, rhostir ucheldirol a choed derw ucheldirol, lle mae'r budd amgylcheddol yn fwy na gadael yr ardal yn goediog, a lle mae'r hyfywdra a photensial yn bodoli.**

   Gellir dod o hyd i enghreifftiau o'r cynefinoedd hyn yng nghoedwigoedd rheoledig Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac ym mannau eraill yn y Parc Cenedlaethol. Mae rheolaeth lle agored yng nghoedwigoedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cynnig cyfleoedd i greu tirwedd amrywiol ond hefyd i greu cynefin newydd ac adfer cynefinoedd a aflonyddwyd. Yn y broses mae'r ymdrechion hyn yn darparu modelau ymarfer da i goetiroedd a choedwigoedd eraill efelychu.

4. **Ymarfer technegau coedwigaeth gorchudd di-dor mewn coedwigoedd addas lle mae rhywogaethau coed priodol, wynebwedd, oed, presgripsiynau rheoli'r gorffennol a phriddoedd yn caniatáu.**

   Mae ymarfer coedwigaeth gorchudd di-dor yn offeryn rheoli hanfodol ar gyfer coedwigwyr. Mae'n cynnig cynhaliaeth gorchudd coed parhaol mewn coetiroedd. Dyma'r mecanwaith o ddewis i gynnal ardaloedd sensitif yn y dirwedd a thrawsnewid planhigfeydd yn goetiroedd brodorol ar safleoedd a arferai fod yn safleoedd coetir hynafol.

5. **Integreiddio mabwysiadu rheolaeth coetir cynaliadwy i mewn i'r Cynllun Datblygu Lleol.**

   Mae rheolaeth coetiroedd yn cyfrannu at amddiffyniad rhag llifogydd a materion eraill sy'n ymwneud â datblygu. Mae hyn o bwysigrwydd arbennig yng nghyd-destun Cynllun Datblygu Lleol y Parc mewn perthynas â galw am dai ac anghenion y gymdeithas yn y dyfodol. Lle bo hynny'n berthnasol mewn dalgylchoedd dŵr, gall coetiroedd gynnig mecanweithiau amddiffyn rhag llifogydd trwy greu cynefinoedd coetir gwlyb newydd a chyfrannu at leihau effaith lefelau dŵr uwch i lawr yr afon ac yn nes at y cymunedau hynny sydd mewn perygl gan lifogydd. Hefyd gellir tyfu coetiroedd i ddarparu tanwydd a deunyddiau crai eraill.

6. **Hwyluso cytundebau coetir cymunedol o fewn cyrraedd hwylus i drefi a phentrefi sy'n bodoli ar hyn o bryd ac yn y dyfodol i gyfrannu at (CMC) lleol a gwell teimlad o iechyd a lles.**

   Mae coedwigoedd a choetiroedd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn y Parc Cenedlaethol yn gwahodd hamdden dawel anffurfiol ar gyfer twristiaid a thrigolion lleol. Mae'r coedwigoedd yn darparu teimlad o berchnogaeth gyhoeddus ac yn gyfrannwr pwysig at yr economi lleol trwy weithgareddau twristiaeth maent yn denu. Hefyd mae cymunedau lleol yn cael budd o'r goedwig trwy'r gwell iechyd a lles maent yn darparu i'r rheiny sy'n mynd i'r ardaloedd hyn. Maent yn cael eu cydnabod fel asedau gwerthfawr ar gyfer cymdeithas heddiw.

CROES-GYFEIRIO

7.1.1 Tirwedd
7.1.2 Bioamrywiaeth
7.1.4 Amgylchedd Hanesyddol
7.1.14 Ucheldiroedd
7.3.1 Cymunedau Cynaliadwy

## 7.1.14. Ucheldiroedd

Mae ucheldiroedd y Parc yn darparu ehangder bron yn ddi-dor o gynefinoedd o bwysigrwydd cenedlaethol, tir comin a mynediad agored yn ymestyn ar draws y Parc o'r dwyrain i'r gorllewin. Maent yn cynnwys nodweddion mwyaf amlwg tirwedd ddynodedig y Parc ac yn darparu baromedr ar gyfer cyflwr iechyd ecolegol, amaethyddol ac economaidd y Parc.

Yr ucheldiroedd yw craidd cymeriad y Parc Cenedlaethol ac maent yn ffurfio'r ardal fwyaf deheuol o ucheldiroedd helaeth ym Mhrydain Fawr. Maent yn cynnal cymysgedd cymhleth o gynefinoedd pwysig dros ardal fawr iawn ac maent wedi'u fframio gan y parth ffridd/coedcae (defeidiog/tir pori â choed), y parth trawsnewid rhwng cynefinoedd ucheldirol ac iseldirol.

Mae'r Parc yn cynnwys tair o'r pedair llain cydgyffyrddol o dir comin ucheldirol heb ei amgáu o dros 4000 hectar yng Nghymru, y mae'r perchnogion yn cynnwys ystadau preifat, APCBB, Dŵr Cymru, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Cwmni Magnelwyr Anrhydeddus.


Ar y cyfan mae ucheldirol y Parc mewn cyflwr amaethyddol ac ecolegol gwael. Ymhlith y ffactorau sydd wedi achosi hyn mae llygredd aer a dyddodiad dŵr asid sy'n dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif, sathru a lefelau pori amhriodol, llosgi mynych mewn lleoliadau penodol, dadgoedwigo a chyfradd naturiol araf cynhyrchedd biolegol sy'n digwydd mewn amgylcheddau ucheldirol. Yn gyffredinol, gellir crynhoi'r rhain fel absenoldeb rheolaeth integredig, gydweithredol rhwng y partïon dan sylw. Bydd gwrth-droi'r sefyllfa hon yn dibynnu ar sector ffermio a rheoli tir proffidiol a dealltwriaeth ar bob ochr o anghenion cadwraeth fioamrywiaeth ac amaethyddiaeth, y mae eu gweithgareddau amrywiol yn gallu cyfrannu yn bositif at reoli amgylchedd naturiol a diwylliannol ardderchog.

Mae rheoli tiroedd comin yn fwy anodd oherwydd yr angen i sicrhau consensws gan y buddiannau cyfreithiol niferus sy'n gysylltiedig â'r hyn sy'n gallu bod yn ardaloedd mawr iawn o dir o ansawdd isel ag enillion economaidd ffiniol ar gael. Ceir risg y bydd pwysau economaidd presennol yn arwain at newid strwythurol o ran systemau ffermio a cholled o ganlyniad i hynny o ran gallu rheoli tir. Efallai y bydd angen mynd i'r afael â materion anodd fel rôl ffensys ar diroedd comin ucheldirol i alluogi rheolaeth gynaliadwy. Roedd Deddf Tir Comin 2006 yn cynnwys mesurau i hwyluso rheolaeth gynaliadwy, yn enwedig trwy sefydlu Cynghorau Tir Comin. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd angen cefnogi sefydlu Cynghorau Tir Comin a darparu cymhellion iddynt allu ymgymryd â rheolaeth tir cynaliadwy.

Mae aer, pridd, dŵr, carbon a nitrogen yn hanfodol i fywyd dynol, amaethyddiaeth a bioamrywiaeth; hwy yw "system cynnal bywyd" y byd byw. Maent yn gynyddol amlwg mewn polisïau a deddfwriaeth amgylcheddol a gwledig. Gallai newid yn yr hinsawdd effeithio yn negyddol ar bob un. Yn y Parc, mae rheolaeth gynaliadwy'r adnoddau hanfodol hyn yn dibynnu ar bori priodol, coetir, tân, dŵr, hamdden a rheoli mynediad.

Mae llawer iawn o garbon wedi'i storio mewn priddoedd a mawn. Mae priddoedd organig Cymru yn cynnwys oddeutu 410 miliwn tunnell o garbon. Yn PCBB, mae cyfran uchel o gynefinoedd ucheldirol a phriddoedd organig mewn cyflwr gwael a bydd adfer ecolegol yn broses araf sydd angen ymrwymiadau tymor hir i fod yn llwyddiannus. Heb weithredu priodol, bydd yr ucheldiroedd yn cyfrannu mwy a mwy o garbon at yr atmosffer, gan ychwanegu at yr effaith tŷ gwydr a chynhesu byd-eang. Byddai colled o ddim ond 1% y flwyddyn o garbon pridd yng Nghymru drwyddi draw yn cynyddu allyriadau carbon Cymru yn gyffredinol gan 25%, gan ddileu'r un maint o arbedion carbon a wnaed mewn mannau eraill. Petai'r tymheredd blynyddol cyfartalog yng Nghymru yn cynyddu gan ddim ond $1^{0}$C yn ystod yr 20 mlynedd nesaf, sydd bron yn sicr o ddigwydd, mae colled carbon o'r math hwn yn debygol.

Ceir rhai mesurau amlwg i ddiogelu carbon pridd organig fel cynnal gorchudd di-dor o lwyni a glaswelltydd bach, osgoi



Grug, Pwll Ddu, Blaenafon



Mynydd Illtyd

aredig dwfn, cyfateb lefelau pori â gofynion y safle, osgoi erydiad a chywasgu pridd, gwrth-droi draenio tir ac atal llosgi heb reolaeth ar rostiroedd. Fel enghraifft, bydd cydymffurfio â'r codau llosgi newydd ar gyfer grug a glaswellt yn lleihau'r risg o losgi heb reolaeth yn y dyfodol wrth ddarparu enghreifftiau o ymarfer rheoli gorau trwy lunio cynlluniau llosgi sy'n cadw at y rheoliadau newydd. Mae'r mesurau hyn hefyd yn darparu buddion sy'n gysylltiedig â chadwraeth dŵr yn unol â'r WFD sydd, yn ei dro, yn gallu darparu ffocws ar gyfer rheoli ucheldiroedd.

O ran generadu trydan dŵr ar raddfa fach, mae tirwedd ucheldirol y Parc yn ddelfrydol: digon o law, ardaloedd mawr, fflat o bridd dwfn sy'n dal dŵr (storfa), storfa ar uchder yn uwch na phwyntiau generadu a defnyddio, nifer o bwyntiau dŵr ffo o amgylch yr ymylon ucheldirol ac aneddiadau gwasgaredig, bach, cywasgedig wrth waelod y nentydd hyn i ddarparu pwyntiau defnyddio bach.

Fel mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) wedi nodi, mae gan ffermwyr heddiw - ymddiriedolwyr y dirwedd hon - dasg anodd iawn o'u blaenau, i reoli'r tir a'i adnoddau mewn byd sy'n newid. Bydd angen argyhoeddiad a meddwl yn arloesol i oresgyn yr ansicrwydd a risg sydd wedi'u gosod o'u blaenau, yn enwedig o ran pobl ifanc a fydd yn gorfod ymdopi â'r baich a'r costau.

## Tir mae APCBB yn berchen arno

Mae'r tir amaethyddol a thir comin ucheldirol mae APCBB yn berchen neu'n rheoli yn ased arwyddocaol iawn o ran ei werth ecolegol, archaeolegol a thirwedd. Mae safleoedd yn cynnwys rhai o'r lleoliadau mwyaf poblogaidd ac eiconig ar draws y Parc: rhannau o'r Blorens, Mynydd y Gadair (Hatterrall Hill), Tiroedd Comin Gwernyfed, Tir Comin Henallt, Llangasty, Pen y Crug, Mynydd Illtyd, rhan o Ardal y Rhaeadrau a Gweithfeydd Powdr Gwn, Cefn Llechid, Manor Bach, Parc Gwledig Craig-y-nos, rheilffordd segur Gofilon, Manor Mawr, Fforest Fawr, Mynydd Du, Mynydd Myddfai-Mynydd Bach Trecastell, Coetir Carreg Cennen a Garn Goch.

Yr eiddo hwn sy'n rhoi'r cyfle gorau i'r Awdurdod o wneud cyfraniad uniongyrchol at wireddu dibenion y Parc a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt. Trwy weithio mewn partneriaeth â chominwyr a thirfeddianwyr ucheldirol eraill yn y Parc, gellir gweithredu dros ardaloedd mawr, gan ddod â budd i ddefnyddwyr ucheldiroedd a thiroedd comin ond hefyd yr ardaloedd sy'n gyfagos.

## Amcanion Strategol: **Rheoli Ucheldiroedd**

1. **Nodi ardaloedd o flaenoriaeth ar gyfer rheoli pridd organig a gwlyptiroedd.**

   Deall symiau a maint colledion carbon pridd yw'r cam cyntaf wrth wrth-droi'r duedd hon.

2. **Lleihau maint rhywogaethau ymledol.**

   Mae rhywogaethau ymledol fel rhedyn, a rhywogaethau estron ymledol fel ffromlys chwarennog, llysiau'r dial, Rhododendron ponticum, creigafal, briweg cors Seland Newydd yn bresennol yn y Parc. Mae rhai, fel rhedyn, yn achosi difrod economaidd ac ecolegol ar raddfa fawr, gan effeithio ar dir amaethyddol, tir comin, ymylon coedwigoedd a chynefinoedd eraill pwysig. Mae'n ddrud rheoli rhedyn a llawer o'r rhywogaethau ymledol eraill, yn enwedig ar dirwedd ucheldiroedd anhygyrch. Byddai gostwng maint rhywogaethau ymledol yn gwneud cyfraniad positif at reoli ucheldiroedd.

3. **Cyflawni ffermio cynaliadwy.**

   Erbyn 2020 bydd angen i reolwyr adnoddau ddatblygu ymarfer da ar gyfer rheoli carbon pridd a chadwraeth dŵr yn yr ucheldiroedd (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007). Mae hyn yn gofyn i ymarfer da gael ei reoli gan y tirfeddianwyr yn ogystal â'r cominwyr. Trwy ddealltwriaeth dda a pherthynas gwaith agos â chominwyr a ffermwyr ucheldirol, gall rheoli ucheldiroedd ddarparu ar gyfer anghenion cadwraeth fioamrywiaeth, pori tiroedd comin, cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol, mynediad, rheoli dŵr a rheoli carbon pridd, wrth ddefnyddio a datblygu sgiliau a gwybodaeth leol. Ar hyn o bryd ceir cyfle i ganolbwyntio adnoddau cyhoeddus tuag at gyflawni rheolaeth gynaliadwy. Mae'r cyfle hwn yn codi'r trwy Adolygiad Echel II y Cynllun Datblygu Gwledig a'r adolygiad cynhwysfawr o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin erbyn 2013. Ar ôl y cyfnod hwn, efallai y bydd pwysau'n arwain at newidiadau strwythurol parhaol o ran ffermio a cholled pori ar fryniau.

4. **Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i dyfu'r economi lleol.**

   Mae cyfleoedd economaidd ar gael trwy reoli ecosystemau a bioamrywiaeth yn yr iseldiroedd a'r ucheldiroedd. Gall Rheoli Tir Integredig ddarparu hyfforddiant, cyfleoedd a chyfleoedd gwasanaeth ychwanegol y tu hwnt i ffiniau amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae potensial cyflogaeth yn bodoli o fewn arolygu a monitro, dehongli bywyd gwyllt ac archaeoleg, adfer cynefinoedd, rheoli ffermydd ac ystadau, cadwraeth carbon, pridd a dŵr a chynlluniau pori lleol. Ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â mentrau eraill "newydd" - tanwyddau pren, pysgota, cynhyrchu bwyd lleol, isadeiledd ynni adnewyddadwy, mae'r holl gyfleoedd hyn yn creu economi llawer mwy amrywiol wrth ddarparu'r amgylchedd cywir i ddenu mewnfuddsoddiad addas.

5. **Arddangos cadwraeth integredig, gynaliadwy ar raddfa dirwedd trwy sicrhau prosiectau ar raddfa fawr, tymor hir wedi'u hariannu ar draws y Parc.**

   Os bydd Cynghorau Tir Comin yn cael eu sefydlu dan Ddeddf Tir Comin (Cymru) 2006, bydd hyn yn cael effaith uniongyrchol ar APCBB, sy'n berchen ar gyfran sylweddol o diroedd comin ucheldirol Cymru. Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd i gyfuno arbenigedd ffermio, arbenigedd cadwraeth ac arbenigedd heb fod yn ffermio i gyflawni rheolaeth integredig. Gall APCBB weithio gyda phartneriaid i arddangos ymarfer gorau o ran rheoli. Unwaith mae llwyddiant wedi'i arddangos ar diroedd mae APCBB yn berchen arnynt, gellir ehangu prosiectau i gynnwys tiroedd mae partneriaid yn berchen arnynt ac yn eu rheoli. Dylai cynlluniau cydweithredol ar raddfa dirwedd fod yn gyffredin erbyn 2020, â busnesau fferm yn gyfforddus wrth gadw dŵr, carbon pridd a thirwedd, cadw'r amgylchedd hanesyddol, cefnogi bioamrywiaeth a chynhyrchu bwyd o ansawdd uchel a farchnatwyd yn lleol (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007).



Awyrgludiad wrth droed Fforest Fawr, Brycheiniog



Adfer cors

6. **Sicrhau bod rheoli ucheldiroedd yn cael ei gyflawni trwy ddull integredig o weithredu wrth ddefnyddio, cadw a datblygu sgiliau a gwybodaeth leol.**

Mae rheoli ucheldiroedd yn cynnwys anghenion cynhyrchiad amaethyddol, cadwraeth bioamrywiaeth, yr amgylchedd hanesyddol, mynediad, rheoli dŵr a chyflwr pridd. Pori tiroedd comin yw'r prif ddefnydd tir o ran maint ar draws y Parc Cenedlaethol. Yn draddodiadol mae tiroedd comin ucheldirol y Parc wedi cael eu rheoli gan gominwyr yn arfer eu hawliau, sydd wedi bod trwy'r hawliau i bori da byw yn bennaf. Mae hwn yn draddodiad diwylliannol gwerthfawr, ac yn hanfodol i hyfywedd llawer o fentrau fferm. Yn aml mae cominwyr yn cadw'r wybodaeth a sgiliau sy'n ofynnol i reoli'r tir yn effeithiol ac yn pasio'r wybodaeth hon o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r ucheldiroedd yn y Parc yn dir Mynediad Agored ac yn dal i fod yn adnodd hamdden pwysig a gwerthfawr fel y'i diffiniwyd yn y Ddeddf DCGHT. Hefyd mae'r ucheldiroedd yn cynnal yr amrywiaeth mwyaf helaeth o gynefinoedd â blaenoriaeth yn y Parc, er bod yr ansawdd ecolegol yn wael ar y cyfan. Er bod yr ucheldiroedd mewn cyflwr ecolegol gwael, yn aml mae eu harchaeoleg yn goroesi mewn cyflwr ardderchog. Mae rheoli'r ucheldiroedd yn cydnabod pwysigrwydd y tirweddau hanesyddol hyn a'r cyfadeiliau archaeoleg sy'n bwysig yn genedlaethol maent yn eu cynnwys. Yn gyffelyb, mae angen ailadeiladu a chynnal waliau cerrig sych, sy'n un o nodweddion arwyddocaol y Parc, fel rhan o ddull integredig o ymdrin â rheoli ucheldiroedd.

7. **Adfer a gwella cysylltedd cynefinoedd ar draws tiroedd comin ucheldirol cydgyffyrddol y Parc.**

Ceir llawer o gwmpas i adfer bioamrywiaeth tu hwnt i safloedd dynodedig, sef y ffordd orau o gynnal cadwraeth bioamrywiaeth yn y safleoedd a darparu cysylltedd rhyngddynt. Gall yr ymdrechion hyn, er enghraifft, ddarparu'r amgylchedd cywir ar gyfer gweilch bach, bodaod tinwyn, ieir cochion, mwyeilch y mynydd, cornicyllod aur, gylfinirod, cornchwiglod a giachod sy'n adar magu ucheldiroedd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae iechyd a maint eu poblogaethau yn ddangosyddion da o ymdrechion cadwraeth fioamrywiaeth.

CROES-GYFEIRIO

| | |
|---|---|
| 7.1.1 | Tirwedd |
| 7.1.2 | Bioamrywiaeth |
| 7.1.4 | Amgylchedd Hanesyddol |
| 7.1.9 | Adnoddau Pridd |
| 7.1.12 | Ffermio |
| 7.1.11 | Ynni |
| 7.1.13 | Coetiroedd |
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |
| 7.3.7 | Defnydd Milwrol o'r Parc |

## 7.2. Deall a Mwynhau'r Parc Cenedlaethol

Mae'r Parc Cenedlaethol yn adnodd unigryw i bawb fwynhau'r awyr agored a dysgu mwy am dirweddau pwysicaf y DU a'r materion sy'n wynebu'r amgylcheddau hyn. Mae gan y rheiny sy'n gyfrifol am helpu'r cyhoedd i ddeall a mwynhau'r Parc Cenedlaethol rôl allweddol wrth gynorthwyo neu sicrhau bod y cyhoedd yn cael mynediad at yr amrywiaeth enfawr o fuddion sydd gan yr ardal hon i'w cynnig, ac maent mewn sefyllfa ddelfrydol i helpu pawb i ddeall mwy am y materion allweddol sy'n wynebu'r dirwedd hon ac ardaloedd gwarchodedig ar y cyfan. Felly, mae'n hanfodol bod mynediad a chyfeiriadedd o'r radd flaenaf, ac yn cael eu gwella'n gyson lle bo hyn yn briodol. Gall rheoli ymwelwyr yn ofalus fod yn effeithiol iawn trwy wneud y Parc yn hygyrch iawn i ymwelwyr ond hefyd trwy hybu dealltwriaeth a mwynhad diogel trwy ddarparu gwybodaeth, dehongliad ac addysg o ansawdd uchel.

### 7.2.1. Mynediad a Hamdden Awyr Agored

Mae mynediad a hamdden awyr agored yn rhannau annatod o ail bwrpas y Parc - i hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau ei nodweddion arbennig. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnig cyfleoedd ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden yn yr awyr, mewn dŵr ac ar dir ac ar gyfer hybu dulliau iach o fyw. Hefyd daw buddion economaidd a chymdeithasol posibl i gymunedau yn y Parc ac yn gyfagos ato trwy'r gweithgareddau hyn. Wedi'r cwbl mae'r Parc yn Barc i'r Genedl. Yr her i bawb sy'n gysylltiedig yw galluogi pob sector o gymdeithas i fwynhau'r Parc mewn ffyrdd cyfreithlon a chynaliadwy nad ydynt yn gwrthdaro â diben cyntaf y Parc neu'n bychanu ei rinweddau arbennig.

Bellach mae'r holl "wlad agored" (sy'n cynnwys bryniau a mynyddoedd) a thir comin cofrestredig yn "dir mynediad" trwy rinwedd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ac yn unol â'r ddeddf honno, sy'n darparu hawl mynediad i'r cyhoedd ar droed. Hefyd, mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru wedi cyflwyno ei ystâd rhydd-ddaliad fel tir mynediad. Ceir 1983 cilomedr o hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc sy'n cynnwys llwybrau troed, llwybr ceffyl, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd yn agored i bob traffig. Mae gan yr APC gyfrifoldeb, wedi'i ddirprwyo gan yr Awdurdodau Unedol cyfansoddol, am atgyweirio, cynnal a chadw, darparu arwyddion ac amddiffyn y rhwydwaith hwn. Hefyd mae ganddo'r cyfrifoldeb dirprwyedig am gadw'r mapiau a datganiad (y gofrestr gyfreithiol o hawliau tramwy cyhoeddus) terfynol ardaloedd yr Awdurdodau Unedol yn ddiweddar ac mae ganddo'r grymoedd gofynnol i wneud newidiadau i'r map a'r datganiad ei hun. Mae'r APC a'i bartneriaid yn sicrhau bod y gyfundrefn cyfyngiadau mynediad sy'n gysylltiedig â thir mynediad yn gweithredu'n effeithiol fel na fydd cerddwyr a phobl eraill sy'n ymgymryd â gweithgareddau hamdden yn y Parc yn tarfu ar weithgareddau ffermio cyfreithlon. Rhaid parhau i barchu cefn gwlad ac eiddo a bywoliaeth pobl a'u hamddiffyn yn briodol. Felly, mae gan ddefnyddwyr yr adnodd ddyletswydd i barchu Cod Cefn Gwlad ac ymddwyn yn gyfrifol i sicrhau ei gynaliadwyedd tymor hir.

Mae Datganiad Polisi ar gyfer Parciau Cenedlaethol ac



Bro'r Sgydau

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru (2007) LICC yn nodi y dylai APCBB hybu'r amrywiaeth ehangaf o gyfleoedd hamdden wrth barchu rhinweddau arbennig a gallu amgylcheddol y Parc. Fodd bynnag, mae effeithiau gweithgaredd hamdden yn amrywio yn fawr. Yn aml gall gweithgareddau sy'n cael eu hystyried fel rhai niweidiol fod yn anfalaen os ydynt yn cael eu rheoli yn briodol, a gall gweithgareddau sy'n ymddangos i fod yn ddiniwed fod yn niweidiol os ydynt ar raddfa rhy fawr neu yn y lleoliad anghywir. Ar raddfa safleoedd penodol, mae angen ystyried dynodiadau, amodau a phriodoleddau eraill safle wrth bennu pa weithgareddau yw'r rhai mwyaf buddiol a lleiaf niweidiol i reolaeth tymor hir y safle. Mae rheolaeth gynaliadwy'r Parc Cenedlaethol yn golygu bod angen cyflawni'r ddau ddiben statudol mewn modd cytbwys. Os bydd gwrthdaro anghymodlon, bydd anghenion cadwraeth yn cael blaenoriaeth. Mae gwrthdaro difrifol o ran hamdden yn anghyffredin iawn ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae wedi, yn y gorffennol, cael ei ddatrys yn bennaf trwy gynllunio, rheoli, trafod telerau a chyfaddawdu yn effeithiol. Mae darpariaeth addysg a gwybodaeth hefyd yn elfennau pwysig ar gyfer datrys gwrthdaro er mwyn cynyddu gwybodaeth am hawliau a chyfrifoldebau a chynnig lleoliadau amgen ar gyfer gweithgareddau sydd yn gwrthdaro â rhinweddau arbennig y Parc.

Mae Datganiad Polisi LICC yn cytuno nad yw'n briodol cynnal pob ffurf ar hamdden ym mhob rhan o'r Parc Cenedlaethol a gall rhai gweithgareddau achosi difrod neu aflonyddwch annerbyniol. Lle mae'r gweithgareddau hyn yn gyfreithlon, bydd APCBB yn ceisio lleihau eu heffeithiau niweidiol trwy drafod telerau a thrwy reolaeth dda. Dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, mae gan APCBB rymoedd uniongyrchol i wneud gorchmynion rheoleiddio traffig neu wahardd gweithgareddau o ardaloedd penodol yn unol â Deddf Rheoliadau Traffig y Ffyrdd 1984 a dibenion statudol y Parc Cenedlaethol. Bydd APCBB yn parhau i weithio gyda'i bartneriaid i gymodi gwrthdaro posibl trwy gynllun a rheoli yn effeithiol. Mae APCBB yn gweithio gyda llawer o grwpiau lleol, gan gynnwys y Fforwm Mynediad Lleol, sy'n darparu cyngor i APCBB a sefydliadau eraill am wella mynediad. Mae pobl anabl yn cael eu cynrychioli trwy'r Grŵp Gweithredu Mynediad i'r Anabl a gall APCBB ganfod beth yw anghenion pobl ag anableddau trwy'r grŵp hwn. Mae'r Fforymau Adborth Rhanbarthol a Chenedlaethol, a gafodd eu harloesi gan Bartneriaeth "Mosaic" yn gweithio gydag APCBB, gan ddarparu adborth oddi wrth ddefnyddwyr amlddiwylliannol a threfol y Parc. Mae llawer o lwybrau "mynediad i bawb" ar gael yn y Parc ynghyd â chyhoeddiad sy'n darparu eu manylion.


Trecio ger Llanddewi Nant Hodni

Ym mis Mehefin 2007 mabwysiadodd APCBB ei Gynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT). Y ddogfen statudol hon yw'r modd y mae'r Awdurdod yn cynllunio yn strategol ar gyfer datblygu, rheoli a hybu hawliau tramwy lleol sydd eisoes yn bodoli yn well ac unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i'r rhwydwaith hawliau tramwy. Mae'r CGHT yn darparu fframwaith i nodi, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol ac wrth wneud hyn gwella darpariaeth ar gyfer cerddwyr, beicwyr, marchogion a phobl â nam o ran symudedd. 10 mlynedd yw ei oes ac mae'n manylu ar weithredoedd arfaethedig yr Awdurdod o fewn yr amserlen honno.



**Fforio'r bryniau**

Hefyd mae'r CGHT yn nodi y dylid cymryd camau positif i roi Strategaeth Erydiad Ucheldirol PCBB ar waith. Mae argymhellion y Strategaeth Erydiad Ucheldirol drafft yn drawsbynciol gan eu bod yn cynnwys gwelliannau mynediad, diogelu tirwedd a newidiadau sefydliadol.

Hefyd mae LICC wedi annog APCBB a'i bartneriaid i ddatblygu'r Parc fel canolfan hamdden dŵr yn unol â strategaeth hamdden dŵr diweddar SEA. O ystyried yr adnoddau helaeth sydd ar gael yn y Parc (gweler Adran 7.1.8), ceir potensial cryf i gynyddu cyfranogiad amrywiaeth o unigolion a sefydliadau mewn hamdden dŵr gan gynnwys y rheiny o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf; a datblygu consensws a dealltwriaeth rhwng yr amrywiaeth o bobl a sefydliadau sydd â budd yn yr amgylchedd hamdden a dyfrol. Bydd APCBB yn sefydlu fforwm ynghyd â thirfeddianwyr, DC, SEA, CCGC, grwpiau hamdden ac eraill i ddatblygu cyfleoedd newydd a chyfleoedd sydd eisoes yn bodoli, fel padlo ar ddŵr gwastad a dŵr gwyn, pysgota â gwialen, gweithgareddau ar lan afon, a cheisio darparu gwybodaeth ardderchog i'r cyhoedd i'w hannog i ddefnyddio'r cyfleusterau hyn.

Mae'r rhain a mwy o weithgareddau eraill ar dir yn helpu i gyflawni targedau Dringo'n Uwch LICC ac arddangos buddion iechyd sy'n gysylltiedig â mynediad a hamdden awyr agored ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

## Amcanion Strategol: Mynediad a Hamdden Awyr Agored

1. **Rheoli'r rhwydwaith hawliau tramwy yn strategol.**

   Mae CGHT APCBB yn cynnwys amrywiaeth eang o weithredoedd sy'n cwmpasu amrywiaeth o bynciau â'r bwriad o wella cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy yn y tymor hir. Mae gweithredoedd yn amrywio o gynyddu nifer y llwybrau heb rwystrau i gynnal arwyddbyst a dodrefn cysylltiedig yn y rhwydwaith.

   Mae Map a Datganiad Terfynol cywir a diweddar sy'n cwmpasu'r Parc Cenedlaethol yn allweddol i gyflawni'r CGHT yn llwyddiannus a rheoli'r rhwydwaith hawliau tramwy. Fel yn achos pob strategaeth, bydd y gweithredoedd hyn yn cael eu rhoi ar waith yn unol â blaenoriaethau a osodwyd yn y CGHT ac ar sail argaeledd adnoddau priodol.

2. **Gwella darpariaeth gwybodaeth mewn perthynas â mynediad cyhoeddus.**

   Mae'r CGHT yn nodi nifer o feysydd allweddol lle gellir gwella darpariaeth gwybodaeth, gan gynnwys darpariaeth gwybodaeth:

   - Mewn amrywiaeth o fformatau hygyrch;
   - Ar lwybrau ar gyfer gerbydau sy'n cael eu gyrru ymlaen yn fecanyddol ar wefan APCBB;
   - Am leoliad a maint meysydd parcio a chyfleusterau cysylltiedig sy'n cefnogi mynediad awyr agored yng nghefn gwlad;
   - Mewn perthynas â chysylltiadau cludiant cyhoeddus i lwybrau sy'n cael eu hybu gan APCBB;
   - Am godau ar gyfer hamdden gyfrifol, gan gynnwys Cod Cefn Gwlad; a
   - Sy'n cael ei chorffori yn well i mewn i gyhoeddiadau'r Awdurdod.

   Er bod gwaith wedi cychwyn ar nifer o'r meysydd hyn,

bydd cynllun gweithredu tymor hir CGHT yn parhau i wella'r meysydd hyn.

3. **Gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd adnoddau ac ariannu allanol i wella mynediad cyhoeddus.**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cyflawni holl weithredoedd y CGHT, y Strategaeth Erydiad Ucheldirol, a strategaethau eraill sy'n effeithio ar fynediad a hamdden awyr agored yn her enfawr. Mae dod o hyd i'r adnoddau i roi'r gweithredoedd hyn ar waith yr un mor hynod anodd. Felly mae'n rhaid i APCBB a'i bartneriaid wneud y defnydd gorau o unrhyw gyfleoedd i sicrhau adnoddau ychwanegol.

4. **Gwella mynediad at ddŵr ac ar ddŵr.**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i gynhyrchu strategaeth hamdden mewn cysylltiad â dŵr. Mae'r strategaeth hon yn manylu yn gyffredinol iawn ar rôl APCau yng Nghymru mewn perthynas â hamdden dwr. Mae'r strategaeth yn argymell bod pob gweithgaredd sy'n gysylltiedig â dŵr yn cael eu hasesu achos wrth achos gan roi ystyriaeth ddyledus i:

- Ofynion Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd;
- Dibenion statudol, dyletswydd a rhinweddau arbennig y Parc; a
- Darpariaeth digon o arian i roi hyn ar waith

Bydd rhoi argymhellion y strategaeth hon ar waith (sy'n berthnasol i APCBB) yn destun i gymeradwyaeth Aelodau APCBB.

5. **Parhau i weithio'n adeiladol â phartneriaid i leihau a datrys gwrthdaro a gwella mynediad a darpariaeth hamdden.**

Mae llawer o weithio mewn partneriaeth eisoes yn digwydd rhwng grwpiau hamdden, buddiannau tirfeddianwyr, sefydliadau rheoliadau a rhanddeiliaid eraill. Gall gweithio cydweithredol parhaus leihau a datrys gwrthdaro yn y dyfodol. Mae APCBB yn cadw'r grymoedd a roddwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a deddfwriaeth eraill i gyfyngu neu wahardd gweithgareddau mewn ardaloedd penodol os bydd y camau hyn yn methu â diogelu ardaloedd sensitif.

CROES-GYFEIRIO

| | |
|---|---|
| 7.1.8 | Adnoddau Dŵr |
| 7.1.9 | Adnoddau Pridd |
| 7.1.14 | Ucheldiroedd |
| 7.2.3 | Gwybodaeth |
| 7.3.2 | Twristiaeth Gynaliadwy |
| 7.3.7 | Defnydd Milwrol o'r Parc |

### 7.2.2. Hybu Dealltwriaeth a Mwynhad

Mae dehongliad, gwybodaeth ac addysg yn ddulliau hanfodol o annog y cyhoedd i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fwynhau, manteisio i'r eithaf ar fuddion y Parc, hybu mwynhad diogel ac ymgysylltu â hwy ar faterion sy'n annog newid ymddygiadol positif. Mae llawer o faterion yn wynebu'r dirwedd warchodedig hon a'r amgylchedd cyfan, tynnir sylw at rai ohonynt ym Mhennod 5. Hyd nes y bydd rheolwyr adnoddau yn dechrau ymgysylltu â'r cyhoedd ar y materion hyn ni fyddant yn gallu helpu i ddangos sut gellir lleddfu'r problemau a sut gall agweddau ac ymddygiad ddechrau newid. Mae dehongliad, gwybodaeth ac addysg yn ddulliau grymus o helpu i effeithio ar y newid hwn.

Mae ymgysylltu â holl aelodau'r gymdeithas a'u helpu i ddeall a mwynhau'r Parc yn helpu i gyflawni holl amcanion strategol y Parc Cenedlaethol. Mae gan bawb rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â themâu trawsbynciol y Cynllun (**gweler Pennod 6**). Mewn gwirionedd dim ond trwy ddefnyddio'r dulliau cyfathrebu pwysig hyn gall y gwaith hwn fod yn wirioneddol effeithiol.

Mae'r gwasanaethau hyn yn cyfrannu at ddealltwriaeth a mwynhad pobl o dirwedd, bywyd gwyllt a threftadaeth



Dysgu am Ddaeareg y Parc

ddiwylliannol y Parc. Hefyd maent yn cynorthwyo wrth esbonio dibenion y Parc wrth gyfrannu at y ddealltwriaeth o bolisïau a gwaith APCBB a'i bartneriaid. Mae dealltwriaeth o'r fath yn bwysig wrth annog pobl i ofalu am y Parc a'i gadw. Mae darpariaeth gwybodaeth, dehongliad ac addysg o ansawdd uchel yn gwella'r ddealltwriaeth hon. Y nod yw sicrhau bod pawb sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol neu'n ymweld â'r ardal yn ymwybodol eu bod mewn tirwedd warchodedig, yn gwerthfawrogi'r hyn mae dynodiad Parc Cenedlaethol yn golygu ac yn deall sut gall pawb gyfrannu at gyflawni dibenion a dyletswydd y Parc.

Dylai dehongliad, gwybodaeth ac addysg fod yn rhan o holl brosiectau a sectorau rheolaeth y parc i gyfathrebu'r ymdrechion hyn yn effeithiol i'r gymuned ehangach. Dylid rhoi pwyslais arbennig ar hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gwaith a gynhelir mewn cysylltiad â busnesau a chymunedau lleol. Y partneriaid hyn yw'r rhain â chysylltiad agosaf at y dirwedd ac, felly, mae angen iddynt gymryd rhan uniongyrchol wrth ddatblygu, ariannu a hybu eu rolau yn rheolaeth y Parc. Mae eu dealltwriaeth, ymrwymiad a chefnogaeth yn hanfodol i reolaeth gynaliadwy'r parc.

Hefyd, mae angen i'r Awdurdod a'i bartneriaid sicrhau bod y Parc yn hygyrch i bawb a chael gwared ar unrhyw elfennau sy'n gwahardd pobl yn fwriadol neu'n anfwriadol. Mae'r Parc yn adnodd cenedlaethol a rhyngwladol ac felly mae amrywiaeth ei gynulleidfa yn enfawr. Bydd darparu cyfleoedd i bawb fwynhau'r Parc a dysgu o'i adnoddau cyfoethog yn flaenoriaeth. Ni ddylid gweld y gwaith hwn fel mynd i'r afael â gwaharddiad cymdeithasol o angenrheidrwydd ond sicrhau bod pob gwasanaeth yn gynhwysol. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth a gynhyrchir yn electronig, trwy brint neu gyfrwng ddehongliadol arall. Mae hefyd yn cynnwys hygyrchedd at ganolfannau ymwelwyr, tir y Parc a safleoedd penodol.

Isod ceir yr amcanion strategol cyffredinol ar gyfer hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth yn gyffredinol. Mae'r adrannau canlynol yn torri'r nodau hyn i lawr yn nodau unigol ar gyfer y tri phrif faes sy'n gysylltiedig â hybu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth.

## Amcanion Strategol: Hybu Dealltwriaeth ac Ymwybyddiaeth

1. Bydd gwybodaeth, dehongliad ac addysg wrth galon pob prosiect i sicrhau cefnogaeth, dealltwriaeth ac ymrwymiad tymor hir ar gyfer y Parc Cenedlaethol oddi wrth ymwelwyr a'r poblogaethau lleol.

2. Hybu cyfleoedd i gysylltu pobl at y Parc Cenedlaethol.

   Gall darpariaeth profiadau a chyfathrebu o ansawdd uchel hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sydd, yn y pen draw, yn gallu dylanwadu ar ymddygiad, cadw a gwella tirwedd y Parc.

3. Sicrhau bod pawb yn gallu mwynhau'r Parc Cenedlaethol ac nad yw gwasanaethau a chyfleusterau yn gwahardd pobl yn fwriadol neu'n anfwriadol.

CROES-GYFEIRIO

| | |
|---|---|
| 7.1.6 | Diwylliant a Thraddodiadau |
| 7.2.3 | Gwybodaeth |
| 7.2.4 | Addysg |
| 7.2.5 | Dehongliad |
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |

### 7.2.3. Gwybodaeth

Nod Gwasanaethau Gwybodaeth APCBB yw darparu rhwydwaith o wybodaeth o ansawdd uchel sy'n hybu cyfleoedd i fwynhau yn y Parc Cenedlaethol, cyfeiriadedd allweddol a negeseuon pwysig am ddiogelwch. Dylai gwybodaeth gyrraedd y gynulleidfa ehangaf posibl, ac mae APCBB wedi datblygu amrywiaeth o ddulliau i helpu i gyflawni'r nod hwn.

APCBB sy'n rhedeg Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol (Y Ganolfan Fynydd) a Pharc Gwledig Craig-y-nos. Mae'r ddwy ganolfan hyn yn darparu gwybodaeth fel arddangosiadau dehongliadol, sgyrsiau a digwyddiadau a chyfleoedd hamddena anffurfiol ac maent hefyd yn atyniadau i ymwelwyr yn eu rhinwedd eu hunain. Mae eu staff, staff canolfannau gwybodaeth APCBB sydd wedi'u rhwydweithio yn Y Fenni a Llanymddyfri a'r staff yng Nghanolfan y Sgydau ym Mhontneddfechan yn darparu gwybodaeth gynhwysfawr am y Parc Cenedlaethol a Geoparc y Fforest Fawr. Mae cyngor ar gael i ymwelwyr am le i fynd, beth i'w weld a sut yw'r ffordd orau o fwynhau eu hymweliad heb niweidio eu hunain neu'r dirwedd. Mae'r ddwy ganolfan gwybodaeth sydd wedi'u rhwydweithio wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd Croeso Cymru.

Mae'r canolfannau gwybodaeth sydd wedi'u rhwydweithio yn cael eu gweithredu ar y cyd gan APCBB a'r AU lleol; gyda'r Awdurdod Unedol yn rhedeg yr agwedd gwybodaeth i dwristiaid â'i gwasanaeth neilltuo gwelyau. Mae partneriaethau lleol yn rhedeg canolfannau gwybodaeth lleol, annibynnol sydd mewn aneddiadau yn y Parc Cenedlaethol, i ddarparu gwasanaeth i fusnesau lleol a gwybodaeth i ymwelwyr am yr ardal leol a'r Parc Cenedlaethol ehangach. Hefyd mae ganddo drelar symudol a adeiladwyd i'r diben i ddarparu dehongliad mewn digwyddiadau a sioeau lleol.

Mae APCBB yn cynhyrchu amrywiaeth o gyhoeddiadau i hybu dealltwriaeth o amrywiaeth o agweddau ar y Parc, neu i helpu pobl i fwynhau eu hymweliad. Mae'r rhain yn




Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, Libanus



Parc Gwledig Craig-y-nos

cael eu marchnata yn bennaf trwy'r canolfannau ymwelwyr a gwybodaeth, sydd hefyd yn gwerthu llenyddiaeth arall berthnasol. Maent yn cael eu hybu i siopau adwerthu yn y Parc ac o'i amgylch ac i ddarparwyr twristiaeth. Mae datblygiad y rhyngrwyd a thechnoleg gwybodaeth wedi cynyddu datblygiad gwybodaeth am y Parc Cenedlaethol i gynulleidfa fyd-eang. Bydd datblygiad gwybodaeth, dehongliad a deunyddiau addysg newydd ar y wefan yn parhau i ehangu mynediad ac yn datblygu i ddiwallu anghenion pob cynulleidfa.

Mae gan APCBB lawer o ffyrdd eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd lleol a'r cyhoedd sy'n ymweld i esbonio ei weithgareddau, cyfleu'r neges gadwraeth a chefnogi cymunedau lleol. Mae'r

rhain yn cynnwys ei deithiau cerdded wedi'u tywys, amrywiaeth o ddigwyddiadau wedi'u trefnu, mynychu sioeau lleol a rhoi cyflwyniadau i grwpiau lleol ar gais. Mae Gwasanaeth Warden APCBB yn darparu llawer o'r swyddogaethau hyn yn y Parc drwyddo draw, ac mae Gwasanaethau Dehongli ac Addysg APCBB yn datblygu deunyddiau ac yn cynnig cymorth parhaus i ymdrechion cyfathrebu'r Parc. Hefyd mae gan ddatganiadau i'r wasg, erthyglau golygyddol a hysbysebion yn y wasg leol a chenedlaethol ac mewn cyfryngau eraill fel radio lleol rôl bwysig i'w chwarae wrth godi proffil y Parc Cenedlaethol ac ennyn diddordeb, trafodaeth ac ymweliadau â'r Parc. Mae APCBB yn ymgymryd â'r gwaith hwn ar ei ben ei hun ac mewn partneriaeth ag eraill. Mae Cynllun Iaith Gymraeg APCBB yn cynnwys cynhyrchu cymaint o'r deunydd hwn â phosibl yn ddwyieithog.

Yn gyffelyb, mae Gwasanaethau Gwybodaeth yn cyfrannu at amcanion cynaliadwyedd trwy brynu cyflenwadau a gwasanaethau arlwyo a chyflenwadau a gwasanaethau eraill yn lleol, argraffu a gweithgynhyrchu nwyddau gan ddefnyddio deunyddiau sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd, darparu marchnad ar gyfer eitemau crefft a gynhyrchwyd yn lleol, cynnal ffeiriau cynnyrch a digwyddiadau eraill a sicrhau bod ei ddwy eco-ganolfan ar gael fel lleoliad i grwpiau cymunedol.




**Mynd â'r Parc at y Bobl**

## Amcanion Strategol: **Gwybodaeth**

1. **Darparu croeso a phrofiad o'r radd flaenaf i ymwelwyr ac unrhyw un sy'n rhyngweithio â'r Parc Cenedlaethol a'i rinweddau arbennig ac yn eu mwynhau.**

   Bydd APCBB yn gweithio gyda darparwyr gwybodaeth yn y Parc i sicrhau bod y rheiny sy'n rhyngweithio â'r dirwedd yn cael croeso o'r radd flaenaf. Bydd APCBB hefyd yn gweithio i sicrhau for y gwahanol gynulleidfaoedd yn derbyn cyfeiriadedd da ac yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael a sut i'w defnyddio yn gynaliadwy. Bydd APCBB yn datblygu cyfleusterau yn ogystal â chynnig cyfleoedd hyfforddi i sicrhau bod hyn yn digwydd.

2. **Dosbarthu gwybodaeth yn gyfannol ac yn ôl rhwydweithiau sy'n rhoi'r hyder i ymwelwyr archwilio'r Parc Cenedlaethol yn ddiogel, trwy weithio gyda chanolfannau APCBB, darparwyr twristiaeth ac asiantaethau sy'n gweithredu yn y Parc.**

   Cyn bod ymwelwyr yn dderbyngar i'r negeseuon dehongliadol, mae'n hanfodol bod eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu (e.e., gwybod beth yw lleoliad y siop neu doiled agosaf, pa mor bell fydd y daith gerdded yn eu tywys, pa mor anodd yw'r dirwedd). Felly mae darpariaeth cyfeiriadedd a gwybodaeth i ymwelwyr mewn lleoliadau priodol yn gydran allweddol o brofiad ymwelwyr. Os bydd hyn yn cael ei wneud yn dda, gall wella'r ymweliad ac annog ymwelwyr i archwilio amrywiaeth ehangach o safleoedd, gan annog arosiadau hirach a mwy o wario sydd o fudd i'r economi lleol. Trwy rwydweithio strategol â phartneriaid, gall pob parti gynyddu effeithiolrwydd rhannu gwybodaeth i gynulleidfa eang gymaint â phosibl.

3. **Cynyddu ymwybyddiaeth o sensitifrwydd amgylcheddol a materion sy'n ymwneud â chynaliadwyedd i gael dylanwad positif ar ymddygiad.**

   Er mwyn i ymwelwyr fwynhau'r Parc mewn ffordd gynaliadwy, maent angen gwybodaeth fel amserlenni a

mapiau i alluogi iddynt ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn hyderus, canllawiau i fannau diddorol a gweithgareddau a manylion lleoedd sy'n gwerthu cynnyrch lleol ac ati i alluogi profiadau cofiadwy. Mae'n bosibl cael rhywfaint o ddylanwad dros yr hyn mae pobl yn gweld a gwneud, a ble maent yn mynd er budd rheolaeth ymwelwyr a'u mwynhad. Er mwyn i hyn bod yn llwyddiannus, rhaid i sefydliadau twristiaeth a chadwraeth gydweithio i hybu'r defnydd mwyaf cynaliadwy o adnoddau'r Parc.

4. **Bydd APCBB yn darparu amrywiaeth o wybodaeth am y Parc Cenedlaethol, ei gyfleoedd hamdden a'i rinweddau arbennig i ddarparu dealltwriaeth gyfannol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.**

Bydd cyfathrebu electronig, cyhoeddiadau wedi'u hargraffu ac amrywiaeth o gyfryngau dehongliadol yn darparu gwybodaeth wedi'i thargedi i gefnogi'r rheiny sy'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol mewn ffordd a fydd hefyd yn cynyddu eu dealltwriaeth a mwynhad ohono. Bydd pob gwybodaeth yn cynnwys negeseuon pwysig am pam fod yr ardal yn arbennig, natur fregus y dirwedd, Cod Cefn Gwlad a sut gall pawb chwarae rôl wrth ei gadw a'i wella i'r dyfodol. Bydd gwybodaeth yn hybu ymddygiad cynaliadwy a chyfrifol.



Teithiau cerdded wedi'u tywys

### 7.2.4. Addysg

Mae addysg yn un o gyfres o ddulliau sy'n gallu helpu'r Parc wrth iddo ymdrechu i gyfathrebu ei ddibenion, ymdrechion, penderfyniadau, canlyniadau a heriau i unigolion â diddordeb. Gellir defnyddio addysg i wneud y cysylltiadau rhwng materion ehangach o ran rheolaeth, yr amgylchedd a chynaliadwyedd, wrth rymuso unigolion i ystyried yn feirniadol yr opsiynau sydd ar gael.

Mae llawer o sefydliadau yn y Parc Cenedlaethol ac o'i amgylch sy'n cynnig cyfleoedd addysgol ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd. Er enghraifft, mae Tîm "Coetiroedd ar gyfer Dysgu" Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn darparu deunyddiau a rhaglenni addysgol i gynulleidfaoedd sy'n amrywio o grwpiau ysgol gynradd i oedolion, llawer ohonynt yn ymweld â Chanolfan Ymwelwyr Garwnant o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Hefyd mae'r Ymddiriedolaethau Natur a'r Ymddiriedolaethau Archaeolegol yn darparu amrywiaeth o ddigwyddiadau a rhaglenni addysg drwy gydol y flwyddyn. Mae canolfannau addysg awyr agored yn y Parc ac o'i amgylch yn darparu deunyddiau, digwyddiadau a rhaglenni addysgol hefyd. Mae Awdurdodau Lleol y tu allan i'r Parc Cenedlaethol yn ariannu llawer o'r canolfannau hyn. Mae Awdurdodau Lleol yn y Parc Cenedlaethol yn gysylltiedig yn anuniongyrchol â darparu addysg awyr agored ac amgylcheddol trwy eu hymrwymiadau i'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Efallai y bydd sefydliadau eraill, fel CCGC a LICC, yn gysylltiedig yn uniongyrchol â darparu ymdrechion addysgol trwy gyfrannu arian neu ddatblygiad.

Mae Gwasanaeth Addysg APCBB yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y Parc i hwyluso mwy o gyfleoedd i ddysgu ac ystyried datblygiadau yn y cwricwla Cymreig a Chenedlaethol, a pholisïau eraill sy'n hybu dysgu awyr agored. Bydd y Gwasanaeth Addysg a'i bartneriaid yn gwneud hyn trwy ddarparu profiadau dysgu unigryw, sy'n canolbwyntio ar y Parc, sy'n annog pobl i weithio tuag at ddod yn stiwardiaid y Parc Cenedlaethol yn y dyfodol.



Archwilio trychfilod bach



Asesu bioamrywiaeth

Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi dynodi 2004 - 2014 yn Ddegawd Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Rhyddhaodd LICC (2006) ei dogfen ei hun Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang - Strategaeth Weithredu. Mae'r ymdrechion hyn yn pwysleisio addysg ar gyfer ac fel datblygiad cynaliadwy, yn annog newid o ran ymddygiad ac, yn fwy pwysig, datblygiad sgiliau meddwl yn feirniadol. Y cysyniadau hyn yw sylfaen ymdrechion addysg amgylcheddol yn y Parc Cenedlaethol.

Mae dyfodol y Parc Cenedlaethol yn dibynnu ar gyswllt parhaus, gweithredol gan unigolion amrywiol o bob rhan o'r gymdeithas sy'n deall ac yn cefnogi'r egwyddorion sydd wrth wraidd dynodiad y Parc fel ardal warchodedig. Hefyd mae llwyddiant tymor hir y Parc angen i'r rheiny sy'n gyfrifol am y Parc fod yn wybodus a hefyd defnyddio'r wybodaeth hon yn feirniadol wrth iddynt wneud penderfyniadau.

O ganlyniad, pan fydd angen gwneud penderfyniadau am gadwraeth, defnydd a dibenion y dirwedd warchodedig hon, bydd cyhoedd sydd wedi'u cysylltu yn ddigon medrus, galluog, bodlon a medrus i wneud penderfyniadau priodol. Hynny yw, mae diben addysg am yr amgylchedd *"yn golygu integreiddio gwybodaeth â sgiliau gwneud penderfyniadau trwy ddysgu"*.[35] Bydd Gwasanaeth Addysg y Parc Cenedlaethol, a'i bartneriaid, yn ymdrechu i gyflawni'r integreiddio hwn.

35. Scott, WAH and Oulton, C. 1999. Environmental education: arguing the case for multiple approaches. Educational Studies 25(1): 89-97.

## Amcanion Strategol: **Addysg**

1. **Codi ymwybyddiaeth a hybu dealltwriaeth o ddibenion, polisïau a gweithgareddau'r Parc Cenedlaethol.**

   Mae APCBB yn gwneud llawer o waith ym maes rheoli a gofalu am adnoddau'r Parc Cenedlaethol a'i gymunedau. Dylai'r ymarfer da a gwaith da hwn fod yn hygyrch a defnyddiadwy fel dull dysgu. Mae'r Parc yn ased rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol hefyd, felly dylai pobl ar draws Cymru gael y cyfle i ryngweithio â'r Parc fel dull dysgu. Bydd yn hanfodol codi ymwybyddiaeth yn llwyddiannus a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r Parc ymhlith penderfynwyr y dyfodol (trigolion a'r rheiny nad ydynt yn drigolion) er mwyn cyflawni gweledigaeth y Parc.

2. **Darparu profiad awyr agored unigryw, sy'n benodol i'r parc, nad yw ar gael trwy unrhyw ffynhonnell arall.**

   Bydd y Gwasanaeth Addysg yn ymdrechu i ddarparu profiad unigryw ar gyfer dysgwyr ac addysgwyr sydd eisiau defnyddio'r Parc fel lleoliad dysgu. Mae profiadau unigryw yn bwysig iawn wrth ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r Parc a'r egwyddorion mae'n eu cynrychioli, cysylltiad iddo a moeseg ofalgar tuag ato.

3. **Rhoi'r cyfle i ddysgwyr gael profiad sy'n ymwneud â dibenion y Parc Cenedlaethol wyneb-wrth-wyneb, yn y Parc, ar-lein neu drwy ddeunyddiau ysgrifenedig neu glywedol.**

   Mae pobl yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd. Bu cynnydd yn y DU yn gyffredinol, er enghraifft, yn nifer y myfyrwyr

# Astudiaeth Achos

## Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang

Yn 2007 cafodd Gwasanaeth Addysg Awdurdod y Parc Cenedlaethol grant oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC) i ddatblygu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae'r prosiect 3 blynedd (2007-2010) o'r enw Dysgu Trwy Brofiad ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi canolbwyntio ar annog dysgu yn y Parc. Mae'r prosiect hwn yn cynnwys rhaglen i ddatblygu a darparu gweithgareddau Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDFE) ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac o'i amgylch gan dargedu disgyblion Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 (11-15 blwydd oed).

Bydd y rhaglen yn datblygu cyrsiau ADCDFE sy'n cael eu harwain gan Addysgwyr y Parc Cenedlaethol a hefyd y gellir eu harwain gan athrawon, datblygu deunyddiau dysgu symudol ar gyfer Wythnos Fioamrywiaeth Cymru a darparu diwrnodau hyfforddi athrawon ADCDFE. Mae'r cyrsiau a ddatblygwyd yn cwmpasu'r meysydd pwnc/testun canlynol:

1. **Datblygu a chadwraeth**
2. **Astudiaethau Achos y Parc Cenedlaethol**
   a. Bioamrywiaeth
   b. Rheoli tirwedd warchodedig
   c. Cymunedau cynaliadwy
3. **Ecotwristiaeth yn y Parc Cenedlaethol**

O ganlyniad i'r prosiect hwn, rhagwelir y deilliannau canlynol:

- Mwy o ddealltwriaeth o Barciau Cenedlaethol a chefn gwlad mewn perthynas ag ADCDFE.
- Mwy o ddealltwriaeth a chyfleoedd ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang.
- Mwy o ddealltwriaeth o fioamrywiaeth ac wythnos Fioamrywiaeth CCGC.
- Mwy o ddefnydd o Barciau Cenedlaethol gan athrawon i ddarparu profiad dysgu ar gyfer eu myfyrwyr.

Y sefydliad sy'n rhoi'r grant, CCGC, yw cynghorydd statudol y Llywodraeth am gynnal harddwch naturiol, bywyd gwyllt a'r cyfle i fwynhau awyr agored yng Nghymru a'i dyfroedd gyda'r glannau. Mae CCGC yn hyrwyddo amgylchedd a thirweddau Cymru a'i dyfroedd arfordirol fel ffynonellau cyfoeth naturiol a diwylliannol, fel sylfaen ar gyfer gweithgaredd economaidd a chymdeithasol. Eu nod yw gwneud yr amgylchedd yn rhan werthfawr o fywyd pawb yng Nghymru.



sy'n derbyn addysg gartref. Dylai pawb sydd â diddordeb mewn dysgu am y Parc, neu ddefnyddio'r Parc i ddysgu, gael cymorth i wneud hyn. Dylent gael cymorth wrth gyrchu profiadau dysgu mewn ffordd sy'n addas i'w hanghenion ac sy'n caniatáu negeseuon allweddol y Parc i gael eu cyfathrebu.

4. **Sicrhau iechyd a diogelwch pob dysgu/cyfranogwr, gan gadw statws Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur (ATGA) fel safon isafswm.**

Yn aml mae ymdrechion gofalwyr/addysgwyr i symud dysgwyr allan o amgylcheddau ffurfiol ac i'r awyr agored yn cael eu rhwystro gan y risgiau a ganfyddir sy'n gysylltiedig â dysgu awyr agored a'r gwaith papur y rhagwelir y bydd ei angen gan addysgwyr/gweinyddwyr i wneud hynny. Mae gan APCBB Drwydded Gweithgareddau Antur ac mae'n arddangos ymarfer gorau wrth redeg ei holl weithgareddau.

5. **Darparu profiad pleserus o'r Parc Cenedlaethol i ddysgwyr.**

Mae peri cefnogaeth tymor hir i'r Parc Cenedlaethol yn golygu ei wneud yn rhywle lle mae dysgwyr ac addysgwyr yn cael profiadau pleserus ac yna'n dychwelyd i'w bywydau bob dydd i rannu'r profiadau positif hyn â phobl eraill.

6. **Creu cyfleoedd dysgu i bawb, gan gynnwys y rheiny nad ydynt wedi cael cyfleoedd o'r fath yn PCBB yn draddodiadol.**

Yn draddodiadol, defnyddwyr pennaf gwasanaethau addysgu APCBB oedd ysgolion cynradd o ardaloedd mwy cyfoethog ac, mewn perthynas ag astudiaeth breswyl yn y Parc, grwpiau penodol o rannau mwy cyfoethog o Loegr. Mae rhai sefydliadau, fel Comisiwn Coedwigaeth Cymru, yn cael mwy o gymysgedd o gynulleidfaoedd sy'n cymryd rhan yn eu gwasanaethau addysgol; daw llawer o'r grwpiau hyn o ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Wrth ddatblygu a ffocysu cyfleoedd dysgu, bydd grwpiau sy'n cael eu heithrio mwy yn gymdeithasol yn cael eu targedu (h.y., ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf) ac yn cael cymorth wrth ddysgu yn y Parc. Ar gyfer astudiaeth breswyl, bydd y Gwasanaeth Addysg yn annog mwy o grwpiau o bob rhan o Gymru i gymryd rhan.

7. **Dangos egwyddorion cynaliadwyedd trwy ddeunyddiau dysgu ac yn ymarferol a thrwy gefnogi Eco-Ysgolion a chyflawni a chynnal statws Eco-Ganolfan ar gyfer canolfannau APCBB.**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gosod targedau ar gyfer ysgolion ar draws Cymru i ennill statws Eco-Ysgol fel rhan o'r Strategaeth Amgylcheddol. Bydd APCBB a'i bartneriaid yn parhau i gefnogi ysgolion wrth iddynt geisio'r statws hwn a hefyd cyflawni'r dyfarniad Eco-Ganolfan cymaradwy ar gyfer tair canolfan dysgu'r Parc: Canolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, Parc Gwledig Craig-y-nos a Chanolfan Astudio Parc Cenedlaethol y Gymdeithas Hostelau Ieuenctid yn Nhanywenallt.

8. **Gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i hybu a gweithredu'r defnydd effeithiol a diogel o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar gyfer dysgu.**

Gall Gwasanaeth Addysg APCBB ryngweithio â nifer gyfyngedig o ddysgwyr yn unig. Felly mae'n bwysig bod APCBB yn creu partneriaethau â sefydliadau fel Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored (CPCAAA), Comisiwn Coedwigaeth Cymru, YAoedd, YBGoedd, ac eraill i hybu dysgu yn y Parc Cenedlaethol a chefnogi eu hymdrechion. Ymhlith partneriaethau eraill mae'r Gymdeithas Hostelau Ieuenctid (CHI) y mae APCBB mewn partneriaeth â hwy ar hyn o bryd i ddarparu cyfleoedd preswyl.

9. **Diwallu anghenion darparwyr dysgu trwy barhau i ddatblygu a darparu gwasanaethau dysgu, gan gynnwys y rheiny yn Gymraeg.**



Ymweliad ysgol, Dyffryn Wysg

Mae staff addysg APCBB a'u partneriaid yn darparu gwasanaethau i ysgolion, colegau, canolfannau addysg awyr agored, sefydliadau cyhoeddus, darparwyr addysg yn y cartref, prifysgolion, grwpiau ieuenctid, oedolion sy'n dysgu ac eraill. Ar hyn o bryd mae llawer o staff y Parc Cenedlaethol a'i bartneriaid sy'n ymwneud â darparu addysg yn gallu darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn gyffelyb, mae'r rhan fwyaf o bartneriaid addysg yn darparu deunyddiau ysgrifenedig mewn Cymraeg lle bo hynny'n ymarferol. Bydd angen parhau i wneud gwelliannau pellach o ran argaeledd cyfryngau ysgrifenedig (wedi'u hargraffu/ar y rhyngrwyd) ac ar gyfer cefnogi staff i ddatblygu'r sgiliau i gyflawni'r nod hwn.

10. Galluogi addysgwyr i ddysgu sut i ddefnyddio'r Parc Cenedlaethol fel lle i ddysgu (h.y., trwy ddyddiau hyfforddiant).

Mae addysgwyr yn profi llawer o rwystrau wrth ddod â dysgwyr allan o'r ystafell dosbarth ac i'r awyr agored. Gellir goresgyn y rhwystrau hyn trwy ddarparu dyddiau HMS ar gyfer athrawon a dyddiau hyfforddiant (cynefino) ar gyfer addysgwyr nad ydynt yn gweithio mewn ysgolion i dynnu sylw at gyfleoedd penodol, cynnwys neu agweddau ar ddiogelwch. Bydd y Gwasanaeth Addysg yn parhau i ddatblygu a darparu'r gwasanaethau hyn fel rhan o'r "model addysgu addysgwr."

11. Corffori ymdrechion addysg cenedlaethol a rhyngwladol (e.e., degawd UNESCO ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy, Cwricwlwm Cymreig 2007/8) i'r Strategaeth Addysg wrth iddynt godi.

Mae'r Strategaeth Addysg bresennol yn rhedeg o 2007-2014 yn unol â Degawd y CE ar Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Mae'r strategaeth hon yn ddogfen ailadroddus sy'n ceisio bod yn hyblyg a meddwl i'r dyfodol er mwyn addasu i'w wybodaeth, arbenigedd a syniadau sy'n cael eu cynhyrchu er budd creu profiadau dysgu gwych yn y Parc Cenedlaethol a chynnwys y wybodaeth, arbenigedd a syniadau hyn.

CROES-GYFEIRIO

7.2.3 Gwybodaeth
7.2.5 Dehongliad
7.3.1 Cymunedau Cynaliadwy

### 7.2.5. Dehongliad

Dehongliad yw'r broses o gysylltu pobl â lle neu wrthrych, fel eu bod yn gallu ei fwynhau mwy, deall eu treftadaeth ac amgylchedd yn well a datblygu agwedd positif tuag at gadwraeth.[36] Mae dehongliad yn ddull anhygoel o rymus i helpu i gyflawni dibenion a dyletswydd statudol y Parc Cenedlaethol oherwydd gall hwyluso dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r Parc Cenedlaethol sydd, yn y pen draw, yn gallu dylanwadu ar ymddygiad sy'n arwain at fwy o gefnogaeth a chadwraeth wrth wella lles cymdeithasol-economaidd cymunedau lleol.

Yn aml ceir dryswch rhwng gwybodaeth (e.e., oriau agor, lleoliad cyfleusterau, cyfeiriadedd mewn safle) a dehongliad. Er bod dehongliad yn cynnwys gwybodaeth, i fod yn wirioneddol effeithiol mae'n rhaid i ddehongliad gynnwys y rhinweddau canlynol:

- **Trefnus** - Sicrhau bod APCBB a'i bartneriaid yn diwallu anghenion sylfaenol (hierarchaeth anghenion Maslow) ymwelwyr fel eu bod yn dderbyngar i'r neges.
- **Pleserus** - Mae'r rhan fwyaf o'r ymwelwyr sy'n ymweld â safleoedd yn y Parc Cenedlaethol yno i gael diwrnod allan hamddenol; nid ydynt yn ymweld i gael profiad dysgu ffurfiol. Felly mae angen i negeseuon fod yn rhan annatod o weithgareddau sy'n hwyl ac yn bleserus.
- **Perthnasol** - Defnyddio rhinweddau cyffredinol i gysylltu pobl â lleoedd (e.e., goroesiad, bwyd) gan ddefnyddio iaith nad yw'n dechnegol.
- **Thematig** - Thema ddiddorol sy'n ysgogi meddwl a fydd yn mynd adref gydag ymwelwyr.[37]

Gall dehongliad fod ar amrywiaeth o fformatau gan gynnwys teithiau cerdded wedi'u tywys, paneli graffig, celf, ail-greadau, digwyddiadau, awdio, cyhoeddiadau, gwefannau ac arddangosfeydd. Mae APCBB a'i bartneriaid yn defnyddio'r dulliau hyn i gyflawni Strategaeth Dehongliad y Parc. Er bod y ffocws ar ymdrechion dehongliad yn y Parc, mae prosiectau cydweithrediadol yn cael eu hannog ar draws ffiniau'r Parc lle bo hynny'n briodol. Mae Strategaeth Dehongliad APCBB (2007) yn nodi'r materion canlynol:

- Cyd-drefniant cyfyngedig rhwng sefydliadau sy'n darparu dehongliad yn y Parc Cenedlaethol sy'n arwain at ddyblygu, gwastraffu adnodau a gwybodaeth i ymwelwyr nad yw'n gyd-drefnus.
- Diffyg dealltwriaeth o werth y broses gynllunio dehongliadol ymhlith y rheiny sy'n darparu dehongliad.
- Dull traddodiadol o ymdrin â dehongliad â dibyniaeth drwm ar baneli a thaflenni, sef y cyfryngau lleiaf effeithiol.
- Ffocws ar y cynnyrch yn y pen draw yn hytrach na'r broses, lle gall proses fod yn ffordd wych o ymgysylltu â chymunedau a chynulleidfaoedd sy'n cael eu heithrio yn draddodiadol.
- Defnydd cyfyngedig o linellau stori thematig sy'n arwain at negeseuon dehongliadol nad ydynt yn gofiadwy sydd, yn eu tro, yn llai tebygol o arwain at ddeilliannau ymddygiadol y mae galw amdanynt.
- Ymchwil a gwerthusiad cyfyngedig o ran profiad ymwelwyr ac effeithiolrwydd y cyfryngau dehongliadol.
- Cyllidebau cynnal a chadw cyfyngedig sy'n arwain at ddehongliad wedi dyddio a/neu wedi torri.
- Defnydd cyfyngedig o ddeunyddiau cynaliadwy, arlunwyr a chrefftwyr lleol i ddatblygu dehongliad gwyrdd, arloesol a gwahanredol yn lleol.

Datblygwyd Strategaeth Ddehongliad (2007) APCBB i helpu i fynd i'r afael â'r materion hyn, a bydd yr amcanion strategol canlynol yn cefnogi'r ymdrechion hyn ar draws y Parc.

36. Association of Heritage Interpretation.
37. Ham, Sam H. 1992. Environmental Interpretation: A practical guide for people with big ideas and small budgets.

## Dod â Bywyd a Gwaith Henry Vaughan i Fywyd

### Prosiect llenyddiaeth hanesyddol cyffrous yn nyffryn Talybont

Roedd taith gerdded Henry Vaughan yn brosiect partneriaeth llwyddiannus a oedd yn cynnwys y Gymuned, APCBB yn ogystal ag arbenigwyr lleol, crefftwyr ac artistiaid. Cynigwyd syniad y daith gerdded gan drigolion Talybont-ar-Wysg dan nawdd y Cyngor Cymuned. Roedd yn dwyn ynghyd y dyhead i goffau'r brodyr Vaughan a oedd yn byw yn nyffryn Wysg yn y 17eg ganrif ac angen i wella mynediad ar lwybr lleol poblogaidd.

Roedd Swyddog Dehongli'r Parc Cenedlaethol yn gweithio'n agos â'r gymuned i ddod â stori diddorol iawn y brodyr Vaughan i fywyd fel ei fod yn berthnasol a diddorol i ymwelwyr. Gwnaethpwyd hyn trwy gyfuniad o gyfryngau gan gynnwys paneli dehongl, pyst barddoniaeth rhyngweithiol, gardd perlysiau a thaflen. Hefyd roedd y Wardeniaid yn chwarae rôl ganolog trwy gydweithio â chontractwyr a thirfeddiannwyd i drefnu ar gyfer gosod meinciau, camfeydd ac arwyddbyst newydd i wella mynediad. Hefyd, mae'r tîm Cymunedol yn cynorthwyo â'r grant a dderbyniwyd oddi wrth y Cynllun Gwella Pentrefi Cynaliadwy, y Gronfa Datblygu Cynaliadwy ac Erthygl 33 (Cyngor Powys a DEIN LICC).

O ganlyniad i'r prosiect hwn mae'r deilliannau canlynol wedi cael eu gwireddu:

- Partneriaeth lwyddiannus ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi cymuned leol i ddiffinio a chyflwyno eu treftadaeth ddiwylliannol a fydd yn cefnogi gwerthfawrogiad pobl o'r ardal gan arwain at deimlad ehangach o stiwardiaeth.
- Dull rhagweithiol o ymdrin â chynllunio dehongliad sy'n galluogi cymryd dull creadigol ac arloesol o weithredu sydd hefyd yn hybu ymarfer da.
- Llwybr cerdded pleserus yw un lle mae'r elfen ddysgu yn gynnil ond mae neges glir a dealladwy yn cael ei chyfathrebu sy'n helpu i greu naws am le.
- Gwnaethpwyd y rhan fwyaf o'r gwaith gan arbenigwyr, crefftwyr ac artistiaid lleol, gan gefnogi'r economi lleol a lleihau costau cludiant ac allyriadau.
- Llwybr sy'n cael ei hybu yn dda ag arwyddbyst i helpu i roi hyder i bobl archwilio'r Parc Cenedlaethol yn ddiogel. Yn ogystal â mynediad ffisegol at y llwybr, hefyd manteiswyd i'r eithaf ar fynediad deallusol at y dreftadaeth leol.

Mae'r profiad a enillwyd trwy'r prosiect hwn wedi arwain at ddatblygu Pecyn Cerdded a Dehongliad y gellir ei lwytho i lawr o wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.




**Taith Gerdded Henry Vaughan, Talybont**



Gweithgareddau bioamrywiaeth yn Llangors



Paneli dehongli yng Nghwm Porth

## Amcanion Strategol: **Dehongliad**

1. **Annog gweithio mewn partneriaeth rhwng y rheiny sy'n gysylltiedig â dehongli'r Parc Cenedlaethol i sicrhau mwy o gydweithrediad a gwell defnydd o adnoddau cyfyngedig.**

   Mae amrywiaeth eang o gyrff statudol, elusennau, sefydliadau, cymunedau, clybiau a chymdeithasol ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn darparu dehongliad. Trwy gydweithio gall APCBB a'i bartneriaid greu profiad o ansawdd uchel, di-dor i ymwelwyr sy'n codi ymwybyddiaeth o rinweddau arbennig yr ardal.

2. **Codi proffil dehongliad a hybu ymarfer da i wella'i ansawdd ac effeithiolrwydd yn y Parc Cenedlaethol.**

   Mae'r Strategaeth Ddehongliad yn nodi tueddiad bod dehongliad yn y Parc Cenedlaethol yn dilyn dull traddodiadol o weithredu â phwyslais ar baneli a thaflenni. Bydd mynd ati i hybu ymarfer da, yn enwedig rôl cynllunio dehongliadol, i staff y Parc Genedlaethol, sefydliadau sy'n bartneriaid a chymunedau gyda'i gilydd, yn gam pwysig tuag at gyflawni dehongliad mwy creadigol, arloesol ac effeithiol.

3. **Annog dehongliad thematig ar sail y themâu allweddol mae Strategaeth Ddehongliad yr Awdurdod yn manylu arnynt.**

   Themâu yw'r un peth y mae angen i ymwelwyr gofio; y neges i fynd adref gyda nhw, moeswers y stori. Gall themâu droi cyfathrebu ffeithiau heb gysylltiad yn stori gofiadwy; maent yn sicrhau bod y dehonglydd wedi meddal am yr hyn maent eisiau i'r gynulleidfa ddeall a gallant helpu i drefnu syniadau a golygu cynnwys. Credoau yw themâu a chredoau yw blociau adeiladu agwedd ac ymddygiad. Er mwyn dylanwadu ar y rhain yn y Parc Cenedlaethol, mae angen i themâu fod yn gryf a chymhellol.[38]

4. **Darparu gwasanaethau dehongliadol pleserus a fydd yn gwella ansawdd ymweliad â'r Parc Cenedlaethol yn fawr.**

   Nid yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol yno ar gyfer y profiad dehongliadol ond oherwydd eu bod yn canfod ei fod yn ddiwrnod allan pleserus neu'n gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.[39] Ymhellach mae'r rhan fwyaf o bob dim ond yn cofio oddeutu 10% o'r hyn maent yn clywed, 30% o'r hyn maent yn darllen, 50% o'r hyn maent yn gweld a 90% o'r hyn maent yn gwneud.[40] Felly, i fod yn llwyddiannus wrth gyfathrebu ag ymwelwyr, mae angen i negeseuon fod yn rhan annatod o weithgareddau hwyl a phleserus, lle mae'r elfen ddysgu yn gynnil.

5. **Galluogi a chefnogi cymunedau lleol wrth ddiffinio a chyflwyno eu storïau treftadaeth ddiwylliannol.**

   Yn ystod blynyddoedd diweddar bu cynnydd yn nifer y prosiectau dehongliad sy'n cael eu harwain yn gymunedol yn y Parc Cenedlaethol. Yn aml mae'r broses o ddatblygu prosiect dehongliad (h.y., yr ymchwil hanesyddol, casglu storïau, ffotograffau, gweithio mewn partneriaeth, ac ati) yr un mor bwysig fel proses i helpu cymunedau i

38. Ham, S. 2004. Making meaning: some thoughts on goals, objectives and themes in Dehongli Cymru/Interpret Wales, Gwanwyn 2004, Rhifyn 1.
39. Veverka, J. A. 1998. Interpretative Master Planning. Acorn Naturalists, Tustin, California.
40. Lewis, William J. 1998. Interpreting for Park Visitors. Eastern national Park & Monument Association. PA.

ddatblygu teimlad ehangach o stiwardiaeth ar gyfer eu hamgylchedd - naws am le, fel y cynnyrch terfynol.

6. Hybu dehongliad sy'n wahanredol yn lleol, yn sympathetig ac yn gynaliadwy.

Weithiau gall defnyddio sgiliau a chrefftau lleol a/ neu ddeunyddiau o ffynonellau lleol gyfathrebu mwy am rinweddau arbennig ardal na ffurfiau eraill, mwy traddodiadol o ddehongliad, wrth gefnogi busnesau lleol a hybu naws am le.

7. Datblygu dehongliad sy'n gynhwysol yn gymdeithasol ac sy'n hygyrch i'r cynulleidfaoedd a fwriadwyd.

Nid yw pob ymwelydd i'r Parc Cenedlaethol yr un peth. Mae'n hanfodol deall eu hanghenion, diddordebau a dyheadau amrywiol er mwyn cael dehongliad effeithiol. Gall prosiectau sy'n ceisio cynnwys grwpiau "sy'n cael eu heithrio", fel grwpiau ieuenctid wrth greu cerflun feithrin teimlad o stiwardiaeth ac felly lleihau fandaliaeth. Mae cynyddu hygyrchedd gymaint â phosibl yn ymwneud â llawer mwy na dim ond sicrhau bod y meintiau testun isafswm yn cael eu defnyddio; mae angen ystyried hygyrchedd ar ddechrau prosiect yn hytrach na fel ôl-feddwl.

CROES-GYFEIRIO


7.2.1 Mynediad a Hamdden Awyr Agored
7.2.2 Addysg
7.2.3 Gwybodaeth
7.3.1 Cymunedau Cynaliadwy


## 7.3. Lles Economaidd a Chymdeithasol Cymunedau Lleol

Roedd Deddf yr Amgylchedd 1995 yn pwysleisio pwysigrwydd lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol i gynaliadwyedd tymor hir y Parc a'i rinweddau arbennig. Mae pobl yn rhan annatod o'r dirwedd; maent wedi bod yn gyfryngol wrth lunio ei ffurf ar hyn o bryd a byddant yn parhau i wneud cyfraniad sylweddol at ei lunio nawr ac yn y dyfodol. Mae'r holl adrannau a ddisgrifiwyd ym **Mhennod 7** yn dibynnu ar gynnwys cymunedau lleol i wireddu eu hamcanion strategol. Fodd bynnag, mae'r adran hon yn canolbwyntio mwy ar y ddarpariaeth o brosesau ac isadeiledd sy'n ofynnol i sicrhau lles cymdeithasol-economaidd cymunedau'r Parc ac adeiladu gallu i wrthsefyll newidiadau yn y dyfodol - fel newid yn yr hinsawdd (**gweler Pennod 5**) - wrth gadw a gwella rhinweddau arbennig y Parc. Mae'r cylch gorchwyl hwn yn ymestyn ymhell y tu hwnt i gwmpas APCBB, yn ymestyn o Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) i unigolion ymhob cymuned. Ond, yn bwysicaf, mae'r ymdrech hwn yn golygu grymuso pobl i fynd ati i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau ac ymdrechion rheoli sy'n effeithio ar ddyfodol eu cymunedau, trefi a phentrefi yng nghyd-destun dibenion y Parc.

### 7.3.1. Cymunedau Cynaliadwy

Poblogaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw oddeutu 33,000, yn fwyaf dwys yn nyffryn Wysg rhwng Aberhonddu a Gilwern, a Cheunant Clydach rhwng Gilwern a Brynmawr. Y prif aneddiadau yw Aberhonddu (pob. 7,900), Gilwern, Y Gelli Gandryll, Crug Hywel, Talgarth a Phontsenni. Ceir llawer o bentrefi llai, pentrefannau a ffermydd gwasgaredig.

Er bod amaethyddiaeth wedi bod yn sylfaen i economi'r Parc ers cyfnod hir, bellach dim ond degfed o'r boblogaeth sy'n gweithio sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y diwydiant. Gwasanaethau cyhoeddus, ariannol a gwasanaethau eraill yw prif gyflogwyr trigolion y Parc, yna dosbarthu ac arlwyo. Fel yn achos pob ardal wledig, mae canoli siopa a gwasanaethau eraill a gostyngiad o ran cludiant cyhoeddus wedi cael effaith radical ar y ffordd o fyw. Mae'r ffactorau hyn wedi gwaethygu faint o gymudo sydd o'r Parc i ganolfannau trefol ac i'r Parc o ardaloedd lle mae tai'n costio llai. Un canlyniad yw'r cynnydd dramatig yn nefnydd ceir preifat.



Marchnad y Gelli Gandryll

Mae'r weledigaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn cynnwys cymunedau iach a chynhwysol yn gymdeithasol a bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n gynaliadwy a ffyniannus. Mae gan APCBB a'i bartneriaid, wrth fynd ar drywydd ei ddau ddiben statudol, ddyletswydd i "geisio meithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol." Codwyd tai fforddiadwy a materion sy'n ymwneud â chyflogaeth fel materion canolog sy'n ymwneud ag anghenion cymunedau lleol. Nid oes gan APCBB brif gyfrifoldeb am ddatblygiad economaidd ac nid yw'n gweithredu fel awdurdod tai, ond mae'n catalydd pwysig yn ei rôl fel Awdurdod Cynllunio Lleol, yn dyrannu tir ar gyfer datblygu ac anghenion cymunedol. Mae prif gydrannau'r economi lleol, yn enwedig amaethyddiaeth a thwristiaeth, yn gysylltiedig yn uniongyrchol â dibenion statudol y Parc. Mae mwy na 2,700 o swyddi a mwy na £40 miliwn yn cael ei gynhyrchu yn y Parc Cenedlaethol gan weithgaredd sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd, oddeutu dwywaith lefel cyfartalog Cymru. Mae lleoliad y Parc Cenedlaethol, ger De Cymru diwydiannol, hefyd yn bwysig wrth ddenu diwydiant. Felly mae gwaith APCBB yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at fywyd economaidd.

Mae gwreiddiau dull APCBB o ymdrin â'r ddyletswydd yn ei ymrwymiad i gynaliadwyedd. Mae cynaliadwyedd, mewn perthynas â datblygiad cymunedol, yn awgrymu bod pobl yn dyfeisio eu strategaethau eu hunain i hybu buddsoddiad tymor hir mewn cyfalaf cymdeithasol i wneud eu cymuned, amgylchedd ac economi'n iach a bywiog yn y tymor hir. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn cefnogi'r cysyniad o gymunedau cynaliadwy, ynghyd â Cymru'n Un - Cysylltu'r Genedl, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru. Mae amcanion strategol yn y cynllun hwn hefyd yn cefnogi datblygiad arfaethedig y Cynulliad ar gyfer targedau sector ar gyfer lleihau allyriadau carbon yn ogystal â gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau i'r rheiny heb gludiant preifat. Mae blaenoriaethau'r Llywodraeth ar gyfer cymunedau cynaliadwy yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, economi, iechyd, addysg a chynhwysiant cymdeithasol.

Mae cynaliadwyedd tymor hir polisïau APCBB yn dibynnu ar berthnasau gwaith da ag asiantaethau eraill a phobl leol. Gan ystyried y perwyl hwn, bydd tri APC Cymru yn:

- Cynnwys pobl leol wrth ddatblygu polisïau priodol a chydnabod cryfder a gwerth sgiliau a dyheadau lleol yn ogystal â phwysigrwydd dulliau o weithredu a dynodiadau cenedlaethol;
- Ceisio sicrhau bod pob sector o'r boblogaeth leol yn cael cyfle i gymryd rhan yn y broses hon;
- Cynorthwyo cymunedau lleol i fodloni ymrwymiadau a gwireddu'r cyfleoedd a ddarparwyd trwy ddatblygu cynaliadwy er gwaethaf unrhyw anfanteision sy'n deillio o bellenigrwydd neu sylfaen economaidd gul.

Mewn perthynas â PCBB, mae APCBB a'i bartneriaid yn cyflawni'r nodau hyn trwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys eu polisïau a gwaith Cydraddoldeb i Bobl Anabl, Cronfa Datblygu Cynaliadwy APCBB, Menter y Cymoedd Gwyrdd a llawer o raglenni eraill sy'n hybu cynaliadwyedd cymdeithasol ac economaidd. Mae llawer o waith yn cael ei wneud gan y Byrddau Gwasanaethau Lleol trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig a Strategaethau Cymunedol.

Mae cyngor cymuned yn cynrychioli democratiaeth leol ar lawr gwlad, ac mae gan APCBB gyfrifoldeb statudol i ymgynghori â hwy dros faterion sy'n ymwneud â rheoli datblygiad. Hefyd, mae perthynas gwaith agos â'r 50 cyngor yn y Parc o fudd i bawb wrth gyflawni amcanion Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a gwella ansawdd bywyd lleol.

## Amcanion Strategol: **Cymunedau Cynaliadwy**

1. **Paratoi cymunedau'r Parc Cenedlaethol ar gyfer newid yn yr hinsawdd a disbyddiad tanwyddau ffosil trwy adeiladu gallu i wrthsefyll problemau i sicrhau cyn lleied o effaith economaidd a chymdeithasol â phosibl.**

   Mae'n debygol y bydd newid yn yr hinsawdd yn addasu'r ffordd o fyw ar gyfer cymunedau'r Parc yn y dyfodol, gan

gynnwys: digwyddiadau tywydd eithafol, hafau poeth a sych, gaeafau gwlypach, newidiadau amaethyddol, diffyg dŵr a newidiadau demograffig wrth i boblogaethau'r DU a'r byd fudo. Mae rhagfynegiadau am effeithiau olew brig yn amrywio, er efallai y bydd yr effeithiau posibl yr un mor arwyddocaol ac efallai y byddant yn effeithio ar bobl yn fwy dramatig yn y tymor byr na newid yn yr hinsawdd. Mae'n fwyaf tebygol y bydd dirywiad mewn cynhyrchiad olew o ystyried twf parhaus o ran defnydd yn lleihau fforddiadwyedd ac argaeledd tanwydd ar gyfer cludiant personol a masnachol, er enghraifft, sy'n gallu cynyddu costau byw yn ei dro (e.e., ar gyfer cynhyrchu bwyd, costau gwresogi ac ynni a chludiant).

2. **Lleihau cynhyrchiad nwyon tŷ gwydr yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan gymunedau'r Parc Cenedlaethol.**

   Mae angen i bawb leihau cynhyrchiad nwyon tŷ gwydr os yw dynoliaeth am gyfyngu'r effeithiau posibl sy'n gyfyngedig â newid yn yr hinsawdd mae bodau dynol wedi'i achosi. Mae disgwyl i'r cymunedau yn y Parc chwarae eu rhan wrth gyflawni targedau cenedlaethol a ddyluniwyd i liniaru newid yn yr hinsawdd. Lle bo hynny'n bosibl, dylai cymunedau'r Parc hefyd ddangos dulliau arloesol o gyflawni'r targedau hynny. Mae'r adran Cludiant yn mynd i'r afael ag amcanion strategol sy'n ymwneud ag opsiynau cludiant, y prif sector sy'n cyfrannu at yr ôl troed carbon cenedlaethol. Trafodir amcanion ynni adnewyddadwy yn yr adran Ynni. Bydd yr ymdrechion hyn yn gofyn am weithredoedd integredig ar draws holl sectorau'r Parc i leihau cyfraniadau ei gymunedau at allyriadau nwy tŷ gwydr.

3. **Cefnogi a gwella cadwyni cyflenwi economaidd lleol a chynhyrchu lleol.**

   Ceir buddion a gydnabyddir yn eang ynghlwm wrth gryfhau cadwyni cyflenwi lleol. Yn economaidd, mae effaith lluosydd prynu lleol yn golygu bod mwy o arian yn cael ei gadw yn y gymuned. Yn gymdeithasol, mae cysylltiadau lleol yn cael eu cryfhau a gall mentrau cymunedol helpu i ddarparu buddion lluosog. Yn amgylcheddol, mae allyriadau nwy tŷ gwydr, yn enwedig cynhyrchiad carbon deuocsid, sy'n gysylltiedig â chludo nwyddau, gwasanaethau a chwsmeriaid yn gostwng. I gyflawni'r amcan strategol hwn, bydd angen i APCBB a'i bartneriaid: cryfhau cynhyrchiad lleol nwyddau (e.e., bwyd a chynhyrchion bwyd â gwerth ychwanegol), cryfhau cynhyrchiad lleol gwasanaethau (e.e., ailgylchu, cynhyrchu ynni), cryfhau menter gymdeithasol, a chefnogi a galluogi prynu lleol. Mae APCBB, gyda chyrff eraill, yn gallu defnyddio ei gysylltiadau ac arbenigedd i helpu cymunedau i gadw, darparu a gwella cyfleusterau. Gall hyn, yn ei dro, helpu cymunedau i barhau yn hyfyw, yn unol â'r weledigaeth ar gyfer y Parc.

4. **Mynd i'r afael â rhwystrau gwirioneddol a chanfyddiadol mae grwpiau sy'n cael eu heithrio yn gymdeithasol yn eu profi, a'u chwalu.**

   Tynnodd Archwiliad Cynhwysiant Cymdeithasol yn nhri Parc Cenedlaethol Cymru sylw at amrywiaeth o rwystrau gwirioneddol a chanfyddiadol i fanteisio ar y Parc ymhlith grwpiau sy'n cael eu heithrio o'r tu mewn i ffiniau'r Parc a'r tu allan iddynt. Rhan annatod o ail ddiben y Parc yw bod mwynhad a dealltwriaeth y Parc Cenedlaethol i bawb. Felly, cyfrifoldeb APCBB a'i bartneriaid yw sicrhau yr eir i'r afael â rhwystrau, lle bo hynny'n ymarferol.

5. **Sicrhau bod pob sector o gymunedau'r Parc yn gallu cyfrannu at ddatblygu amcanion Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, gwerthfawrogi eu buddion a chwarae rhan wrth eu cyflawni.**

   Mae datblygu a chyflawni Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn golygu ystyried dyheadau cymunedol yn ofalus. Mae integreiddio Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol â Strategaethau Cymunedol yn hwyluso'r broses hon, gan adlewyrchu dyheadau cymunedol ar gyfer lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae integreiddio llwyddiannus yn golygu y bydd angen i APCBB fynd ar drywydd cyfleoedd partneriaeth. Yn yr un modd, mae integreiddio'n gofyn am ymrwymiad ar ran cymunedol yn ogystal â sectorau gwirfoddol, preifat a chyhoeddus i gyflawni amcanion Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. O ganlyniad, mae APCBB yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol o bob sector ar draws holl ardaloedd Awdurdod Unedol y Parc, a bydd yn parhau i'w cynnwys.

6. **Hybu'r Parc Cenedlaethol fel enghraifft ragorol o fyw cynaliadwy.**

Yn ystod yr ugain mlynedd nesaf, bydd y Parc Cenedlaethol yn gartref i gymunedau hunanddigonol sydd, ymhlith cyflawniadau eraill, yn cynhyrchu bwyd yn lleol, yn generadu cyfran uchel o'u hanghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy, yn cynnwys adeiladau wedi'u dylunio yn effeithlon iawn, wedi datblygu dulliau cynaliadwy ac effeithiol o ddiwallu anghenion cludiant ac yn cynnwys gwell bioamrywiaeth. Byddai'r canlyniad yn darparu buddion ar gyfer cymunedau lleol, ymdrechion adfywio, yr amgylchedd, Awdurdodau Priffyrdd, y diwydiant twristiaeth a busnesau lleol.

CROES-GYFEIRIO


7.1.5. Amgylchedd Adeiledig
7.1.8 Adnoddau Dŵr
7.1.11 Ynni
7.2.4 Addysg
7.3.4 Cynllunio a Datblygu
7.3.5 Cludiant


## Cronfa Datblygu Cynaliadwy (CDC)

### Nod

Trwy bartneriaeth, i ddatblygu a phrofi ffyrdd o gyflawni ffordd fwy cynaliadwy o fyw mewn cefn gwlad o harddwch naturiol mawr ac amrywiaeth lle mae nodweddion lleol diwylliant, bywyd gwyllt, tirwedd, defnydd tir a chymuned yn cael eu cadw a'u gwella.

### Amcanion

- Archwilio ffyrdd o ddiwallu, ar yr un pryd, 4 egwyddor cynaliadwyedd* a dymchwel rhwystrau sy'n gallu bod yn rhwystrau i gynaliadwyedd.
- Datblygu modelau ar gyfer rheoli cefn gwlad yn gynaliadwy y gellir eu defnyddio yn fwy eang yng Nghymru.
- Cynhyrchu mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynaliadwyedd.

### Pedair egwyddor:

- Cynnydd cymdeithasol sy'n cydnabod anghenion pawb;
- Diogelu'r amgylchedd yn effeithiol;
- Defnydd call o adnoddau naturiol; a
- Cynnal cyflogaeth a thwf economaidd uchel a sefydlog.

### Cymhwyster

Bydd yn rhaid i brosiectau:

- Fod yn gynaliadwy - cysylltu materion cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd trwy gyfranogiad cyhoeddus;
- Dangos cefnogaeth wirioneddol neu ymwneud cymunedau yn y Parc;
- Cefnogi un neu fwy o amcanion y cynllun;
- Bod yn gyflenwol i strategaethau lleol a chenedlaethol allweddol;
- Dod â sefydliadau at ei gilydd mewn partneriaeth i fynd i'r afael â phroblemau;



Rhandiroedd Llangatwg



Tyrbin trydan dŵr, Cronfa Ddŵr Talybont

- Cydymffurfio ag egwyddor trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddelio â'r cyhoedd (e.e., cyhoeddusrwydd, llenyddiaeth ac arwyddion) fel nodwyd yng Nghynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi i brosiectau sy'n:

- Gorchfygu trefniadau sefydliadol, perthnasau a diwylliannol a allai fod yn creu rhwystrau i gynaliadwyedd;
- Dangos arloesedd neu ymarfer gorau;
- Cynnwys pobl ifanc;
- Cefnogi mentrau cludiant cynaliadwy cymunedol i leihau eu hôl traed carbon;
- Cefnogi mentrau cludiant cynaliadwy i ymwelwyr, gan gynnwys mynediad at "ganolfannau" ymwelwyr;
- Cefnogi marchnata bwyd yn gynaliadwy a hybu a defnyddio cynnyrch lleol;
- Hybu defnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr, trwy gefnogi prosiectau a ddyluniwyd i hybu mynediad at ddŵr;
- Nid oes unrhyw adnoddau eraill yn bodoli ar eu cyfer;
- Sy'n cyflwyno cyfraniadau o ffynonellau eraill (fel arian parod neu fel nwyddau);
- Hybu dealltwriaeth ehangach o gynaliadwyedd;
- Ychwanegu gwerth neu ddimensiynau newydd at brosiectau cynaliadwyedd sydd eisoes yn bodoli;
- Cefnogi grwpiau anfantais ac anabledd lleol;
- Sicrhau cefnogaeth gan fusnesau lleol a darparu cefnogaeth iddynt;
- Annog cynhwysiant cymdeithasol.

### Prosiectau y tu allan i ffiniau'r parc/AHNE

Er bod prosiectau'n cael eu dylunio i gefnogi cymunedau o fewn ffiniau'r Parc ac AHNE, ceir hyblygrwydd i gefnogi prosiectau mewn cymunedau sy'n gyfagos at ffiniau'r Parc ac AHNE i annog cysylltiadau agosach rhwng y cymunedau hynny a'r Parc ac AHNEoedd.

### Trosglwyddoldeb

Lle bo'n briodol, dylai Swyddogion y CDC drafod ag ymgeiswyr y posibilrwydd o gefnogi proseictau sy'n gallu cael eu copio mewn mannau eraill.

### Grantiau

Bydd y cynllun yn darparu grantiau prosiect, grantiau rheoli (i gefnogi costau staff) a grantiau datblygu (i ddarparu catalydd ar gyfer gweithredu neu bartneriaethau newydd). Fel arfer bydd cyfraddau grant yn cael eu gosod ar 50%, ynghyd ag elfen briodol ar gyfer costau cyffredinol (10%), ond bydd hyd at 100% ar gael dan amgylchiadau eithriadol.

### 7.3.2. Twristiaeth Gynaliadwy

Twristiaeth yw'r diwydiant sy'n annog pobl i fwynhau'r Parc Cenedlaethol ac sy'n darparu cyfleusterau a gwasanaethau iddynt. Mae'n gydran hanfodol o'r economi yn y Parc Cenedlaethol hwn sy'n croesawu mwy na 3.6 miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Yn eu tro, mae twristiaid yn cael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd yn y Parc. Gallant greu pwysau sy'n effeithio ar yr amgylchedd a bywydau trigolion y Parc, trwy eu defnydd o geir preifat ar gyfer cludiant i'r Parc ac o fewn y Parc er enghraifft.

Ar yr un pryd, mae'r diwydiant ei hun yn dibynnu ar amgylchedd iach y Parc, ei rinweddau arbennig a'i atyniadau. Mae'r Parc yn dirwedd eiconig, dyfynnir yn gyson mai ei werth a'i arwyddocâd yw'r prif reswm pam fod ymwelwyr yn dewis dod i Gymru (Arolwg Ymwelwyr Croeso Cymru 2006). Mae'r diwydiant twristiaeth yn dibynnu mwy na llawer o ddiwydiannau eraill ar fynediad rhydd i amrywiaeth eang o nwyddau a gwasanaethau cyhoeddus fel bioamrywiaeth a thirwedd wledig y Parc. Mae twristiaid yn talu am rai o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau maent yn defnyddio, yn enwedig y rheiny mae'r sector preifat yn eu darparu, ond ceir llawer o wasanaeth sydd er budd twristiaeth nad yw ymwelwyr yn cyfrannu atynt. Mae twristiaid yn cymryd gwyliau mewn cartrefi pobl eraill, yn codi costau ar y cyrchfan a'i drigolion yn ogystal â darparu buddion lleol. Mae dull cynaliadwy o ymdrin â thwristiaeth yn rheoli effaith ymwelwyr ar economi'r ardal leol sy'n gyrchfan, ei gymuned a'i amgylchedd er budd pawb - ymwelwyr, cymunedau lleol a'r Parc cyfan - ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae twristiaeth yn cefnogi amrywiaeth eang o fusnesau gan gynnwys y sector llety, cynhyrchwyr bwyd lleol, atyniadau fel yr Ogofau Arddangos Dan yr Ogof, adeiladau hanesyddol a chanolfannau gweithgaredd. Mae ganddo'r potensial i wneud cyfraniad positif iawn at ddatblygu cynaliadwy. Gall twristiaeth adeiladu cysylltiadau cryf ag amaethyddiaeth sy'n gallu cael eu datblygu er budd y naill a'r llall. Mae ganddo'r potensial i gefnogi'r nifer fawr o siopau, tafarndai a busnesau gwledig sy'n bwysig iawn i bobl leol, a gall gyfrannu at adfywio cymunedau sydd â stori treftadaeth ddiwydiannol gryf fel sy'n cael ei roi ar waith yn Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon.



Ymweliad teulu i Briordy Llanddewi Nant Hodni



Cymdeithasu, Crug Hywel

I dwristiaeth ddod yn wirioneddol cynaliadwy, rhaid i'r sector ddod yn fwy soffistigedig wrth ddadansoddi'r costau a buddion sy'n gysylltiedig fel bod buddion denu ymwelwyr yn cael eu cofnodi gan fwy na dim ond nifer fach o fusnesau lleol i gyfiawnhau'r costau i'r cyrchfan a'i drigolion.

Yn 2006 cymeradwyodd Partneriaeth Twristiaeth Gynaliadwy Bannau Brycheiniog Strategaeth Dwristiaeth Gynaliadwy ar gyfer PCBB fel cyrchfan. Mae'r Bartneriaeth yn cynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid, o fusnesau lleol i Awdurdodau Lleol a chyrff twristiaeth.

Datblygwyd y Strategaeth dros 18 mis o drafodaeth ac ymgynghori dwys. Mae angen i bob partner ei rhoi ar waith ac mae wedi seilio ar reolaeth gynaliadwy'r cyrchfan cyfan - nid ar gyfer datblygu twristiaeth yn unig ond ar gyfer rheoli'r dwristiaeth honno a'r effeithiau sydd ganddi er mwyn diogelu'r amgylchedd mae wedi'i seilio arni.

Dyma'r weledigaeth ar gyfer y Strategaeth Dwristiaeth:

> *"Erbyn 2020 bydd yr ardal yn enghraifft ragorol o ddatblygu twristiaeth gynaliadwy mewn ardaloedd gwarchodedig, yn adeiladu ar: naws am le cryf, natur frodorol a threftadaeth ddiwylliannol Bannau Brycheiniog, ac enw da am ansawdd sydd wedi'i adeiladu ar gymunedau, y sector cyhoeddus a buddiannau busnes yn cydweithio'n agos i ragori ar ddisgwyliadau ymwelwyr."*

Cafodd y Strategaeth ei chyflwyno i Ffederasiwn Europarc ym mis Chwefror 2007 fel rhan o gais ar gyfer Siarter Ewrop ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy mewn Ardaloedd Gwarchodedig a ddyfarnwyd yn ddilynol i'r Parc Cenedlaethol yn Cesky Krumlov (Gweriniaeth Tsiec) ym mis Medi 2007.

Hefyd mae gan Croeso Cymru, Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol, Partneriaeth Blaenau'r Cymuned ac Awdurdodau Unedol strategaethau ar gyfer twristiaeth. Croeso Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu twristiaeth yng Nghymru, ac mae ei ddogfen strategaeth, Cyflawni ein Potensial, yn cefnogi'r dull partneriaeth o weithredu mae APCBB wedi'i fabwysiadu. Mae APCBB yn gweld ei rôl fel cynnal cyd-drefniant a dialog rhwng y chwaraewyr yn y Parc. Mae'r strategaeth dwristiaeth a seiliwyd ar bartneriaeth yn ceisio cynyddu cynaliadwyedd trwy sicrhau buddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.



Beicio ger Llangors

## Amcanion Strategol: **Twristiaeth Gynaliadwy**

1. **Buddsoddi mewn datblygu cynnyrch a ymchwiliwyd yn dda, a gynlluniwyd yn dda ac sy'n gyd-drefnus ar sail diwylliant a chryfderau naturiol yr ardal.**

   Ystyrir bod twristiaeth yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig fel Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n diwydiant sy'n arbennig o sensitif i amcanion cynaliadwy oherwydd yr amgylchedd yw'r adnodd allweddol ac oherwydd bod y marchnadoedd allweddol ar gyfer ei gynhyrchion eu hunain yn sensitif i'r negeseuon hyn. Dan fodel Siarter Ewropeaidd ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy, mae cymunedau lleol yn cymryd rhan yn y gwaith o dywys datblygiad twristiaeth yn eu hardal eu hunain a nod y Strategaeth yw eu hannog i ymgymryd â thwristiaeth yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'r model yn sicrhau bod yn rhaid i dwristiaeth gael ei rhoi ar waith trwy ddull partneriaeth o weithredu a seiliwyd ar roi syniadau newydd ar brawf, diffinio rolau a chyfrifoldebau clir, ac ymrwymo i egwyddorion twristiaeth gynaliadwy.

2. **Parhau i wella dealltwriaeth o dueddiadau twristiaeth, ymddygiad y farchnad a busnes twristiaeth yn y Parc Cenedlaethol ac o'i amgylch.**

   Gwybodaeth am y cyflwr a thueddiadau sy'n gysylltiedig ag adnodd yw conglfaen rheolaeth lwyddiannus. Nid yw

twristiaeth yn eithriad i'r egwyddor hon. Mae symiau cynyddol o ddata ar gael sy'n benodol i'r Parc a bydd dull cyd-drefnus o ymdrin ag ymchwil yn cael ei ddefnyddio i adeiladu ar y rhain. Mae ymchwiliadau proffidiol yn cynnwys: arolygon boddhad ymwelwyr, data gwaelodlin economaidd, gallu cynnal ymwelwyr a datblygiad a monitro dangosyddion twristiaeth gynaliadwy y cytunwyd arnynt.

3. **Coethi strwythur sefydliadol twristiaeth i helpu i greu dull partneriaeth gref o weithredu sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid allweddol.**

Mae Bannau Brycheiniog fel Parc Cenedlaethol ac fel cyrchfan i dwristiaid yn eistedd ar groesffordd amrywiaeth eang o ffiniau gwleidyddol. Mae gan naw Awdurdod Lleol dir o fewn ffiniau'r Parc, ond mae gweithgaredd twristiaeth y Parc yn effeithio ar Awdurdodau y tu allan i'r ffin hefyd. Hefyd, mae tri rhanbarth LlCC yn croesi'r Parc. Hyd yn oed ar lefel cenedlaethol, mae'n rhaid ystyried anghenion Lloegr, yn enwedig ar ffurf Sir Henffordd, sy'n ffinio'r Parc. O ganlyniad, mae angen ffurfio strwythur trefniadol swyddogaethol gall cyrff twristiaeth barhau i wella cyfathrebu ac ymgynghoriadau trwyddo, a chyflawni strategaethau/rhaglenni/gweithredoedd. Yn 2002 sefydlwyd corff o'r fath sydd bellach wedi esblygu i'r Bartneriaeth Dwristiaeth Gynaliadwy. Mae rhan ganolog o Strategaeth Dwristiaeth PCBB yn golygu datblygu ac esblygu'r corff hwn i wasanaethu anghenion y cyrchfan yn well.

4. **Annog gweithgareddau marchnata cydweithredol a seiliwyd ar frand Bannau Brycheiniog.**

Mae hyn wedi esblygu fel rhan o brosiect Lle i Enaid Gael Llonydd Prydain a'i ddeilliad Cymreig â buddsoddiad sylweddol ar ran partneriaid. Nod Strategaeth Dwristiaeth PCBB yw cytgordio gweithgareddau hyrwyddiadol partneriaid a gwella buddion economaidd twristiaeth. Mae twristiaeth yn cefnogi amaethyddiaeth a'r economi trwy ddarparu incwm ychwanegol a marchnad ar gyfer gwasanaethau a chynnyrch lleol, er enghraifft. Mae gan barc cenedlaethol ddelwedd brand cryf sy'n gallu cael ei ddefnyddio i hybu twristiaeth gynaliadwy. Hefyd gall defnyddio'r ddelwedd brand hon fanteisio ar gyfleoedd sy'n cael eu creu trwy fod yn aelod o'r teulu o barciau cenedlaethol, yn ogystal â'r rheiny sydd wedi'u creu trwy fod yn rhan o dwristiaeth yng Nghymru.

5. **Gwella profiad y Parc Cenedlaethol i bawb, trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.**

Mae dull cynaliadwy o ymdrin â gwell profiad Parc Cenedlaethol yn gofyn am integreiddio â gweithgareddau, strategaethau, polisïau a gweithgareddau eraill ledled y Parc. Mae datblygu dull integredig o ddarparu profiad o ansawdd uchel yn y Parc Cenedlaethol wedi'i seilio ar ddull cydweithredol a chydlynol o annog pobl i aros yn hwy, treulio mwy o amser a chael mwy o werthfawrogiad o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae pobl sy'n dod i werthfawrogi'r Parc Cenedlaethol yn fwy tebygol o ofalu am ei ofalu amdano a'i adnoddau a'u diogelu.

6. **Rheoli effeithiau twristiaeth.**

Mae twristiaeth gynaliadwy yn helpu ymwelwyr i werthfawrogi'r angen am gadwraeth; â rheolaeth dda, gellir croesawu mwy o ymwelwyr i'r Parc â llai o effeithiau niweidiol. Mae dull cynaliadwy o ymdrin â thwristiaeth yn helpu i greu gwell lleoedd i bobl fyw ynddynt ac i bobl ymweld â hwy, â'r pwyslais ar drigolion yr ardal sy'n gyrchfan. Fodd bynnag, gall datblygiad amhriodol, diffyg rheolaeth, neu ormod o ymwelwyr ddirywio'r amgylched a buddion economaidd a chymunedol tymor hir. Yng nghyd-destun rheoli ardal warchodedig, yn unol ag Adran 62 Deddf yr Amgylchedd mae asiantaethau cyhoeddus fel Croeso Cymru wedi'u gorfodi i sicrhau nad yw eu gweithredoedd yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Felly datblygwyd y Strategaeth Dwristiaeth Gynaliadwy

Astudiaeth Achos

## Siarter Ewropeaidd Twristiaeth Gynaliadwy mewn Ardaloedd Gwarchodedig

Dyfarnwyd Siarter Ewropeaidd Twristiaeth Gynaliadwy mewn Ardaloedd Gwarchodedig i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2007, gan ddarparu buddion di-rif i'r Parc a'i gymunedau. Trwy gefnogi'r Siarter, mae'r Parc yn *"dewis mabwysiadu datblygu twristiaeth sy'n gydnaws ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'n cytuno i ffafrio dull cydlynol o ymdrin â phrosiectau yn ei ardal ei hun a chymryd golwg tymor hir ar reoli'r ardal"* (Ffederasiwn Europarc 2007). Wrth wneud hyn, bydd y Parc yn blaenoriaethu cydweithio a rhannu cyfrifoldebau er mwyn gwella effeithiolrwydd ei genhadaeth i ddiogelu'r amgylchedd.

Mae'r Siarter yn gofyn bod strategaeth yn cael ei pharatoi ar gyfer y Parc a fydd:

- Yn diogelu a gwella'r treftadaeth naturiol a diwylliannol;
- Gwella'r profiad i dwristiaid;
- Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o rinweddau arbennig y Parc;
- Datblygu twrisiaeth sy'n benodol i'r ardal;
- Cefnogi rhaglenni hyfforddiant ar gyfer staff a grwpiau targed eraill;
- Diogelu a chefnogi ansawdd bywyd i drigolion lleol;
- Cynyddu buddion twristiaeth i'r economi lleol a;
- Monitro a rheoli niferoedd ymwelwyr.

Mae'r un egwyddorion hyn wrth wraidd yr egwyddorion arweiniol sy'n sylfaen i'r Cynllun Rheoli hwn (**gweler Pennod 6**) ac atgyfnerthu'r dyletswydd a dibenion statudol sy'n sylfaen i ddynodiad y Parc. Gall mynd ar drywydd egwyddorion y Siarter ar yr un pryd â rhai'r Cynllun Rheoli dim ond bod o fudd i'r Parc Cenedlaethol, ei ymwelwyr a'r bobl sy'n byw yma.



i geisio integreiddio amrywiaeth o amcanion strategol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth a rheoli ymwelwyr. Mae cwrs gweithredu'r Strategaeth yn gorchymyn cefnogaeth eang ar draws yr arena strategol lydan. Yr ymarfer hwn o ran integreiddio oedd y sail ar gyfer dyfarniad y Siarter Ewropeaidd. Mae'r Siarter yn gofyn bod effeithiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau twristiaeth yn cael eu monitro a bod gweithredoedd rheoli dilynol yn cael eu cymryd i leihau effeithiau niweidiol ar adnoddau'r Parc.

### 7. Gwireddu potensial twristiaeth Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn llawn wrth gadw a gwella ei lleoliad deniadol.

Mae Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn gydran allweddol i dirwedd y Parc, ei hanes rhanbarthol, ei ddiwylliant lleol a'i ecoleg. Oherwydd y rhain a ffactorau eraill, mae'n atyniad allweddol i dwristiaid yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r Gamlas yn caniatáu i bobl fwynhau rhinweddau arbennig y Parc trwy amrywiaeth o opsiynau cludiant. Dyhead y Cynllun hwn yw y bydd y Gamlas yn parhau i gael ei reoli yn dda oherwydd ei werthoedd tirwedd, ecolegol, cymdeithasol a hanesyddol ac fel llwybr llinellol ar gyfer cludiant cynaliadwy ar droed, ar feic ac ar gwch.

CROES-GYFEIRIO


| | |
|---|---|
| 7.1.1 | Tirwedd |
| 7.1.4 | Amgylchedd Hanesyddol |
| 7.1.6 | Diwylliant a Thraddodiadau |
| 7.1.12 | Ffermio |
| 7.2.1 | Mynediad a Hamdden Awyr Agored |
| 7.2.3 | Gwybodaeth |
| 7.2.4 | Addysg |
| 7.2.5 | Dehongliad |
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |
| 7.3.3 | Geoparc y Fforest Fawr |
| 7.3.5 | Cludiant |

### 7.3.3. Geoparc y Fforest Fawr

Sefydlwyd Geoparc y Fforest Fawr yn 2005 yn rhan gorllewinol y Parc Cenedlaethol. Diben cyffredinol y Geoparc yw gweithio ar raddfa dirwedd a gwella geoamrywiaeth, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol gysylltiedig trwy bartneriaethau lleol, gan alluogi cymunedau a busnesau i ddeall ei bwysigrwydd a manteisio yn economaidd ar ei rinweddau arbennig wrth fynd ar drywydd datblygu cynaliadwy. Mae cysylltu'r cymunedau lleol a busnesau lleol yn allweddol i lwyddiant y Geoparc. Mae'n aelod o Rwydwaith Geoparciau Ewrop (EGN) a Rhwydwaith Byd-eang UNESCO o Geoparciau Cenedlaethol (GGN). Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn unigryw oherwydd ei fod yn cynnwys dau ddynodiad Geoparc Ewropeaidd/Byd-eang a Safle Treftadaeth y Byd o fewn ei ffiniau, sef Fforest Fawr a thirwedd ddiwydiannol Blaenafon.

Mae Bwrdd Partneriaeth yn rhedeg Geoparc y Fforest Fawr sy'n cynnwys partneriaid allweddol ar lefel uwch yn gweithio gyda Grŵp Rheoli sy'n cydlynu a datblygu gweithgareddau partneriaid ar lawr gwlad. Mae hybu a dehongli'r Geoparc yn digwydd yng nghyd-destun ei fod yn 'barc o fewn parc', gan gydnabod pwysigrwydd pob dynodiad pwnc ar y tro yng ngorllewin y Parc Cenedlaethol. Mae gweithio mewn partneriaeth yn effeithlon ac effeithiol yn sicrhau llwyddiant y Geoparc a thrwy ryngweithio â rhannau eraill o'r Cynllun Rheoli hwn.

Ar hyn o bryd (2008) mae Cynllun Gweithredu Geoparc newydd yn cael ei ddatblygu. Mae'r weledigaeth ac amcanion wedi cael eu terfynu a darparwyd gwybodaeth ar eu cyfer gan broses ymgynghori Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Bydd ymgynghori Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn parhau i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau ar Gynllun Gweithredu'r Geoparc.

#### Amcanion Strategol: **Geoparc y Fforest Fawr**

1. **Datblygu cadwraeth ar raddfa dirwedd o ran geoamrywiaeth, bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol gysylltiedig.**

   Mae cadwraeth yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer datblygu cynaliadwy. Gyda dynodiad y Geoparc, ceir cyfle i ddefnyddio rhaglenni ar raddfa dirwedd gyda'i gilydd â gwaith sy'n cael ei wneud fel rhan o adrannau eraill o'r cynllun hwn. Er ei bod yn amlwg bod cadwraeth geoamrywiaeth yn bwysig, nid dyma'r unig flaenoriaeth; mae bioamrywiaeth a chadwraeth ddiwylliannol yn rhannau cyfartal o'r rhaglen hon.

2. **Gwella profiad ymwelwyr, yn enwedig trwy ddatblygu gwybodaeth a dehongli ei rinweddau arbennig.**

   Mae darparu cyfleoedd i bobl fwynhau'r dynodiad a chael budd ohono yn allweddol i alluogi datblygu cynaliadwy. Fel hyn bydd eu profiad o'r ardal yn cael ei ddyfnhau trwy ei ddeall yn fwy manwl. Maent hefyd yn fwy tebygol o ddychwelyd os byddant wedi cael amser pleserus. Mae gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol rolau arwyddocaol i'w chwarae wrth wella profiad ymwelwyr. Er enghraifft, mae'r sector preifat yn cyfrannu trwy gynnig cyfleoedd i brofi'r dirwedd trwy weithgareddau awyr agored, atyniadau masnachol neu weithgareddau eraill. Mae pwyslais ar ddatblygu a defnyddio naws am le'r ardal yn hanfodol i'r broses hon.

3. **Cefnogi twristiaeth gynaliadwy a ffurfiau eraill o ddatblygu economaidd cynaliadwy.**

   Twristiaeth yw'r ffordd fwyaf amlwg o sut gall dynodiad fel Geoparc fod o fudd i'r ardal. Dylai gwaith y bartneriaeth ganolbwyntio ar wella isadeiledd twristiaeth gyhoeddus a phreifat gyda'i gilydd â datblygu twristiaeth mewn mannau eraill yn y Parc Cenedlaethol. Mae gwella cynaliadwyedd y sector twristiaeth a phrofiad ymwelwyr yn hanfodol



Taith gerdded wedi'i dywys ar Gadair Mawr



Darganfod creigiau'r Geoparc

bwysig ym mhob sector. Hefyd, bydd y Geoparc yn archwilio ffyrdd eraill o gefnogi datblygu economaidd cynaliadwy trwy ei waith.

4. Bod yn ffocws ar gyfer addysg ac ymchwil amgylcheddol/daear.

   Mae datblygu dealltwriaeth, yn enwedig ymhlith pobl leol, o'r Geoparc a'i rinweddau arbennig trwy weithio gyda grwpiau ieuenctid, ysgolion a chymunedau yn bwysig. I'r un graddau, mae cysylltu ag ymwelwyr ifanc yn agwedd bwysig ar waith y Geoparc. Yn olaf, mae cefnogi a galluogi ymchwil gwyddonol, daearegol yn enwedig, yn cynyddu dealltwriaeth o'r prosesau sydd wrth wraidd y rhinweddau arbennig ac yn galluogi cyflawniad amcanion gwyddonol ac addysgol.

5. Cysylltu â chymunedau lleol o ran ffyrdd newydd o weithio tuag at ddatblygu cynaliadwy.

   Yn y pen draw, mae'r dynodiad Geoparc a'i nodau datblygu cynaliadwy yn canolbwyntio ar hyfywdra tymor hir cymunedau lleol. Felly mae'n bwysig cynnwys cymunedau lleol, eu trigolion a busnesau wrth ddatblygu mentrau Geoparc yn eu hardal leol a'u hannog i ymgymryd â'r prosiectau eu hunain fel rhan o ddatblygiad y Geoparc. Twristiaeth yw'r ffordd fwyaf amlwg o sut gall dynodiad fel Geoparc fod o fudd i'r ardal. Dylai gwaith y bartneriaeth ganolbwyntio ar wella isadeiledd twristiaeth gyhoeddus a phreifat gyda'i gilydd â datblygu twristiaeth mewn mannau eraill yn y Parc Cenedlaethol. Bydd ffyrdd newydd o weithio'n cael eu harchwilio a'u datblygu a bydd cyfathrebu'n cael ei ystyried fel y flaenoriaeth allweddol. Bydd datblygiad y Geoparc yn cael ei fonitro i asesu ei effaith ar ddatblygu economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cynaliadwy.

6. Ceisio cynnwys pob sector o'r gymdeithas wrth ddatblygu gwaith y Geoparc.

   Rhaid peidio â gweld y Geoparc fel maes arbennig unrhyw sector o'r gymdeithas boed yn gymunedau lleol sy'n cynnig cartref iddo ynteu'n ymwelwyr. Bydd camau gweithredol yn cael eu cymryd i annog grwpiau lleiafrifol i ymweld trwy sicrhau bod eu hanghenion arbennig yn cael eu diwallu.

7. Defnyddio treftadaeth ddaearegol yr ardal i annog partneriaid, ymwelwyr, busnesau a chymunedau i fynd i'r afael â heriau newid yn yr hinsawdd.

   Gall stori datblygiad daearegol ddarparu gwybodaeth ar gyfer dealltwriaeth y ddynoliaeth o faterion cyfredol sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd. Trwy gorffori'r thema hon yn natblygiad y Geoparc y gobaith yw y bydd dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion lleol yn cael eu codi trwy well dealltwriaeth o faterion byd-eang, gan arwain at weithredu yn y byd go iawn ar ran pob rhanddeiliad.

CROES-GYFEIRIO

| | |
|---|---|
| 7.2.1 | Mynediad a Hamdden Awyr Agored |
| 7.2.3 | Gwybodaeth |
| 7.2.4 | Addysg |
| 7.2.5 | Dehongliad |
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |
| 7.3.2 | Twristiaeth Gynaliadwy |
| 7.3.4 | Cynllunio a Datblygu |

### 7.3.4. Cynllunio a Datblygu

Cynllunio yw'r prif broses ar gyfer cyflawni datblygu cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol. APCBB yw awdurdod cynllunio lleol (ACLl) y Parc. Mae ganddo swyddogaethau statudol o ran rheoli datblygu a chynhyrchu cynllun datblygu ar gyfer y Parc. Mae APCBB yn gweithio gyda ACLlau cyfagos i lunio cyfarwyddyd cynllunio strategol. Oherwydd ei leoliad, mae ganddo gynrychiolaeth ar dri o bedwar grŵp cynllunio isranbarthol Cymru. Ar hyn o bryd mae APCBB yn ymgynghori ar Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd a bydd yn ei gyhoeddi o fewn oes y Cynllun Rheoli.


Wrth gyflawni eu rolau cynllunio, mae APCBB a ACLlau eraill yn destun i ddeddfwriaeth cynllunio, rheoliadau a chyfarwyddyd y Llywodraeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae'r rhain yn berthnasol yn yr un ffordd mewn Parciau Cenedlaethol a'r tu allan iddynt, er enghraifft wrth gynllunio ar gyfer datblygu preswyl wrth warchod cefn gwlad er ei mwyn ei hun. Hefyd, mae canllawiau cynllunio'r Llywodraeth ar gyfer Cymru yn gofyn i APCau i roi gwerth mawr ar gadw a gwella harddwch naturiol yn y Parc. Mae'n nodi na fydd datblygiadau sydd o bwysigrwydd mwy cenedlaethol (DU) yn hytrach na lleol yn cael eu caniatáu yn y Parc Cenedlaethol ar wahân i dan amgylchiadau eithriadol lle gellir dangos bod angen cyhoeddus tra phwysig, a niwed difrifol i'r economi lleol, yn drech na dynodiad y Parc Cenedlaethol.

Mae APCBB yn defnyddio ei swyddogaeth gynllunio i helpu i gyflawni ei nodau ac amcanion ehangach. Mae cynllunio yn ffordd o integreiddio datblygu priodol â'r dirwedd ac aneddiadau sydd eisoes yn bodoli, integreiddio datblygu â chludiant, caniatáu ar gyfer cyfleusterau hamdden a darparu tai a chyflogaeth i bobl leol. Mae'n ffordd o annog byw'n gynaliadwy wrth ddarparu buddion cyhoeddus nawr ac wrth ystyried y dyfodol. Mae APCBB yn gosod safonau a pholisïau trwy'r CDLl i hybu datrysiadau arloesol i faterion cymdeithasol cymhleth, fel tai fforddiadwy, effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd neu ddisbyddu tanwyddau ffosil. Mae'r CDLl hefyd yn mynd i'r afael â rhyngweithio llawer o'r materion hyn, er enghraifft, lleoli datblygu newydd yn briodol i leihau'r risg o lifogydd a lliniaru'r effeithiau cyfansawdd y bydd newid yn yr hinsawdd yn dwyn i'r ystyriaethau hyn (**gweler hefyd 7.1.8 Adnoddau Dŵr**). Felly mae llawer o'r amcanion yn y Cynllun Rheoli hwn yn cynnwys gweithredu i gynnwys polisïau perthnasol y CDLl. Bydd defnydd tir a chynllunio cludiant yn gysylltiedig trwy'r Cynlluniau Cludiant Rhanbarthol.

Rhaid i ddatblygu yn y Parc fod yn gynaliadwy. Yn ei rôl fel ACLl mae gan APCBB lawer o gyfleoedd i ddefnyddio egwyddorion cynaliadwyedd o ran defnydd tir, cynhyrchu bwyd lleol a mentrau ynni ar raddfa fach, yn enwedig yng ngoleuni ansicrwydd o ran yr hinsawdd. Mae cynaliadwyedd yn golygu sicrhau gwell dyfodol ar gyfer amgylchedd y blaned a'i phobl trwy gadw adnoddau a chynnwys pobl leol wrth wneud penderfyniadau. Mae APCBB yn datblygu ei ddyraniadau tir, polisïau a chyfarwyddyd dylunio er mwyn arbed ynni, a lleihau gwastraff, llygredd a'r angen i deithio. Wrth iddo gael ei lunio, bydd APCBB yn cynnwys trigolion y Parc mewn agweddau strategol a lleol ar y Cynllun Datblygu Lleol.



**Aberhonddu a'r Bannau tu hwnt**



Dardy ger Crug Hywel

## Amcanion Strategol: **Cynllunio a Datblygu**

1. **Paratoi CDLl sy'n ymatebol i yrwyr newid ac yn galluogi datblygu i ddiwallu anghenion a nodwyd.**

   Mae angen i'r Awdurdod baratoi CDLl a fydd yn tywys pob datblygu yn y dyfodol yn y Parc Cenedlaethol yn ystod y 15 mlynedd nesaf. Bydd y CDLl yn mynd i'r afael â nodweddion, cyfleoedd a materion unigryw economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ardal y parc. Mae wedi'i seilio ar y weledigaeth, amcanion a blaenoriaethau sydd yn y Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol hwn. Bydd y CDLl yn mynd i'r afael ag agweddau ar ddefnydd tir yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Bydd APCBB yn paratoi CDLl sy'n gallu gwrthsefyll gyrwyr newid ac yn ymatebol iddynt (**gweler Pennod 5**) ac sy'n helpu cymunedau'r Parc i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, ac addasu iddynt, lle bo hynny'n bosibl.

2. **Darparu gwasanaeth cynllunio o'r radd flaenaf.**

   Mae gan APCBB swyddogaethau statudol o ran rheoli datblygu a chynhyrchu cynllun datblygu ar gyfer y Parc. Mae rôl APCBB fel ADLl yn rhoi proffil uchel iddo yn y gymuned leol. Felly mae'n ceisio cynnwys y cyhoedd wrth ddatblygu polisïau cynllunio.

   Mae Siarter y Gwasanaethau Cynllunio yn manylu ar sut mae APCBB yn ceisio gwneud rheolaeth ar ddatblygu a'i holl wasanaethau cynllunio yn hawdd eu defnyddio. Mae'r system gynllunio yn gymhleth, ac mae gan APCBB rôl yn ei esbonio i gynghorau cymuned ac eraill. Er mwyn gwneud yn siŵr bod ei wasanaethau o'r radd flaenau, nod APCBB yw gwella cysondeb gwneud penderfyniadau, cynyddu cynnwys y cyhoedd o ran gwasanaeth cynllunio APCBB, eu dealltwriaeth ohono a'u boddhad ag ef, a gwella perthnasau â sefydliadau sy'n bartneriaid.

3. **Sicrhau bod digon o dir ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy i ddiwallu'r angen a nodwyd.**

   Mae gan APCBB ddyletswydd statudol i ddarparu ar gyfer lefel o dai yn y Parc sy'n briodol i'w ddynodiad wrth gynnal hyfywedd cymunedol. Nid yw APCBB yn awdurdod tai; dyma yw rôl yr Awdurdodau Unedol. Er hynny, mae APCBB yn gweithio'n agos â'r Awdurdodau Tai perthnasol wrth baratoi Asesiadau Marchnad Dai Lleol a Strategaethau Tai Lleol. Trwy'r CDLl, mae APCBB yn manylu ar bolisïau ar gyfer darparu tai ar gyfer tai, gan gynnwys tai fforddiadwy. Mae'r ddarpariaeth hon yn gofyn am nodi safleoedd priodol ar gyfer tai ond hefyd mae angen blaenoriaethau'r rhain wrth gynllunio yn strategol yn ogystal â mewn rhaglenni ariannu. Mynegwyd bod angen cael mynediad at dai fforddiadwy ar draws cymunedau'r Parc. Mae tueddiadau ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn dynodi ei bod yn debygol y bydd yr angen hwn yn y tymor hir.

   Mae APCBB wedi bod yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol - gan gynnwys yr Awdurdodau Unedol a datblygwyr - i nodi cyfleoedd i ddarparu mwy o dai fforddiadwy a bydd yn parhau i wneud hyn wrth iddo lunio'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd APCBB a'i bartneriaid yn gweithio i sicrhau bod yr holl dai newydd, gan gynnwys tai fforddiadwy, yn y Parc ac ar ei ffiniau o ddyluniad ac ansawdd uchel ac yn ymateb i'w gyd-destun lleol.

4. **Dyrannu digon o dir i ddarparu amrywiaeth a chymysgedd o gyfleoedd cyflogaeth i annog gwell cysylltiad rhwng darpariaeth cyflogaeth a thai.**

   O ran sicrhau lles cymdeithasol ac economaidd

cymunedau'r Parc, mae'n amlwg bod darpariaeth o dai sy'n briodol a fforddiadwy yn gynhwysyn hanfodol. Mae darpariaeth cyfleoedd cyflogaeth sy'n darparu ar gyfer bywoliaeth trigolion y parc yr un mor bwysig i gynaliadwyedd a hyfywedd cymunedau lleol. Er nad APCBB yw'r prif asiantaethau datblygu economaidd neu ddatblygu cymunedol, mae LICC yn annog APCBB i feithrin partneriaethau sy'n cadw a hybu cyfleoedd cyflogaeth lleol sy'n gydnaws ag amcanion datblygu gwledig. Felly rhaid ystyried argaeledd tir a buddsoddiad priodol mewn isadeiledd a gwasanaethau sy'n hybu cymunedau cynaliadwy. Bydd APCBB a'i bartneriaid yn sicrhau bod argaeledd tir a buddsoddiad yn y Parc yn gyson â rhinweddau arbennig yr ardal ac yn osgoi difrod i rywogaethau a safleoedd cadwraeth natur bwysig.

5. **Cynnal ac annog bywiogrwydd a hyfywedd cymunedau a chanol trefi'r Parc.**

Yr egwyddor cyffredinol y tu ôl i bolisïau cynllunio APCBB yw datblygu cynaliadwy; rhaid i ddatblygu fod yn briodol i ddyletswydd a dibenion statudol y Parc a'i lleoliad gwledig. Mae cysyniadau naws am le, cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles cymunedol a grymuso lleol yn rhannau annatod o'r egwyddor hon. O safbwynt cymunedau lleol, mae hyn yn golygu y dylai APCBB a'i bartneriaid annog datblygu sy'n cyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, yn hybu cymunedau integredig, â chyfleoedd i bawb fyw, gweithio a chymdeithasu ac sy'n galluogi datblygiad sy'n annog ffordd iach a diogel o fyw ac yn annog lles.

6. **Gwella ansawdd ffisegol, effeithlonrwydd ynni, hygyrchedd a dylunio ac adeiladu cynaliadwy o ran pob datblygiad ledled y Parc.**

Cynrychioli arddulliau adeiladu o wahanol ganrifoedd ar draws y Parc. Mae angen i'r rhain gael eu cadw ac adlewyrchu elfennau priodol yn nyluniadau ar gyfer datblygiadau newydd. Hefyd mae angen cyfarwyddyd ar gyfer ymgeiswyr am gynyddu effeithlonrwydd ynni gymaint â phosibl o ran eu cynigion, a lleihau'r deunyddiau sy'n cael eu defnyddio a'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu. Yn unol ag ymrwymiadau'r Parciau Cenedlaethol i gynaliadwyedd ac agenda newid yn yr hinsawdd, mae'r APCau wedi cynhyrchu cyfarwyddyd diweddar am ddeunyddiau a dylunio adeiladau cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol. Mae Dylunio Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru (Gwanwyn 2009) yn enghraifft o ddylunio cynaliadwy yn lleol ac yn genedlaethol.

7. **Lleihau llygredd golau a sŵn gymaint â phosibl.**

Er ei bod yn agos at ganolfannau trefol fel Caerdydd, Bryste ac Abertawe, mae'r Parc yn ymfalchio yn y faith fod ei awyr yn dywyll yn ystod y nos ar hyd y flwyddyn ac, yn ystod nosweithiau clir, gellir gweld digonedd o sêr. Yn gyffelyb, mae ei ddwysedd poblogaeth isel a diffyg prif draffyrdd yn cyfyngu ar lygredd golau a sŵn. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu yn sylweddol at y teimlad o lonyddwch a phellenigrwydd sy'n cael eu dyfynnu mor aml fel rhinwedd arbennig allweddol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Bydd APCBB a'i bartneriaid yn ceisio cynnal a gwella'r priodoleddau hyn.

CROES-GYFEIRIO

| | |
|---|---|
| 7.1.1 | Tirwedd |
| 7.1.4 | Amgylchedd Hanesyddol |
| 7.1.5 | Amgylchedd Adeiledig |
| 7.1.8 | Adnoddau Dŵr |
| 7.1.10 | Mwynau |
| 7.1.11 | Ynni |
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |
| 7.3.4 | Cludiant |
| 7.3.5 | Gwastraff |

### 7.3.5. Cludiant

Mae angen cludiant ar gyfer y rhan fwyaf o deithiau i'r Parc Cenedlaethol ac ynddo, ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. Mae'r Parc yn dibynnu yn enwedig ar gludiant ffordd ar gyfer pobl a nwyddau. Nid oes unrhyw orsafoedd rheilffordd o fewn ffiniau'r Parc (er bod nifer yn gwasanaethu ei ymylon), ac ar hyn o bryd mae Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu yn gyfyngedig i ddefnydd hamdden. Mae beicio a merlota yn weithgareddau hamdden yn bennaf, a'r tu allan i Aberhonddu nid yw cludiant cyhoeddus yn ddigonol i wasanaethu'r rhan fwyaf o anghenion. Felly mae cerbydau preifat yn hanfodol i drigolion, ymwelwyr, busnesau ac amaethyddiaeth yn y Parc.

Hefyd, ceir pobl yn y Parc a'r tu allan iddo lle mae diffyg cludiant yn cyfyngu ar eu symudedd, ac mae galw heb ei ddiwallu am fynediad trwy gludiant cyhoeddus at gyrchfannau ar y ddwy ochr i ffiniau'r Parc. Mae hybu mynediad i bawb at y Parc a sicrhau bod gan drigolion fynediad at wasanaethau a chyfleusterau yn amcanion pwysig i APCBB.

Mae'n anodd cael gwybodaeth fanwl am symudiadau traffig o amgylch y Parc oherwydd bod llawer o ffyrdd o wahanol graddau dan reolaeth LICC a saith Awdurdod Unedol. Daw'r set data traffig mwyaf hygyrch o STEAM ac mae'n ymwneud â thraffig twristiaid. Rhwng 2003 a 2004, cododd nifer y ceir twristiaid ar y ffordd gan 4%. Fodd bynnag, gostyngodd nifer y traffig twristiaid rhwng 2000 a 2004, ac nid yw niferoedd wedi cyrraedd y rheiny a gofnodwyd cyn Clwy'r Traed a Genau yn 2001. Mae hyn yn groes i'r tuedd o gynnydd cyffredinol o ran cerbydau ar y ffyrdd yng Nghymru ar gyfer yr un cyfnod, fel adroddwyd yn Ystadegau Cludiant Cymru 2004. Byddai angen ymarfer casglu data arbennig i bennu'r tueddiadau o ran yr holl draffig ar draws y Parc.

Mae effaith cludo pobl i mewn i'r Parc Cenedlaethol ac o'i amgylch yn cyfrannu at ôl troed ecolegol y Parc. Cafodd lliniaru'n cyfraniad hwn ei nodi fel tasg blaenoriaeth uchel yn y Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy. Hefyd, mae'n debyg ei bod yn un o'r tasgau mwyaf anodd i fynd i'r afael



**Yr A470 rhwng Merthyr Tudful ac Aberhonddu**

â hi o ystyried natur wasgaredig y canolfannau poblogaeth/atyniadau twristiaeth a thueddfryd naturiol ymwelwyr i ddefnyddio cludiant ceir.

Mae APCBB yn ymwneud llawer â materion sy'n ymwneud â chludiant oherwydd eu heffaith ar gynaliadwyedd, yr amgylchedd a chymunedau, a'u pwysigrwydd ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. Fodd bynnag, mae ei ddylanwad yn gyfyngedig; nid APCBB yw Awdurdod Priffyrdd (AP) y Parc. Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ac APau y grymoedd ac adnoddau perthnasol, sy'n gorfod ystyried dibenion y Parc Cenedlaethol a *"sicrhau bod cydweithio ar draws ffiniau'r Parc, yn enwedig o ran materion sy'n ymwneud â chynllunio a phriffyrdd."* Yn unol â Strategaeth Ymrwymiadau Cynllunio APCBB, bydd APCBB yn gweith.

io mewn partneriaeth â'r APau cyfansoddol i drafod telerau arian Adran 106 lle bo hynny'n briodol ar gyfer gwelliannau gofynnol i briffyrdd.

Mae angen i Gonsortia Cludiant Rhanbarthol (GCR) fanylu ar eu strategaeth gludiant mewn Cynlluniau Cludiant Rhanbarthol (CCRhau) pum mlynedd, â'r nod o ddarparu system cludiant integredig. Rhaid cael targedau lleol ar gyfer mynd i'r afael â llygredd a thagfeydd, mwy o reolaeth ar draffig, diogelwch ffyrdd, cludiant cyhoeddus a dulliau amgen o gludiant. Bydd mwy o sicrwydd ar gyfer ariannu mentrau,

ymgynghori cyhoeddus ehangach a grymoedd i godi ffioedd am ddefnyddio ffyrdd a pharcio. Hefyd rhaid i CCRhau fod yn gyson â'r strategaeth ddefnydd tir mae'r CDUau yn eu cynnwys, y CDLlau sydd ar ddod a Strategaeth Gludiant Cymru, a bod yn integredig â'r rhain. Hefyd mae'n rhaid i CCRhau ymgymryd ag ymgynghori helaeth â rhanddeiliad perthnasol, gan gynnwys cymunedau lleol, tirfeddianwyr, busnesau, asiantaethau'r Llywodraeth a chyrff anllywodraethol. Mae tri GCR o'r fath yn cwmpasu'r Parc, ynghyd â'u CCRhau. Mae'n bwysig bod y tri CCR hyn yn cynnwys argymhellion y Cynllun hwn.

Mae Cynllun Gofodol Cymru yn annog gwelliannau sy'n gysylltiedig â chludiant yn y Parc i wireddu potensial cymdeithasol-economaidd a masnachol lleol yn llawn, yn enwedig mewn perthynas ag aneddiadau allweddol (Aberhonddu, Talgarth a'r Gelli Gandryll). Dylid mynd ar drywydd yr ymyraethau hyn fel rhan o'r Cynllun Cludiant Rhanbarthol i sicrhau nad yw eu statws strategol yn gyfyngedig oherwydd cyfyngiadau hygyrchedd, a sicrhau bod cysylltiadau cludiant strategol, dwyrain-gorllewin a gogledd-de, yn cael eu cynnal a'u gwella. Fel yn achos unrhyw ddatblygiad yn y Parc Cenedlaethol, rhaid i unrhyw ddatblygiadau arfaethedig neu isadeiledd fod yn gydnaws â dyletswydd a dibenion y Parc yn ogystal â'r CDU a'r CDLl sydd ar ddod.

Ymhellach i hyn, mae Cymdeithas y Syrfewyr Sir, Grŵp Swyddogion Parc Cenedlaethol, y Comisiwn Cefn Gwlad a CCGC wedi cyhoeddi Joint Statement on Traffic and Transport Policy and Practice in National Parks (1996). Mae'n cynnwys ymrwymiad i gydweithio i ddarparu dylunio da a systemau traffig a chludiant cynaliadwy sy'n cefnogi dibenion Parc Cenedlaethol, diwallu anghenion cymunedau lleol ac sy'n hollol integredig â strategaethau rheoli a defnydd tir. Mae'r ymgynghoriadau ar y Cynllun Rheoli hwn yn rhan o'r broses hon, a gwnaethpwyd dechrau â Phartneriaeth Bws y Bannau a'r Bartneriaeth Gludiant Ymwelwyr. Gall APCBB gydlynu gwaith mewn perthynas â hyn yn unig - bydd y prif faich ar gyfer darparu cludiant cynaliadwy yn aros gyda'r Awdurdodau Lleol a GCRhau. Mae'n hanfodol (yn enwedig gan fod cymaint o ffiniau gweinyddol yn cael eu croesi) bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio tuag at nodau cyffredinol a bod dull cydlynol o fod mewn partneriaeth yn cael ei ddefnyddio.

## Amcanion Strategol: **Cludiant**

1. **Lleihau'r angen i deithio trwy reoli lleoliad a dyluniad datblygiad.**

   Nid yw APCBB ei hun yn Awdurdod Priffyrdd ond mae'n gyfrifol am gynllunio defnydd tir strategol a phennu ceisiadau am waith priffyrdd sydd angen caniatâd cynllunio. Mae Powys, Awdurdod Priffyrdd y rhan fwyaf o ardal y Parc Cenedlaethol, yn gweithio'n agos ag APCBB ac awdurdodau priffyrdd eraill wrth gynhyrchu strategaethau cludiant a defnydd tir integredig, yn enwedig â'r nod o gynorthwyo wrth gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol. Hefyd mae gan APCBB well strategaeth ymrwymiad cynllunio. Mae'r strategaeth hon yn galluogi'r AUau i nodi buddion y byddai'n bosibl eu dwyn i gymunedau lleol trwy ddatblygiad (e.e., llwybr beicio neu gynllun cludiant). Er enghraifft, gallai'r APCBB ddyrannu digon o dir i annog cynhyrchu bwyd cymunedol wrth i Awdurdodau Priffyrdd cysylltu'r tir hwn yn strategol i fannau preswyl trwy lwybrau cludiant lleol. O ystyried rôl data o ansawdd wrth fonitro cynnydd, bydd APCBB ac Awdurdodau Priffyrdd yn cydweithio i archwilio casglu data a thueddiadau priodol ar draws y Parc. Bydd APCBB yn ystyried y rhain a ffactorau eraill fel rhan o waith datblygu Cynllun Datblygu Lleol y Parc sydd ar ddod.

2. **Darparu system cludiant integredig sy'n annog dulliau ffordd o fyw iach a gweithredol ac yn cefnogi cymunedau lleol.**

   Dylai'r angen i deithio gael ei leihau, a dylai dengarwch

## Astudiaeth Achos

### Prosiect Bws y Bannau

Yn hanesyddol, prif ymwneud APCBB â chludiant ymwelwyr bu datblygiad prosiect Bws y Bannau. Mae'r rhwydwaith dydd Sul a Gwyl y Banc yn ystod yr haf yn gweithredu trwy ddod ag ymwelwyr o bob rhan o Dde Cymru i mewn i'r Parc Cenedlaethol ac o'i amgylch. Mae wedi tyfu yn sylweddol ers dechrau'r prosiect ym 1999 a bellach mae'n darparu bron i 10,000 o deithiau i deithwyr bob blwyddyn. Mae'n cael ei redeg gan bartneriaeth o APCBB gyda 14 o gyrff cyhoeddus a gwirfoddol eraill ac mae'n cael ei ystyried fel prosiect llwyddiannus iawn. Mae wedi cyflawni newid arwyddocaol o ran dulliau teithio, mae'n cyflawni amcanion cynhwysiant cymunedol o ansawdd uchel ac yn galluogi ymgymryd â gwaith dehongliadol â thywyswyr ar y bysiau.

Hefyd, mae rhywfaint o waith wedi cael ei wneud i'w gwneud yn haws i'r rheiny sy'n awyddus i ddefnyddio cludiant cyhoeddus wneud hynny. Cymerwyd camau i gyhoeddi canllaw i gludiant cyhoeddus, amserlen flynyddol o'r holl wasanaethau yn y Parc Cenedlaethol a chynnwys negeseuon a gwybodaeth cludiant cyhoeddus mewn cyhoeddiadau a gwefannau priodol.




ac amrywiaeth opsiynau cludiant cyhoeddus gael eu cynyddu, heb gael effaith niweidiol ar ansawdd cyffredinol bywydau pobl. Byddai gwell cysylltiadau rhwng dulliau o gludiant cyhoeddus, teithio hamdden a mynediad at gefn gwlad o fudd i dwristiaid a thrigolion fel ei gilydd. Ni ellir cyflawni'r gwaith hwn heb weithio mewn partneriaeth rhwng APCBB, ALlau, a LICC.

3. **Annog datblygiad gwasanaethau newydd ac arloesol ar gyfer y farchnad ymwelwyr.**

Bydd angen gweithio mewn partneriaeth, yn enwedig rhwng APCBB ac ALlau, i ddatblygu a marchnata gwasanaethau gan ystyried anghenion ymwelwyr i ddarparu cludiant i'r atyniadau hynny a lleoliadau gweithgaredd awyr agored a fyddai'n cael budd arbennig. Bydd prosiect Bws y Bannau yn parhau i dyfu o ran amser a lle â'r nod o gwmpasu cymaint o dymor yr haf â phosibl a chynyddu llwybrau i ddiwallu galw. Yn gyffelyb, dylid gwneud y defnydd gorau o rwydweithiau gwasanaeth dyddiau'r wythnos sydd eisoes yn bodoli trwy sicrhau bod teithiau'n cael eu gwneud yn haws i ymwelwyr â marchnata o ansawdd uchel, gwybodaeth a darpariaeth gwasanaeth, gan gynnwys gofal ardderchog i gwsmeriaid gan weithredwyr cludiant. Byddai gwaith yn cynnwys rhwydwaith o byrth a chyfnewidfeydd cludiant mewn lleoliadau strategol lle mae gwybodaeth i ymwelwyr yn cael ei gyflwyno yn ddeniadol a chyfnewidfeydd yn cael eu hwyluso.

4. **Hwyluso cludiant cynaliadwy, bellter hir i'r Parc Cenedlaethol.**

Mae gan y Parc Cenedlaethol rol wrth gadw ymweliadau gwyliau yn y DU ac osgoi effaith cludiant yn yr awyr i gyrchfannau fel Môr y Canoldir. Mae hyn hefyd yn gwella cadw arian yn y wlad. Fodd bynnag, nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn lleihau'r angen i weithredu i annog ymwelwyr i ddefnyddio cludiant nad yw'n defnyddio ceir i deithio i'r ardal ac ynddi. Mae integreiddio yn allweddol

i'r broses hon ac mae angen i gyfnewidfeydd rheilffordd/bws weithio i ymwelwyr. Mae gwasanaeth bws Traws-Cambria a ddatblygwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn gydran allweddol yn narpariaeth y system integredig hon. Mae angen gweithio mewn partneriaeth rhwng LlCC, ALlau ac APCBB i alluogi dwyn y budd mwyaf posibl o'r gwasanaeth hwn. Mae gwaith wedi cael ei wneud i gysylltu'r Parc Cenedlaethol â'r trefi ar ei ymylon, ac integreiddio dulliau cludiant mecanyddol a llwybrau cerdded a beicio yn ymestyn o Gwm Tawe trwy Ystradgynlais ac ar draws y Parc Cenedlaethol i Aberhonddu. Cynllunnir gwaith pellach i greu cyfnewidfeydd dull a chefnogi gweithgareddau ar gyfer cerdded, beicio a merlota mewn trefi ar ymylon Bannau Brycheiniog, ac mewn nifer gyfyngedig o aneddiadau mewnol lle na fyddai hyn yn amharu ar gymeriad a harddwch y Parc Cenedlaethol. Byddai hyn hefyd yn darparu buddion economaidd i bobl leol.

5. **Gweithio gyda Chynhyrchwyd Cludiant ar Gynlluniau Teithio Gwyrdd.**

   Bwriad cynlluniau teithio yw bod yn fecanwaith pendant wrth annog dewis i gludiant cyhoeddus a/neu rannu ceir, cerdded a beicio ar gyfer teithiau busnes a chymudo. Gall atyniadau'r sector cyhoeddus a phreifat, gwyliau, busnesau twristiaeth a sefydliadau eraill leihau eu heffeithiau gymaint â phosibl trwy fabwysiadu'r Cynlluniau hyn.

6. **Cefnogi mentrau newid ymddygiad ac arferion gweithio sy'n lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr y Parc ac yn lleihau dibyniaeth pobl ar danwyddau ffosil ar gyfer cludiant.**

   Yn ogystal â'r Cynlluniau Teithio Gwyrdd, mae APCBB a phartneriaid Awdurdod Lleol yn cydnabod bod angen newidiadau o ran maint, ansawdd a dulliau gweithredu gwasanaethau cludiant cyhoeddus ac o ran argaeledd ac ansawdd gwybodaeth am gludiant cyhoeddus. Mae Cyngor Sir Powys yn gweithio gydag APCBB ac awdurdodau sy'n bartneriaid yn TraCC i gyflawni'r nodau hyn a lleihau defnydd o danwyddau ffosil. Byddai'r amcan strategol hwn hefyd angen buddsoddiad mewn codi ymwybyddiaeth pobl am bryderon sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd ac am gynhyrchiad tanwyddau ffosil sy'n lleihau, yn enwedig petrolewm.

7. **Datblygu Marchnata Teithio Cynaliadwy.**

   Pa bynnag mecanweithiau sy'n cael eu mabwysiadu, mae'n hanfodol eu bod yn cael eu marchnata yn ddeniadol a chyson i'r cyhoedd sy'n ymweld er mwyn addysgu a pherswadio defnydd o ddulliau cludiant nad yw'n llygru.

CROES-GYFEIRIO


7.1.7 Adnoddau Aer
7.1.11 Ynni
7.2.3 Gwybodaeth
7.2.4 Addysg
7.3.1 Cymunedau Cynaliadwy
7.3.2 Twristiaeth Gynaliadwy
7.3.4 Cynllunio a Datblygu
7.3.6 Rheoli Gwastraff


### 7.3.6. Rheoli Gwastraff

Ar sail amcangyfrifon cyfredol, mae gan Gymru oddeutu pum mlynedd o ofod tirlenwi ar gael.[41] Mae swm y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu yng Nghymru yn parhau i gynyddu, gan roi straen ar adnodd sydd eisoes yn gyfyngedig. Y newyddion da yw bod cyfradd cynhyrchu gwastraff ar draws Cymru wedi dechrau arafu wrth i ganran y gwastraff sy'n cael ei ailgylchu neu gompostio gynyddu yn sylweddol. Mae Powys, sydd â'r gyfran fwyaf o dir yn y Parc Cenedlaethol, yn ailgylchu 37% o'i gwastraff - mwy nag unrhyw AU arall yng Nghymru.[42] Hefyd mae nifer o AUau eraill y Parc yn ailgylchu mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ymdrechion hyn wedi llithro

41. Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru. 2004. Diweddariad Data Gwastraff.
42. Llywodraeth Cynulliad Cymru. 2007. Ystadegau Amgylcheddol Allweddol ar gyfer Cymru.




Ailgylchu yn Aberhonddu

yn ddiweddar oherwydd diffyg cefnogaeth ariannol. Er hynny, dylai fod yn flaenoriaeth i wneud ailgylchu yn fwy o norm nag ydyw ar hyn o bryd trwy ymgyrchu ymwybyddiaeth gyhoeddus a chynnydd o ran cyfleusterau.

Er nad yw LICC yn cydoddef dyrannu tirlenwadau, llosgyddion, neu safleoedd gwaredu sbwriel eraill ym Mharciau Cenedlaethol Cymru, mae trigolion ac ymwelwyr y Parc yn dal i gynhyrchu gwastraff y mae angen delio ag ef y tu allan i ffiniau'r Parc. Oherwydd nad yw'r dull hwn o weithredu yn gynaliadwy, mae gan y trigolion ac ymwelwyr gyfrifoldeb i leihau'r llwyth gwastraff rhanbarthol, ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau lle bo hynny'n bosibl. Felly mae APCBB a'i bartneriaid yn eu hymdrechion i gyflawni cynaliadwyedd, yn rhannu'r cyfrifoldeb am reoli gwastraff.

Mae dwy ffurf ar rôl APCBB o ran materion sy'n ymwneud â gwastraff: yn ei rôl fel ACLl, ac wrth hybu ideoleg rheoli gwastraff cynaliadwy yn y Parc drwyddo draw (h.y., lleihau'r gwastraff a gynhyrchir ar draws y Parc a hybu ailddefnyddio ac ailgylchu). Mae'r ddwy rôl hyn angen cydweithio agos â'r AUau, sy'n gyfrifol am gasglu gwastraff ac SEA, sy'n rheoleiddio gwaredu gwastraff. O'r herwydd, bydd angen i APCBB fynd i'r afael â rheoli gwastraff wrth ddatblygu'r CDLl.

## Amcanion Strategol: **Rheoli Gwastraff**

1. **Hybu hierarchaeth gwastraff sef lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu ar draws pob sector o'r Parc Cenedlaethol.**

   Dylai APCBB a'i bartneriaid geisio leihau'r gwastraff a gynhyrchir a cheisio cyfrannu at ddatrysiadau gwastraff cynaliadwy. Dylai cynlluniau a strategaethau gyfrannu at Gynlluniau Gwastraff Rhanbarthol De Orllewin a De Ddwyrain Cymru. Gall APCBB yn enwedig chwarae rôl allweddol o ran allgymorth cyhoeddus, trwy addysg, dehongli, gwybodaeth a thrwy fod yn enghraifft o ran rheoli gwastraff yn gynaliadwy trwy ei arferion ei hun.

2. **Lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu yn y Parc Cenedlaethol gymaint â phosibl.**

   Mae egwyddorion cynaliadwyedd, yr hierarchaeth gwastraff, agosrwydd a hunangynhaliaeth ranbarthol wrth wraidd y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol. Ynghyd â'r cyfyngiadau ar ddulliau gwared gwastraff yn y Parc, mae'r egwyddorion hyn yn dangos bod gan y cymunedau yn y Parc, a'r ymwelwyr iddo, ymrwymiad i leihau eu cyfraniadau at y llif gwastraff rhanbarthol gymaint â phosibl. Gall yr ALlau ac APCBB annog archwilio opsiynau arloesol neu amgen sy'n cefnogi dyletswydd a dibenion y Parc wrth gytuno â'r Strategaethau Rhanbarthol.

CROES-GYFEIRIO


| | |
|---|---|
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |
| 7.3.4 | Cynllunio a Datblygu |
| 7.3.5 | Cludiant |
| 7.3.7 | Defnydd Milwrol o'r Parc |

## 7.3.7. Defnydd Milwrol o'r Parc

Mae gan Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hanes hir a chyfoethog o gysylltiadau milwrol. Mae'r gwasanaethau milwrol yn defnyddio mannau agored y Parc Cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant a gweithgareddau anturus. Mae rhai o'r gweithgareddau hyn yn cael effaith niweidiol ar y Parc a bywydau'r rheiny sy'n byw ynddo neu'n ymweld ag ef. Mae APCBB a'i bartneriaid yn parhau i weithio'r agos iawn â'r Weinyddiaeth Amddiffyn i gyflawni dyletswydd a dibenion y Parc wrth gadw ei rinweddau arbennig.

Ar hyn o bryd mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn berchen ar oddeutu 114 hectar o dir yn y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys y gwersyll ym Mhontsenni, canolfan ar gyfer yr ardal hyfforddi yng ngogledd y Parc, gwersyll hyfforddi Dering Lines, y Barics, y caeau chwarae a Phencadlys Brigâd 160 (Cymru) - i gyd yn Aberhonddu. Mae'r gwasanaethau milwrol yn berchen ar Ganolfan Hyfforddi Llu Cadetiaid y Fyddin ym Mhowys yng Nghwrt y Gollen ac yn ei chynnal. Hefyd ceir canolfan gweithgareddau awyr agored fach yn y Parc y mae'r Llynges Frenhinol yn berchen arni.

Mae hyfforddiant milwrol yn digwydd yng nghanolfannau'r Weinyddiaeth Amddiffyn ei hun, ac mae cryn dipyn o symud cerbydau rhwng Aberhonddu a Phontsenni. Mae awyrennau jet a Hercules yn defnyddio awyr y Parc i hyfforddi hedfan yn isel ac mae hofrenyddion yn cael eu defnyddio i symud personél ac at ddibenion hyfforddi. Mae personél y gwasanaethau yn defnyddio tirwedd fynyddig y Parc Cenedlaethol, a hawliau tramwy, ar gyfer hyfforddiant milwrol a thactegol sy'n cael ei gynnal mewn lifrai â phecynnau ac arfau. Hefyd mae'r Parc Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau anturus fel cerdded bryniau, dringo creigiau, canŵio, fforio ogofa a barcuta. Mae'r presenoldeb milwrol yn y Parc Cenedlaethol yn rhan o economi a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal. Roedd Barics Aberhonddu yn gartref i Gatrawd Cyffinwyr De Cymru, ac mae amgueddfa boblogaidd sydd ar agor i'r cyhoedd ger canol y dref.



'Beating the Retreat'



Y criw o Gyrcas sydd yn Aberhonddu

Mae amrywiol sefydliadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cynnig cyflogaeth i sifiliaid lleol ac yn defnyddio gwasanaethau lleol, cyfraniad pwysig at economi Cymru. Mae'r staff parhaol a'u teuluoedd - gan gynnwys criw o Gyrcas - yn ychwanegu amrywiaeth ddiwylliannol at Aberhonddu. Maent yn cael eu hystyried fel rhan annatod o'r gymuned.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael budd o gefnogaeth a chymorth unedau milwrol sy'n hyfforddi yn y Parc. Ar hyd y flwyddyn mae'r unedau hyfforddi hyn yn darparu cymorth hanfodol trwy sgiliau, nerth bôn braich a gwaith sylfaenol hanfodol i helpu i gwblhau prosiectau cadwraeth pwysig fel adeiladu pontydd, trwsio llwybrau troed, symud cerrig, clirio llystyfiant a harddu tir comin. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynnal cyswllt rheolaidd ag Ystadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, asgell rheoli tir y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac â Phencadlys Brigâd 160 (Cymru) ar gyfer rheoli unedau sy'n defnyddio tir comin wrth hyfforddi. Fel

Astudiaeth Achos

## Nerth Bôn Braich y Fyddin yn Helpu i Ailadeiladu'r Parc Cenedlaethol

Mae'r Asgell Datblygu Milwyr, sydd â'i chanolfan yng Ngwersyll Hyfforddiant Pontsenni, yn darparu hyfforddiant datblygiadol ar gyfer mwy na 6,000 o recriwtiaid ar hyd y flwyddyn sydd ar wythnos 10 o'u hyfforddiant sylfaenol. Yn ystod yr wythnos meant yn cael profiad o ogofau lleol, lleoliadau dringo a defnyddio caiac/canŵio ynghyd â hyfforddiant corfforol ym mynyddoedd Bannau Brycheiniog. Mae ardal y Parc Cenedlaethol yn darparu amrywiaeth ardderchog o gyfleoedd i'r Asgell gynnal hyfforddiant hanfodol sy'n orfodol i ddatblygiad y recriwtiaid.

Yn ogystal â'u gofynion o ran hyfforddiant, mae'r milwyr wedi ymrwymo i gynorthwyo â gwelliannau cadwraeth a gwella'u gwasanaethau a chysylltiadau cymunedol. Ar adeg pan mae llawer o sefydliadau yn wynebu cynnydd o ran galw am adnoddau, mae'r gefnogaeth hon yn hanfodol i reolaeth barhaus y Parc Cenedlaethol. Yn eu tro, mae'r ymdrechion hyn yn cynorthwyo milwyr trwy ddarparu amrywiaeth anhygoel o waith a datblygu sgiliau iddynt a allai fod yn ddefnyddiol iawn pan fyddant yn cael eu hanfon dramor.

Fel rhan o'u hymrwymiad parhaus, aeth yr Asgell Datblygu Milwyr at Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn 2008 a chynnig adnoddau nerth bôn braich ychwanegol i helpu i gyfrannu at brosiectau cadwraeth gan gynnwys adeiladu pontydd, trwsio llwybrau troed, cael gwared ar gerrig, clirio llystyfiant a harddu tir comin. Ym mis Rhagfyr, bu mwy na 500 o filwyr, ynghyd â wardeniaid y Parc Cenedlaethol, yn brysur mewn amodau rhewllyd ym Mannau Brycheiniog gan alluogi cwblhau gwaith sylfaenol pwysig ar brosiectau cadwraeth pwysig.

Mae ymdrechion y Fyddin wedi darparu cefnogaeth anhygoel i Fannau Brycheiniog, gan roi mwy na 6,500 o oriau o waith bôn braich i welliannau mewn rhai safleoedd allweddol yn y Parc Cenedlaethol - gan gynnwys Ardal y Rhaeadrau, Dyffryn Llanddewi Nant Hodni, Chwarel Trefil a thir comin. Mae angen gwirfoddolwyr ar hyd y flwyddyn yn PCBB, ac mae cyfraniad gwerthfawr y Fyddin wedi paratoi'r ffordd ar gyfer prosiectau partneriaeth pellach yn y dyfodol.



corff cyhoeddus, rhaid i'r Weinyddiaeth Amddiffyn, dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, ystyried dyletswydd a dibenion y Parc Cenedlaethol wrth gyflawni ei weithgareddau.

## Amcanion Strategol: **Defnydd Milwrol o'r Parc**

1. **Lleihau effeithiau niweidiol ar dirwedd, bioamrywiaeth a diddordeb hanesyddol y Parc, ac ar fwynhad pobl eraill, a achoswyd gan ymarferion milwrol a hyfforddiant anturus.**

   Un o rinweddau arbennig y Parc yw tawelwch a heddwch, y mae sŵn gan hofrenyddion ac awyrennau sy'n hyfforddi hedfan yn isel yn gallu effeithio arno. Mae'r pryder mae'r mater hwn yn achosi yn amrywio yn ôl amserlenni hyfforddi, ond nid yw'n agored i ddylanwad gan APCBB, yr Awdurdodau Unedol neu sefydliadau lleol sydd â phryderon. Er hynny, ceir nifer o gyfleoedd pan ellir cael dylanwad, yn amrywio o'r lefel strategol (e.e., ymgynghoriadau ac adolygiadau cenedlaethol gan Ystadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn) i'r lefel leol (e.e., trafodaeth â'r Weinyddiaeth Amddiffyn neu Ystadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn am geisiadau sy'n ymwneud â defnydd newydd, defnydd wedi'u hadnewyddu neu ddefnydd mwy dwys o dir yn y Parc Cenedlaethol).

2. **Addysgu defnyddwyr y gwasanaeth am ddefnydd cyfrifol, cynaliadwy a phriodol o'r Parc.**

   Mae'r defnydd milwrol o'r Parc ar gyfer ymarferion a hyfforddiant anturus yn arwain at effeithiau tebyg i'r rheiny a achosir gan grwpiau gweithgareddau awyr agored a drefnwyd. Os bydd yn cael ei reoli'n wael neu os bydd gormod, gall y rhain gynnwys traffig ar lonydd cul, aflonyddu ar stoc, erydu llwybrau, sbwriel ac anghyfleustra i ffermwyr trwy ddifrod achlysurol i waliau a ffensys. Ffactor ychwanegol yw'r effaith ar fwynhad i rai pob wrth weld milwyr arfog mewn lifrai. Lle bo hynny'n berthnasol, bydd digwyddiadau anturus yn cael eu cwmpasu gan ddatblygu APCBB sy'n datblygu o ran digwyddiadau chwaraeon a her.

3. **Manteisio i'r eithaf ar fuddion gweithgaredd milwrol yn y Parc ac o'i amgylch.**

   Mae APCBB a'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn parhau i gynnal perthynas sydd o fudd i'r ddau barti ac yn darparu ar eu cyfer. Mae hyfforddiant "Exercise Dipper" a'r Asgell Datblygu Milwyr yn rhoi cyfle i bersonél ac unedau sy'n ymweld gyfrannu at gadwraeth amgylcheddol y Parc ac yn darparu cymorth parhaus i'w gymunedau a chyfyngiadau o ran adnoddau. Mae'r APC yn ceisio cynnal y berthynas waith ardderchog hon.

4. **Rheoli tir gwledig y Weinyddiaeth Amddiffyn yn y Parc ac sy'n effeithio ar y Parc i gefnogi dibenion y Parc.**

   Mae strategaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn yn ystyried pryderon rhanddeiliaid yn briodol, gan ymgynghori â hwy ar godau ymarfer manwl mewn perthynas ag amcanion rheoli a gweithgareddau rhoi ar waith. Nid yw'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn berchen ar lawer o dir gwledig yn y Parc, ond gallai unrhyw newidiadau i ddefnydd Meysydd Saethu Pontsenni fod yn arwyddocaol. Bellach mae angen caniatâd cynllunio ar y Weinyddiaeth Amddiffyn i gynnal datblygu ar dir y Goron. Bydd APCBB yn defnyddio'r un meini prawf dylunio ac mewn mannau eraill wrth gynnig sylwadau a bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cymrodeddu mewn unrhyw anghydfod.

CROES-GYFEIRIO

| | |
|---|---|
| 7.1.1 | Tirwedd |
| 7.1.14 | Ucheldiroedd |
| 7.2.1 | Mynediad a Hamdden Awyr Agored |
| 7.3.1 | Cymunedau Cynaliadwy |
| 7.3.4 | Cynllunio a Datblygu |



Pont Senni